Mae'r Strategaeth yn helpu i ddileu gwahaniaethu drwy fod yn hygyrch i bob grŵp, a thrwy wneud addasiadau rhesymol, lle bynnag bo angen.



3.6.4. Sut allai/mae'r cynnig yn effeithio ar hybu/hyrwyddo cysylltiadau da a chydlyniant cymunedol ehangach?

Dylech ystyried a fydd y cynnig yn eich helpu chi i wneud y pethau a ganlyn : • Mynd i'r afael â rhagfarn • Hybu dealltwriaeth

Ni ddangosir ffafriaeth i unrhyw grŵp ac mae'r strategaeth yn annog cynwysoldeb. Ein nod yw darparu tai cynhwysol i bawb sydd mewn angen ac i annog a chefnogi cydlyniant cymunedol o fewn cymunedau amrywiol. Caiff cefnogaeth gan gymheiriaid ei hannog o fewn y cymunedau drwy'r Rhaglen Cefnogi Tai.

Rhoi sylw dyledus i Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol Deddf Cydraddoldeb 2010.

Mae Anfantais Economaidd-gymdeithasol yn golygu byw dan amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd llai ffafriol nag eraill o fewn yr un gymdeithas.

Fel corff cyhoeddus rhestredig, mae'n ofynnol bod Cyngor Sir Ceredigion yn rhoi sylw dyledus i Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol Deddf Cydraddoldeb 2010. I bob pwrpas, mae hynny'n golygu cynnal asesiad o'r effaith ar dlodi. Mae'r ddyletswydd yn cynnwys pawb sy'n dioddef o anfantais economaidd-gymdeithasol, gan gynnwys rhai sydd â nodweddion gwarchoddedig.

3.6.5 Pa dystiolaeth sydd gennych am anfanteision economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldebau o ran canlyniad mewn perthynas â'r cynnig? Disgrifiwch pam y bydd yn cael effaith bositif/negyddol neu effaith ddibwys.

Mae'r dystiolaeth yn dangos bod y sawl sydd ag incwm isel wedi'i gyfyngu o ran dewisiadau tai ac y gall hyn effeithio ar eu cyfleoedd o fewn eu cymuned leol, i gael cymorth, sicrhau gwaith a derbyn addysg.

Pa dystiolaeth sydd gennych i gefnogi'r farn hon?

Yr Asesiad Marchnad Dai Leol, Data'r Cyfrifiad, Cynllun Llesiant, Demograffeg.

Pa gam/camau gweithredu allwch chi eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau positif?

Mae'r Rhaglen Cefnogi Tai yn darparu cymorth a chyngor ynghylch rheoli arian, cynyddu incwm, cyllidebu, sicrhau ffyrdd iach o fyw a rheoli llety. Mae'r Strategaeth Dai hefyd yn anelu at sicrhau bod cynifer o dai fforddiadwy ac opsiynau tai fforddiadwy yn cael eu darparu ag y bo modd.

Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



3.7. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu Mae diwylliant a threftadaeth Cymru a'r Gymraeg yn cael eu hybu a'u gwarchod. <i>Yn yr adran hon, mae angen i chi ystyried yr effaith, y dystiolaeth ac unrhyw gamau yr ydych yn eu cymryd i wella. Dylech wneud hyn i sicrhau nad yw'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl sy'n dewis byw eu bywydau a defnyddio gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn waeth na'r cyfleoedd sydd ar gael i'r rheini sy'n dewis gwneud hynny drwy gyfrwng y Saesneg, a hynny yn unol â Mesur y Gymraeg 2011.</i>				Disgrifiwch pam y bydd yn cael effaith gadarnhaol/negyddol neu fawr ddim effaith o gwbl.	Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?	Pa gam (gamau) allwch chi ei gymryd (eu cymryd) i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon?
A fydd y cynnig yn cael ei roi ar waith yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg)?	Cadarnhaol ✓	Negyddol	Dim/Fawr ddim	Bydd y Strategaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg	Bydd copïau dwyieithog o'r Strategaeth derfynol ar gael ar y wefan gorfforaethol yn unol â Safonau'r Gymraeg .	Ddim yn berthnasol
A fydd y cynnig yn effeithio ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?	Cadarnhaol ✓	Negyddol	Dim/Fawr ddim	Mae'r effaith yn yr achos hwn yn gadarnhaol Mae cymunedau yng Ngheredigion yn newid ac mae hyn yn cael effaith ar y defnydd a wneir o'r Gymraeg. O fewn y strategaeth rydym yn anelu at (i) Sicrhau bod tai fforddiadwy ar gael i bobl leol fel y gallant aros yn eu cymunedau a chynnal bywiogrwydd yr iaith. (ii) Sicrhau bod digon o gartrefi ar gael i bobl	Proffil Ceredigion o ran y Gymraeg: Yn ôl canlyniadau Cyfrifiad 2021, mae 45.3% (31,678) o'r boblogaeth dros 3 oed yn siaradwyr Cymraeg . Rydym yn cofnodi dewis iaith y sawl sy'n cyflwyno ceisiadau.	Ddim yn berthnasol

Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



				ifanc, os ydynt am aros yn y Sir.		
A fydd y cynnig yn cynyddu neu'n lleihau'r cyfleoedd i bobl gael gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg?	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim	Mae'r effaith yn gadarnhaol. Gall defnyddwyr y gwasanaeth gael mynediad i'r gwasanaeth tai yn y Gymraeg neu'r Saesneg yn unol â pholisi iaith y Cyngor.	Gall ymgeiswyr wneud cais naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg a chael gwasanaeth llawn.	Ddim yn berthnasol
	✓					
Sut fydd y cynnig yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim	Bydd y Strategaeth a'r dogfennau perthnasol ar gael yn y ddwy iaith. Rydym wastad yn ystyriol o'r iaith a'r diwylliant ac rydym yn ceisio darparu cartrefi i bobl leol aros yn eu cymunedau fel y gall yr iaith ffynnu.	Un o brif amcanion y Strategaeth 'Tai i Bawb' yw mynd i'r afael â thai fforddiadwy i bobl leol. Nod y Strategaeth yw sicrhau bod digon o gyfleoedd i bobl leol sydd â chysylltiad lleol gael mynediad at dai fforddiadwy neu dai cymdeithasol. Mae'r adborth a gafwyd drwy'r cyfnod Ymgynghori wedi cadarnhau hyn. Nododd nifer o ymatebwyr na fyddai'r Strategaeth yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg.	Ddim yn berthnasol
	✓					
A fydd yn gwarchod, yn hybu ac yn cyfoethogi	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim	Amcan y Strategaeth yw cael effaith gadarnhaol ar y diwylliant a'r	Bydd camau yn cael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael ag anghenion y trigolion	Ddim yn berthnasol
	✓					

Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



diwylliant a threftadaeth lleol?				dreftadaeth leol gan gynyddu tai fforddiadwy i bobl leol.	lleol gan gynnwys anghenion ieithyddol, a gwarchod treftadaeth ddiwylliannol y sir.	
----------------------------------	--	--	--	---	---	--

4. ATGYFNERTHU'R CYNNIG: Os yw'r cynnig yn debygol o effeithio'n negyddol ar unrhyw rai o'r materion uchod (gan gynnwys unrhyw rai o'r nodweddion gwarchoddedig), pa gamau ymarferol/newidiadau allai helpu i liniaru neu i ddileu unrhyw effeithiau negyddol a nodwyd yn adrannau 2 a 3?

4.1 Camau

Beth fyddwch chi'n ei wneud?	Pryd fyddwch chi'n ei wneud?	Pwy sy'n gyfrifol?	Cynnydd

4.2. Os na fyddwch yn cymryd unrhyw gamau i ddileu neu i liniaru'r effeithiau negyddol, rhowch gyfiawnhad.

(Cofiwch: os ydych chi wedi nodi gwahaniaethu anghyfreithiol uniongyrchol a phosibl o ganlyniad i'r cynnig hwn, rhaid i chi newid neu ddiwygio'r cynnig.)

Ni nodwyd dim effeithiau negyddol.

4.3. Monitro, gwerthuso ac adolygu

Sut fyddwch chi'n monitro effaith ac effeithiolrwydd y cynnig?

Caiff effaith ac effeithiolrwydd y Strategaeth eu monitro drwy'r Bartneriaeth Tai Strategol a thrwy gynnal sgorsiau parhaus gyda'r partneriaid.

Cyngor Sir Ceredigion – Aseiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



5. RISG: Beth yw'r risg sydd ynghlwm wrth y cynnig hwn?					
Meini prawf asesu effaith	1 – Isel iawn	2 – Isel	3 – Canolig	4 – Uchel	5 – Uchel iawn
Meini prawf asesu tebygolrwydd	1 – Annhebygol o ddigwydd	2 – Llai tebygol o ddigwydd	3 – Yr un mor debygol o ddigwydd ac o beidio digwydd	4 – Mwy tebygol o ddigwydd	5 – Tebygol o ddigwydd
Disgrifiad o'r risg	Effaith (difrifoldeb)		Tebygolrwydd (y gallu i gyflawni)		Sgôr risg
Ni nodwyd unrhyw risgiau					
Allai eich cynnig chi effeithio ar faes gwasanaeth arall?					
Gallai. Trwy weithio mewn partneriaeth â'r model Llesiant Gydol Oes a'r Gwasanaeth Economi ac Adfywio, gallwn sicrhau'r effaith gadarnhaol fwyaf ledled y Sir.					

6. CYMERADWYO			
Swydd	Enw	Llofnod	Dyddiad
Rheolwr y Gwasanaeth	Llŷr Hughes		14/03/2023
Swyddog Arweiniol Corfforaethol	Greg Jones		15/08/2023
Y Cyfarwyddwr Corfforaethol	James Starbuck		15/03/2023
Deiliad y Portffolio	Y Cynghorydd Matthew Vaux		15/03/2023

Maer' dudalen yn wag yn fwriadol

CYNGOR SIR CEREDIGION

ADRODDIAD I'R:	Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach
DYDDIAD:	18 Medi 2023
LLEOLIAD:	Hybrid - Siambr/Rhithiol
TEITL:	Cyflwyno i'r Pwyllgor ganlyniad Cynllun Gweithredu Dementia Ceredigion
PWRPAS YR ADRODDIAD:	Craffu ar ganlyniad yr ymgynghori cyhoeddus a'r Cynllun Gweithredu a ddatblygwyd, a gwneud argymhellion i Gabinet Cyngor Sir Ceredigion os oes angen.
Y RHESWM PAM MAE'R PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH:	I graffu ar yr adroddiad a'r Cynllun Gweithredu a gwneud argymhellion i Gabinet Cyngor Sir Ceredigion os oes angen.

Y CEFNDIR:

Ym mis Mawrth 2021 cyhoeddodd Gwelliant Cymru 'Lwybr Safonau Gofal Dementia Cymru'. Mae'r strategaeth lefel uchel yn darparu strwythur llywodraethu rhaglen a sylfaen ar gyfer ariannu gwasanaethau, yn unol â fframwaith cyflawni Gwelliant Cymru. Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud eisoes ym Mwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru i ddatblygu gwasanaethau dementia. Mae Attain wedi bod yn gweithio gyda'r Bwrdd i gyd-ddylunio Strategaeth Dementia Ranbarthol a llwybr gofal enghreifftiol. Roedd pobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr yn ganolog i'r gwaith. Ar y cyd â hyn, cynhaliodd Attain adolygiad o'r prosiectau dementia a oedd yn cael eu hariannu gan y Gronfa Gofal Integredig Ranbarthol. Rhoddodd hyn arweiniad ar ba wasanaethau y dylid parhau i'w hariannu, yn ogystal ag awgrym o fentrau ychwanegol y dylid eu cyflawni.

Maes blaenoriaeth i Gyngor Sir Ceredigion yw datblygu Cynllun Gweithredu lleol ar gyfer dementia i gefnogi'r Strategaeth Dementia Ranbarthol. Ar 6 Rhagfyr 2022 penodwyd Attain i gynnal a hwyluso sesiynau ymgysylltu i weld pa gamau oedd eu hangen i gefnogi pobl sy'n byw gyda dementia yng Ngheredigion. Parodd y cyfnod ymgysylltu am chwe wythnos rhwng 13.02.2023 a 31.03.2023. Yn ystod y cyfnod ymgysylltu siaradodd Attain ag ystod eang o randdeiliaid, o unigolion sy'n byw gyda dementia, eu gofalwyr, a gweithwyr proffesiynol o bob rhan o faes lechyd a Gofal Cymdeithasol, gan gynnwys rhwydweithiau cymorth yn y 3^{ydd} sector. Fel rhan o'r gwaith hwn mae Attain wedi llunio adroddiad a Chynllun Gweithredu a fydd yn cefnogi Cyngor Sir Ceredigion a Bwrdd lechyd Prifysgol Hywel Dda wrth fynd i'r afael â rhai o'r heriau a'r bylchau a nodwyd.

Y SEFYLLFA BRESENNOL:

Mae'r adroddiad terfynol a'r Cynllun Gweithredu wedi cael eu drafftio erbyn hyn a gellir gweld y rhain yn Atodiadau A a B o'r adroddiad hwn.

Dyma brif ganfyddiadau'r adroddiad:

Data

- Mae oddeutu 1,260 o bobl yn byw gyda Dementia yng Ngheredigion ar hyn o bryd.
- Erbyn 2040 rhagwelir y bydd rhwng 600 a 2000 yn fwy o bobl yn byw gyda Dementia yn y sir, felly bydd cynnydd sylweddol.

Prif Themâu

O ddadansoddi gweithgareddau'r cyfnod ymgysylltu, nodwyd 20 o themâu allweddol sy'n "fannau cyfyng" yn y gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd ac yn gyfleoedd i wella profiadau:

- Y broses / llwybr atgyfeirio
- Diagnosis cyn-glinigol
- Diffyg cyfeirio priodol
- Llwybr tameidiog
- Diffyg cymorth mewn argyfwng
- Dull Tîm Amlddisgyblaethol
- Gwasanaethau Dydd
- Trafnidiaeth
- Systemau cofnodi cleifion
- Mynediad a rhannu gwybodaeth
- Ariannu
- Gwybodaeth anghywir ynghylch darparwyr trydydd sector
- Gweithio mewn seilos/ ar wahân
- Diffyg gwelyau nyrsio
- Cyfathrebu
- Recriwtio a staffio
- Cymysgedd y sgiliau a hyfforddi a datblygu
- Addysg
- Gofal Seibiant
- Cyfrinachedd

Argymhellion

Mae'r argymhellion canlynol wedi'u cynnwys yn y cynllun gweithredu (Atodiad B) ac mae rhai o'r argymhellion yn cael eu rhoi ar waith eisoes drwy Ffrydiau Gwaith Rhanbarthol dynodedig. Mae Swyddogion Ceredigion yn cymryd rhan yn y Grŵp Llywio Dementia Rhanbarthol a'r ffrydiau gwaith fesul thema, gyda Chynllun Gweithredu Ceredigion yn sail i'r Gwelliannau Strategol cyffredinol sydd eu hangen i gefnogi pobl sy'n byw gyda Dementia yng Ngheredigion.

Elfen sylfaenol o gyflawni'r cynllun gweithredu fydd sicrhau bod y Gymraeg yn rhan annatod o ofalu am siaradwyr Cymraeg sy'n byw gyda dementia, a'u cefnogi. Bydd angen ystyried hyn drwy gydol y llwybr dementia.

- **Rôl Cysylltwyr Lles Dementia (Rhanbarthol)** - Y weledigaeth ar gyfer gwasanaeth y Cysylltwyr Lles Dementia yw bod pobl sy'n byw gyda Dementia a'u gofalmwyr yn cael mynediad i gymorth cofleidiol cyson, cydgysylltiedig, fel eu bod yn gallu llywio'n effeithlon ac effeithiol drwy wasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol, a thrydydd sector, gyda chefnogaeth i'w llesiant drwy gydol y daith.
- **Gwaith archwilio ac astudiaeth dichonoldeb i ystyried gwasanaeth rhithiol a llinell gyngor ar iechyd dementia (Rhanbarthol)** - Byddai gwiriadau iechyd rhithiol yn galluogi gweithwyr proffesiynol i fonitro sefyllfaoedd o bell. Hefyd byddai mynediad i linell gyngor ar iechyd dementia yn cefnogi pobl sy'n byw gyda dementia, a'u teuluoedd a'r rhai sy'n rhoi gofal iddynt. Byddai hyn yn rhoi mynediad hawdd iddynt at gyngor ar iechyd a gallai atal gorfod mynd ar frys i ysbytai aciwt. Nid yw wedi ei brofi eto a byddai angen rhagor o waith dichonoldeb ac ymchwilio i ddeall y swyddogaethau.
- **Gwella'r opsiynau trafndiaeth yn Rhanbarthol/Lleol** - Mae'n hanfodol bod sefydliadau cyhoeddus, preifat ac elusennol yn ystyried opsiynau ychwanegol ar gyfer trafndiaeth i gefnogi cymunedau lleol a sicrhau mynediad teg i iechyd a gofal cymdeithasol i bobl sy'n byw gyda dementia.
- **Gwasanaethau dydd pwrpasol sy'n gweithredu fel hybiau cymunedol (Lleol)** - Pwyslais o'r newydd ar bwysigrwydd gwasanaethau dydd, a'r angen i drawsnewid y gwasanaethau hanfodol hyn i ddiwallu'n well anghenion pobl sy'n byw gyda dementia.
- **Gwasanaethau Dementia-gyfeillgar ym mywyd pob dydd (Lleol)** - Gan elwa ar lwyddiant trefi Dementia-gyfeillgar a dealltwriaeth gynyddol y cyhoedd o ddementia, mae Cyngor Sir Ceredigion mewn sefyllfa dda i gefnogi camau bychan, cadarnhaol ledled y gymuned yn ehangach a bywyd bob dydd.
- **Dull cydgysylltiedig o ddysgu a datblygu (Rhanbarthol)** - Dull rhanbarthol ar y cyd o ddysgu a datblygu ynghylch dementia ar gyfer staff iechyd a gofal cymdeithasol ar bob lefel.
- **Model gofal newydd sy'n cynnwys y canlynol (Rhanbarthol/Lleol – Integredig, ac angen cydweithio i ddatblygu'r maes gwaith hwn ymhellach):**
 - Tîm cymunedol dementia a llwybr atgyfeirio penodedig;
 - Cyflwyno dull tîm amlddisgyblaethol ledled y llwybr dementia;
 - Rolau clinigwyr addysg arbenigol;
 - System atgyfeirio TG integredig;
 - Gwneud penderfyniadau sy'n canolbwyntio ar y claf;

- Cynnydd mewn unedau gofal dementia arbenigol yn yr ardal.

Y Camau Nesaf

- Cyflwyno i Grŵp Strategol Ceredigion Iachach a chreu Grŵp Datblygu Integredig ar Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Trydydd Sector i oruchwyllo'r gwaith o gyflawni'r cynllun gweithredu.
- Rhannu canfyddiadau cychwynnol yr ymgysylltu gyda'r cyhoedd, a datblygu Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu gan sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol o'r cynnydd parhaus mewn perthynas â chyflawni'r cynllun gweithredu.
- Dod yn ôl i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach gydag Adroddiad Cynnydd Blyneddol.

A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig?

Do, wedi'i atodi

Crynodeb:

Hirdymor:

Bydd y Strategaeth Ranbarthol yn cynnig glasbrint ar gyfer datblygu cymorth a gwasanaethau Dementia at y dyfodol.

Integreiddio:

Mae'r Cynllun Gweithredu yn un integredig.

Cydweithio:

Mae'r Cynllun Gweithredu yn gofyn am gydweithio rhwng asiantaethau, cymunedau lleol, unigolion sy'n byw â dementia a'u gofalwyr.

Cynnwys:

Bydd angen cynnwys gweithwyr proffesiynol ledled yr awdurdod, y Bwrdd Iechyd, y trydydd sector a'r cymunedau.

Atal:

Mae Atal yn bwyslais allweddol yn y cynllun gweithredu a byddwn yn gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i sicrhau bod atal yn sail i'r gwaith o weithredu'r strategaeth.

LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:

ARGYMHELLION:

Adroddiad er gwybodaeth ac i gytuno ar argymhellion i'r Cabinet cyn iddynt ei gymeradwyo.

RHESWM DROS YR ARGYMHELLION:

Ddim yn berthnasol

Tudalen 143

Enw Cyswllt: Donna Pritchard
Swydd: Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Porth Gofal
Dyddiad yr Adroddiad: 22 Awst 2023
Acronymau:



Cyngor Sir Ceredigion – Prosiect Ymgysylltu a Chynllun Gweithredu Gwasanaeth Dementia

Adroddiad Cam 1 – Dadansoddi data a
themâu allweddol o'r gweithgareddau
ymgysylltu

Ebrill 2023



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Rheoli dogfen

Perchennog	Cyngor Sir Ceredigion
Teitl y Ddogfen	Prosiect Ymgysylltu a Chynllun Gweithredu Gwasanaeth Dementia
Fersiwn	15
Cyfeirnod	1001073
Awdur	Aoife Mulcahy/Joseph Middleton
Dyddiad	10/07/2023

Hanes dogfen

Fersiwn	Dyddiad	Awdur	Sylwadau
1.0	27/03/23	Aoife Mulcahy	Drafft
2.0	03/04/23	Martin Wilson	Adolygu a golygu
3.0	04/04/23	Aoife Mulcahy	Drafft – Wedi'i olygu
4.0	05/04/23	Martin Wilson	Drafft – Wedi'i adolygu a'i olygu
5.0	05/04/23	Aoife Mulcahy	Drafft – Wedi'i olygu
6.0	11/04/23	Martin Wilson	Drafft – Wedi'i adolygu a'i olygu
7.0	12/04/23	Joseph Middleton	Wedi'i adolygu a'i olygu
8.0	13/04/23	Cherie Cope	Adran ddata ddiwygiedig, fformat yr adroddiad
9.0	27/04/23	Joseph Middleton	Dadansoddiad o'r arolwg, ymgysylltiad ychwanegol a phrofiad byw
10.0	28/04/23	Martin Wilson	Adolygu a golygu
11.0	12/05/23	Joseph Middleton	Sylwadau NL Golygiadau Tîm Perfformiad ac Ymchwil CSC
12.0	25/05/23	Joseph Middleton	Sylwadau rhanbarthol yn unol â'r MBF
13.0	13/06/23	Joseph Middleton	Atodiad ar ymgysylltu wedi'i ychwanegu
14.0	15/06/23	Joseph Middleton	Newidiadau BPRhGC

15.0	10/07/2023	Martin Wilson	Datblygiad Hafan y Waun
16.0	11/07/2023	Joseph Middleton	Addasiad Hafan y Waun

CYNNWYS

1. CYFLWYNIAD	5
2. DADANSODDI DATA	7
3. YMGYSYLLTU Â RHANDDEILIAID	13
4. DADANSODDIAD O'R AROLWG	14
5. PROFIAD BYW A CHYD-DESTUN	18
6. THEMÂU ALLWEDDOL	21
7. PRIF FYLCHAU YN Y GWASANAETH.....	32
8. CASGLIADAU.....	35
9. ATODIADAU	39


1. CYFLWYNIAD

1.1. Cefndir

Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Gwelliant Cymru y ddogfen Llwybr Safonau Gofal Dementia Cymru. Mae'r strategaeth lefel uchel yn darparu strwythur llywodraethu rhaglen a'r sylfaen ar gyfer ariannu gwasanaethau, yn unol â fframwaith cyflenwi Gwelliant Cymru. Mae gwaith sylweddol eisoes wedi cael ei wneud o fewn Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru (BPRhGC) i ddatblygu gwasanaethau dementia. Mae Attain wedi gweithio gyda BPRhGC i gyd-lunio Strategaeth Dementia Ranbarthol a llwybr gofal gwasanaeth enghreifftiol. Roedd pobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalmwyr yn ganolog i'r gwaith. Ochr yn ochr â hyn, cynhaliodd Attain adolygiad o brosiectau Cronfa Gofal Integredig Ranbarthol yn ymwneud â dementia, a roddodd arweiniad ynghylch pa wasanaethau y dylid parhau i'w hariannu, yn ogystal â syniadau ynghylch unrhyw fentrau ychwanegol y dylid ymgymryd â nhw.

Maes blaenoriaeth Cyngor Sir Ceredigion yw datblygu cynllun gweithredu lleol ar gyfer dementia i gefnogi'r Strategaeth Dementia Ranbarthol. Mae Attain wedi cael ei benodi i gynnal sesiynau ymgysylltu gyda chylch gorchwyl eang o randdeiliaid proffesiynol a llyeg er mwyn deall yr hyn sy'n bwysig i ddefnyddwyr gwasanaeth Ceredigion, ac yna symud ymlaen i ddatblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r heriau a'r bylchau a nodwyd. Bydd hyn yn cynorthwyo Cyngor Sir Ceredigion i ddatblygu gwasanaethau yn y dyfodol a fydd yn cyd-fynd â'r Strategaeth Dementia Ranbarthol a'r polisiau a sbardunau cenedlaethol.

Mae Ceredigion yn sir wledig yn bennaf gyda chrynodiad trefol o amgylch y brif dref, sef Aberystwyth. Gwasanaethir y rhanbarth gan ystod o gartrefi gofal preswyl a meddygfeydd yn ogystal â chlinig cof yn ysbyty Bronglais (gyda chlinig lloeren unwaith yr wythnos yn ne'r sir).



Map Gwasanaeth o ddarparwyr craidd ar gyfer Gofal Dementia

Mae'r map yn dangos dosbarthiad y cyfleusterau hyn sy'n greiddiol i lwybr gofal dementia ac yn dangos rhai o heriau daearyddol mewn sir fawr ac anwastad ei phoblogaeth.

1.2. Pwrpas

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi sylw i Gam 1 y prosiect ac yn rhoi trosolwg o ddadansoddi data a'r themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg o'r gweithgareddau ymgysylltu â rhanddeiliaid. Ceir rhagor o fanylion yn yr atodiadau.

1.3. Dadansoddi data

Roedd y cam holi data yn cynnwys dadansoddiad manwl o'r "dangosfyrddau data" sy'n cynnwys data iechyd a chymdeithasol a ddarparwyd gan Gyngor Sir Ceredigion. Trwy hyn sefydlwyd i ba raddau roedd y materion a nodwyd yn yr ymgysylltu â rhanddeiliaid yn cael eu cadarnhau gan y data, ac felly'n helpu i nodi problemau ac atebion.

1.4. Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Roedd ymgysylltu â rhanddeiliaid mor eang â phosibl ac roedd cwrdd â phobl sy'n byw gyda dementia (PBGD) a'u gofalwyr yn ganolog i'r ymarfer. Yn ystod y cyfnod ymgysylltu, roedd Attain wedi cynnal sesiynau galw heibio, grwpiau ffocws o fewn gofal a llety preswyl, dros 50 o gyfweiliadau ac wedi mynychu sesiynau darparwyr i gasglu profiadau a safbwyntiau yn ymwneud â phobl sy'n byw gyda dementia yng Ngheredigion.

Cafwyd barnau a safbwyntiau o ystod eang o gefndiroedd proffesiynol, yn amrywio o staff rheng flaen i uwch reolwyr. Roedd hyn yn cynnwys y rhai o fewn yr awdurdod lleol, rheoli gofal cymdeithasol, tai a chamddefnyddio sylweddau, timau iechyd o ofal sylfaenol ac eilaidd, sefydliadau elusennol fel Cymdeithas Alzheimer a chyrrff cyhoeddus eraill fel y Gwasanaeth Tân ac Achub. Gweler Atodiad 1 am restr lawn.


Yn ogystal, cwblhaodd Cyngor Sir Ceredigion arolwg ar-lein ac ar bapur trwy gydol y cyfnod ymgysylltu. Roedd hwn yn agored i'r cyhoedd ac yn gwahodd ymatebion o bob rhan o'r sir. Roedd cyfres o negeseuon ymwybyddiaeth y cyhoedd, gan gynnwys datganiadau i'r wasg a negeseuon yn y cyfryngau cymdeithasol, wedi ysgogi cymaint o ymatebion â phosibl.

2. DADANSODDI DATA

2.1. Poblogaeth a phobl sy'n byw gyda dementia

Mae data Cyfrifiad 2021 yn dangos y bu gostyngiad cyffredinol o 5.8% ym mhoblogaeth Ceredigion. Mae hyn yn cael ei ysgogi'n bennaf gan ostyngiad yn nifer y bobl o dan 65 oed. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n cael diagnosis o ddementia yng Ngheredigion dros 65 oed (97%). Dyma'r grŵp oedran sydd wedi gweld cynnydd dramatig yn y newid yn y boblogaeth gyda 2,700 yn fwy o bobl 65+ yng Ngheredigion nag yn 2011, gan arwain at gynnydd o 17.2% mewn 10 mlynedd.


Mae'r data'n awgrymu, er bod poblogaeth Ceredigion yn crebachu, mae poblogaeth oedranus y rhanbarth yn tyfu ar gyfradd sylweddol.



Mae rhagfynegiadau demograffig wedi'u modelu yn disgwyl y bydd y rhanbarth yn parhau i wynebu gostyngiad cyson yn y boblogaeth gyffredinol. Fodd bynnag, disgwylir y bydd poblogaeth pobl 65 oed a hŷn yn cynyddu o ran nifer ac fel cyfran o'r boblogaeth gyfan. Gallwn weld rhwng canfyddiadau'r cyfrifiad yn 2021 (26%) a'r sefyllfa a ragwelir yn 2040, y bydd cyfran y bobl 65+ wedi cynyddu 7 pwynt canran arall i 33% o'r bobl sy'n byw yng Ngheredigion.


Felly, er bod y boblogaeth yn crebachu, disgwylir i gyfran y bobl oedranus gynyddu'n gyson. Bydd hyn yn sicr o arwain at bwysau pellach o ran y galw ar wasanaethau i bobl hŷn yng Ngheredigion. Mae hyn yn cynnwys gofal dementia, y mae 97% ohono'n cael ei ddarparu i'r grŵp oedran 65+.

Yn ôl poblogaeth, mae Ceredigion yn is na chyfartaledd y DU, sef tua 1,260 o bobl sy'n byw gyda dementia, tra bod cyfartaledd y DU yn 1,302. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae canran poblogaeth y rhanbarth sy'n byw gyda dementia ychydig yn uwch na chyfartaledd y DU, sef 1.69% o'i gymharu ag 1.33% ar gyfer etholaethau'r DU ar gyfartaledd.



Gwyddys hefyd fod dementia yn cael ei danddiagnosisio ar draws y byd; nid yw Cymru a Cheredigion yn eithriad ac amcangyfrifir mai tua 53% yn unig yw cyfradd diagnosisio Hywel Dda (er bod rhai amcangyfrifon wedi awgrymu y gallai hyn fod wedi bod mor isel â 45% ar un adeg). Mae hyn oll yn dangos bod angen sylweddol ymysg y boblogaeth, angen sy'n tyfu dros amser. Ceir ymrwymiad rhanbarthol i gynnydd blynyddol o 3% mewn cyfraddau diagnosis sydd ar darged.

Mae dementia yn effeithio'n anghymesur ar bobl hŷn. Mae tua 97% o'r rhai a gafodd ddiagnosisio o ddementia yng Ngheredigion dros 65 oed. O ran rhyw, er gwaetha'r hyn sy'n ymddangos yn wahaniaeth amlwg rhwng cyfraddau diagnosisio gwrywod a benywod – mae rhywfaint o gydbertynas â'r ffaith bod cyfran fwy o fenywod yn y grŵp oedran 65+ yn gyffredinol ar lefel ranbarthol. Yr eithriad yw pobl 80+ oed lle mae'r data'n awgrymu bod mwy o fenywod yn cael diagnosis na gwrywod yn gyffredinol o'i gymharu â chyfanswm y boblogaeth ar gyfer yr un ystod oedran.




Mae'r twf a ragwelir o ran PBGD yn amrywio unrhyw le o 600 yn fwy o PBGD yn 2040 o'i gymharu â 2000. Os yw hyn yn gywir, mae hyn yn gynydd o 49% o leiaf yn nifer yr achosion o'i gymharu â'r nifer presennol. O'i gymharu â siroedd eraill yng Nghymru, mae cyfradd twf Ceredigion yn arafach, ond mae'n parhau i fod yn sylweddol o ystyried y boblogaeth sy'n heneiddio. Mae'r sylwadau isod o'r Asesiad o Lesiant Lleol a gyhoeddwyd yn 2022 yn egluro'r sefyllfa'n dda – Dementia a chlefyd Alzheimer oedd y trydydd achos marwolaeth mwyaf cyffredin yng Ngheredigion rhwng 2013 a 2020 – sy'n cyfateb ag oddeutu 8.2% o farwolaethau bob blwyddyn, neu 65 o bobl y flwyddyn (wedi'i dalfyrru o Asesiad o Lesiant Lleol 2022 – td.19).

2.2. Dementia Cynnar

Er mai'r cynnydd ym mhoblogaeth pobl hŷn a'r achosion cynyddol o ddementia yn y proffil oedran hwn yw craidd a swmp yr holl achosion o ddementia, nid oes lefel ansylweddol o ddementia cynnar (cyfeirir ato weithiau fel dementia oedran gweithio) yn genedlaethol ac ar draws Ceredigion.

Amcangyfrifir bod tua 1 o bob 1,000 o bobl yng Nghymru â dementia cynnar. Mae amcangyfrifon pellach yn awgrymu bod y ffigur ychydig yn uwch yng Ngorllewin Cymru, ac yn arbennig felly yng Ngheredigion. Mae'r niferoedd ar gofrestri meddygon teulu yn llawer is nag y byddai hynny'n ei awgrymu, gyda llai nag 20 o bobl â diagnosis ffurfiol. Yn ôl y lefelau a ragwelir, dylai'r nifer hwn fod yn agosach at 70-100 o bobl.

Mae proffil dementia cynnar, neu oedran gweithio, yn dilyn patrwm diagnosisu eraill yn yr ystyr bod nifer yr achosion yn cynyddu gydag oedran.



Fel y nodwyd, mae'r graff uchod yn dangos tanddiagnosis ar gofrestri meddygon teulu; rhagwelir y bydd niferoedd yn uwch na hyn ond gwelir patrwm o gynyddu gydag oedran. Mae Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad Ceredigion o 2022 yn nodi bod bylchau "naill ai'n ddaearyddol neu ar gyfer gwasanaethau mwy arbenigol fel dementia cynnar", ac felly cydnabyddwyd yn ddiweddar bod mwy o angen am wasanaethau yn y maes hwn.

Mae'n debygol bod cyfran uwch o bobl yn y garfan iau hon heb gael diagnosis, yn enwedig o ystyried bod y grŵp hwn o bobl yn aml â ffurfiau llai cyffredin o ddementia. Yn

2013 adroddodd y Comisiwn Ansawdd Gofal (Lloegr) fod achosion o ddementia heb eu cofnodi deirgwaith yn fwy cyffredin ymhlith pobl rhwng 18 a 54 oed o'i gymharu â'r rhai dros 75 oed. Nid yw ystadegau bob amser yn cael llawer o gyhoeddusrwydd ar gyfer y grwpiau oedran iau, fodd bynnag, amcangyfrifir mai'r amser cyfartalog ar gyfer diagnosis yw tua 4.4 blynedd ar gyfer pobl iau o'i gymharu â thua 2.2 mlynedd ar gyfer pobl dros 65 oed. Awgrymodd gwefan dementia cynnar bod y gyfradd diagnosis o ddementia amcangyfrifedig ar gyfer y proffil oedran iau, ar draws Lloegr yn 2018 yn 41% yn unig. Gyda chyfraddau diagnosis cyffredinol yng Nghymru yn is na'r rhai ar draws y DU, mae'n rhesymegol i feddwl bod yr un peth yn wir ar gyfer cyfraddau diagnosis o ddementia cynnar. Wrth edrych ar ddata'r gofrestri meddygon teulu ar gyfer y grŵp oedran hwn yn erbyn yr hyn y gellid ei ddisgwyl (tua 20 o bobl ar y gofrestr o'i gymharu â'r 75 disgwyliedig), mae hyn yn rhoi cyfradd diagnosis bras ar gyfer dementia cynnar o 20-30% yng Ngheredigion.


Pwynt pwysig arall o ran heriau diagnosis ar gyfer y garfan oedran iau hon yw'r tebygolrwydd uwch y bydd gan y person â dementia anableddau dysgu. Gwyddys y gall hyd at dri chwarter o bobl â Syndrom Down dros 50 oed ddatblygu dementia. Gall hefyd fod yn anoddach gwneud diagnosis o fewn y grŵp hwn oherwydd yr heriau sy'n gysylltiedig ag asesu newidiadau sgiliau meddwl y rhai ag anableddau dysgu (Cymdeithas Alzheimer). Mae hyn wedi'i gydnabod yn Llwybr Safonau Gofal Dementia Cymru lle mae Safon 4 yn nodi bod disgwyl i ranbarthau sicrhau bod pobl ag anableddau dysgu'n cael cynnig archwiliadau llesiant gwybyddol rheolaidd er mwyn helpu i adnabod yn gynt symptomau a allai fod yn arwydd o dementia.

2.3. Data Arall ac Ansawdd Data

Dechreuodd arweinwyr gwybodaeth Cyngor Sir Ceredigion ar dasg fel rhan o'r gwaith hwn i dynnu data o'u systemau lle mae sôn am ddementia. Darparwyd a dadansoddwyd y data. Mae bylchau sylweddol yn y data, yn enwedig o 2020 ymlaen, lle mae nifer yr atgyfeiriadau a phobl unigol wedi gostwng yn sylweddol.

Mae'n bwysig iawn nodi, er bod yr isod yn ceisio dod i rai casgliadau o'r data hwn dylid ystyried y casgliadau yng nghyd-destun pryderon am ansawdd data.


Mae'r graff isod yn dangos y gostyngiad a nodwyd uchod yn y niferoedd a gofnodwyd, sy'n dangos nad ydym yn gwybod y rhesymau dros y gostyngiad (newid cofnodi, ansawdd data neu lai o atgyfeiriadau / sôn am ddementia).



Mae nifer yr atgyfeiriadau sy'n sôn am ddementia yn dangos patrwm tebyg ac mae nifer cyfartalog yr atgyfeiriadau fesul person wedi gostwng o 2.08 i tua 1.7 rhwng 2017 a 2022. Mae'n anodd gwybod wrth adolygu'r data a fu newid mewn gwasanaethau yn ystod Covid sydd wedi parhau neu a fu gostyngiad mewn cofnodi (unigolion sy'n hunan-atgyfeirio a chan bobl sy'n derbyn atgyfeiriadau.

Y naill ffordd neu'r llall, mae'r data'n rhoi ychydig o fewnwelediad diddorol er nad yw'n peri syndod:

- Mae atgyfeiriadau sy'n sôn am ofal preswyl, gofal nyrsio a/neu ofal cartref yn ffurfio rhwng pumed a chwarter o'r holl unigolion yn y set ddata.
 - Maent yn ffurfio dros draean o'r holl atgyfeiriadau.
- Yn 2018 gofal cartref oedd â'r nifer fwyaf o atgyfeiriadau oedd yn sôn am ddementia yn hytrach na gofal preswyl. Mae wedi parhau i fod yr uchaf ers hynny.
- Er gwaethaf y gostyngiad yn y niferoedd cyffredinol ar draws yr holl wasanaethau, cynyddodd atgyfeiriadau gofal cartref yn sylweddol yn 2020 yn ystod Covid. Cynyddodd y gyfran hefyd o 19-21% i dros 26% o'r holl atgyfeiriadau. Mae hyn yn awgrymu, yn hytrach na chofnodi newid, bod newid gwirioneddol naill ai yn y dewis neu'r ddarpariaeth gwasanaeth oherwydd y pandemig.
- Roedd dros 90%, ac weithiau nifer mor uchel â 94%, o'r bobl a atgyfeiriwyd lle roedd sôn am ddementia dros 65 oed (DS: cafodd pawb o dan 40 oed eu dileu oherwydd maent yn debygol o fod yn gywir, ond mae gofalwyr neu aelodau o'r teulu sy'n gwneud atgyfeiriadau ac wedi'u cofnodi felly, yn hytrach na'r person sy'n cael ei atgyfeirio).
- Oed canolrifol yr atgyfeiriadau yw 81, y cymedrig yw 79 oed.



Mae'n bwysig nodi nad oedd gan dros hanner y cofnodion yn y set ddata unrhyw wasanaeth wedi'i gofnodi yn eu herbyn, felly mae'n gwbl bosibl y dylai'r 'bylchau' hynny gael eu cynnwys mewn un o'r categorïau eraill. Dangosir y categorïau cyffredinol isod, gyda'r rhan fwyaf â niferoedd bach iawn ac yn cael eu codio'n anghyson ar draws y blynyddoedd.

Gofal Preswyl i Oedolion	Taliadau Uniongyrchol	Gwasanaethau Gofalwyr	Seibiannau
Gofal Cartref	Prydau Bwyd	Gwybodaeth	Partneriaeth Arloesi
Gofal Nyrsio	Gofal Dydd	Byw â Chymorth	Heb ei Gofnodi
Technoleg Gynorthwyol	Offer ac Addasiadau	Trafnidiaeth	

Heblaw am 'Heb ei gofnodi' fel y disgrifir uchod (sy'n dod drwodd yn wag yn y data) mae gan bopeth heblaw gofal preswyl, gofal cartref a gofal nyrsio niferoedd isel.

Roedd gan dechnoleg gynorthwyol niferoedd tebyg i ofal nyrsio tan 2019, pan ddisgynnodd yn sylweddol ac nid yw byth wedi dychwelyd i'r lefelau uwch. Mae Taliadau Uniongyrchol wedi cael, ac yn parhau i gael, niferoedd tebyg wedi'u cofnodi i ofal nyrsio. Mae'r niferoedd ar draws y rhain yn eithaf isel.

Mae'r data yn dweud wrthym fod cofnodi wedi newid mewn rhyw ffordd, ac felly mae angen dehongli'r holl ganlyniadau gyda hyn mewn golwg. Nid yw'n rhoi rheswm dros atgyfeirio yn erbyn y rhai sy'n wag.

Fodd bynnag, beth sy'n cael ei ddangos yw yn y blynyddoedd 2017-2019, sy'n edrych yn fwyaf cyflawn, bod tua 1,000 o unigolion yn systemau'r Awdurdod Lleol lle roedd sôn am ddementia.

Waeth beth fo'r data cyfyngedig, erys y ffaith bod dementia yn her gyfredol a chynyddol i bobl Ceredigion. Wrth i'r oedran cyfartalog yng Ngheredigion fynd yn hŷn yn raddol, bydd angen i wasanaethau ehangu ac addasu i ateb anghenion carfan fwy o bobl oedranus. Fel rhan o weithredu strategaeth dementia mae'n bwysig ystyried sut mae data'n cael ei gofnodi a'i adrodd yn ôl gan wasanaethau er mwyn gwerthuso newid yn well ac arddangos gwaith da.

3. YMGYSYLLTU Â RHANDDEILIAID

3.1. Dull

Ymgysylltiad pellgyrhaeddol a dwfn â rhanddeiliaid oedd sylfaen dull Attain, gan roi defnyddwyr gwasanaeth (a'u teuluoedd a'u gofalwyr lle bo'n briodol) yn y canol. Roedd y dull a ddefnyddiwyd yn seiliedig ar yr egwyddor o gyfuno mewnwelediad a phrofiad o arferion gorau rhyngwladol, cenedlaethol a lleol ag ymgysylltiad trwyadl ag arweinwyr systemau a rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys defnyddwyr a gofalwyr. Er mwyn sicrhau trylwyredd cyflenwi priodol, dilynodd Attain y dulliau rheoli prosiectau a rhaglenni sy'n gyfarwydd i'r sector cyhoeddus, yn benodol PRINCE2 ac Agile. Mae ein tîm wedi gweithio gydag uwch arweinwyr, clinigwyr, darparwyr gofal, defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr i fapio'r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd. Rydym wedi gweithio'n agos gydag aelodau allweddol o'r tîm cleientiaid, gan ddefnyddio eu gwybodaeth leol, eu cysylltiadau a'u harbenigedd, a sicrhau eu perchnogaeth o'r amcanion a'r canlyniadau ar gyfer y gwaith hwn.

3.2. Methodoleg

Roedd mabwysiadu ystod hyblyg o ddulliau cyfathrebu yn golygu bod modd cyrraedd y nifer mwyaf posibl. Cynhaliwyd yr ymgysylltu trwy alwadau ffôn, sesiynau 1:1 ar-lein Microsoft Teams, sesiynau darparwyr grŵp ar-lein Microsoft Teams, cyfarfodydd wyneb yn wyneb, sesiynau galw heibio, dosbarthu arolygon ar-lein ac ar ffurf copi caled a thrwy ohebiaeth ebost.

Ffordd allweddol oedd cynnal fforymau darparwyr a oedd yn rhoi cyfle i weithwyr proffesiynol mewn meysydd gwaith tebyg ddod at ei gilydd a rhannu profiadau tebyg neu rannu heriau cyffredin.

4. DADANSODDIAD O'R AROLWG

Roedd yr arolwg ategol a gynhaliwyd gan Gyngor Sir Ceredigion yn golygu ein bod wedi cyrraedd pob ychwanegol a chasglu barn ar draws y sir.


Derbyniwyd cyfanswm o 44 o ymatebion. O'r rhai a roddodd wybodaeth ynghylch ble roeddent yn byw, roedd 4 yn byw yng ngogledd y sir, 12 yn byw yn nghanol y sir, ac 14 yn byw yn ne'r sir.

Roedd yr ystod oedran o'r categori dros 65 oed yn bennaf sy'n cyd-fynd ag ystodau oedran nodweddiadol dementia cynnar (gweler adran 2.2) heb unrhyw ymatebion yn ymwneud â'r rhai â dementia cynnar.

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn drigolion Ceredigion oedd â diddordeb, ond cafwyd ymatebion hefyd gan ofalwyr di-dâl, gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol a chafodd nifer cyfyngedig eu cwblhau ar ran rhywun â dementia.

Roedd adrannau 1-5 o'r arolwg yn rhoi sylw i wybodaeth ddemograffig a diagnosis.


6. Eich gwybodaeth



Mae cwestiynau Adran 6 yn adolygu hyd a lled dealltwriaeth a gwybodaeth y cyhoedd am ddementia. Yn gyffredinol, mae ymatebwyr yn nodi bod ganddynt ddealltwriaeth sicr o ddiagnosis ac ymdeimlad o reolaeth dros benderfyniadau bywyd.


Mae'n bosib bod hyn yn adlewyrchu proffil uwch dementia yn y parth cyhoeddus, wedi'i gryfhau gan ymgyrchoedd ymwybyddiaeth gan elusennau amlwg fel Cymdeithas Alzheimer. Fodd bynnag, yn ogystal, mae ein tystiolaeth ansoddol yn awgrymu bod stigma yn parhau ynghylch diagnosis o ddementia.

8. Gwasanaethau Lleol / Y Gymuned Leol



Mae Adran 8 yn asesu'r ddarpariaeth gwasanaeth yn y sir a'r ymdeimlad o berthyn o fewn cymunedau lleol. Mae cyfeirio a llywio at wasanaethau yn her allweddol i bobl ond mae'r arolwg yn adlewyrchu tystiolaeth bod cymunedau lleol wedi'u ffurfio'n dda ac yn glos.


10. Y Dyfodol



Yn adran 10, roedd cwestiynau'n asesu anghenion unigol, yn enwedig o ran llety a chynllunio ar gyfer y dyfodol. Yn unol â'n hymngysylltiad, teimlai ymatebwyr na allant gael

mynediad at lety arbenigol. Yn ein sgysiau cyfeiriodd gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd dro ar ôl tro at y diffyg gwelyau nyrsio sy'n addas ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia. Mae gwybodaeth gref am faterion cyfreithiol yn enghraifft gadarnhaol o dîm amlddisgyblaethol ehangach sy'n cefnogi'r rhai sy'n byw gyda dementia.


12. Y gefnogaeth yr ydych yn ei derbyn



Mae Adran 12 yn ymchwilio i rwydweithiau cymorth gan gynnwys gwasanaethau fel practis cyffredinol. Mae hyn yn cyd-fynd â'r hyn a ddysgwyd, sef bod practis cyffredinol yn uchel ei barch ymysg pobl Ceredigion ac, yn y rhan fwyaf o achosion, mae pobl yn cael cysylltiad rheolaidd â meddyg teulu cyfarwydd.

Yn yr un modd, mae gofalwyr yn uchel iawn eu parch ac yn cael eu gwerthfawrogi gyda rhai enghreifftiau gwych o grwpiau cymunedol ac elusennol yn helpu gofalwyr gyda budd-daliadau a hawliau.

14. Cefnogaeth y gymuned



Cafodd materion yn ymwneud â thrafnidiaeth gyhoeddus le amlwg iawn yn ystod ein sgysiau a'u hatgyfnerthu eto yn y data yn yr arolwg. Roedd cymunedau gwledig yn arbennig i'w gweld mewn perygl o gael eu hynysu gyda heriau o ran cael mynediad at ofal a chymorth.

5. PROFIAD BYW A CHYD-DESTUN

Rydym wedi tynnu sylw at rai o'r straeon ingol a glywyd yn ystod ein hymgysylltiad cyhoeddus. Mae'r ffynonellau gwybodaeth cyfoethog hyn wedi helpu i lunio ein dadansoddiad thematig ac yn darparu profiadau byw'r rheini sy'n byw yn y sir. Lle mae cyswllt clir â'n dadansoddiad thematig yn adran 6, rydym wedi cyfeirio ato isod.

5.1. Gwasanaethau cydgysylltiedig ar adeg diagnosis

Themâu Cysylltiol: 1-4, 10, 13

Mae Janet yn ddarlithydd sydd wedi ymddeol ac yn byw gyda'i gŵr yn Aberystwyth. Mae dementia ar ei mam ac mae'n dangos arwyddion o golli cof ond roedd llystad Janet yn erbyn cael unrhyw gymorth. Mae Janet yn meddwl mai'r rheswm am hyn yw oherwydd y stigma ynghylch diagnosis o ddementia.

Pan benderfynodd y teulu geisio cymorth, cawsant brofiad cadarnhaol gyda'u meddyg teulu lleol a chawsant eu gweld yn y clinig cof ddeufis yn ddiweddarach, lle cafodd y diagnosis o ddementia ei gadarnhau.

"Doedd dim byd wedi'i gysylltu, roedd rhaid i mi wneud sawl galwad ffôn i gael fy nghysylltu â'r bobl iawn, ac egluro'r sefyllfa dro ar ôl tro".

Roedd nyrsys ardal oedd yn ymweld â llystad Janet wedi cael pryderon am yr amodau byw, roedd Janet wedi ei chael hi'n anodd cael mynediad at wasanaethau neu wybod at bwy i droi.

5.2. Gwerth grwpiau elusennol fel HAVHAV

Themâu Cysylltiol: 5, 7, 12, 19

Mae HAVHAV yn cynnal sesiwn te a theisen wedi'i dilyn gan sesiwn ganu neu Tai Chi, sy'n agored i'r rhai sy'n byw gyda dementia yn ogystal â'u partneriaid a'u gofalwyr. Mae HAVHAV yn elwa ar arweinydd dementia, cyn nyrs sy'n canolbwyntio ar redeg gweithgareddau a chefnogi gofalwyr pobl sy'n byw gyda dementia yn benodol.

Buom yn siarad â thri gofalwr di-dâl, oedd i gyd yn brofiadol iawn o ran gallu llywio'r system iechyd a gofal. Roeddent yn barod i leisio eu barn a rhannu eu taith o ddiagnosis i geisio cymorth ychwanegol. Dywedodd pob un ohonynt fod diffyg cyswllt allweddol i ganoli rhai o'u hanghenion yn broblem.

"Rhoddodd y ganolfan ddydd seibiant mawr ei angen ac amser i ni ein hunain. Roeddem ni'n gwybod bod ein hanwyliaid yn derbyn gofal da."

Disgrifiwyd hefyd yr angen am gymorth mewn argyfwng neu dros dro a fyddai'n camu i'r adwy pe na bai eu gofalfwyr cofrestredig yn cyrraedd neu os nad oedden nhw eu hunain yn gallu gofalu.

5.3. Helpu i fyw'n annibynnol

Themâu Cysylltiol: 11-12, 15, 19

Mae mam-yng-nghyfraith Susanne yn byw gyda hi a'i gŵr yn dilyn diagnosis o ddementia 7 mlynedd yn ôl. Mae Susanne wedi sylwi ar ddirywiad graddol yng ngwybyddiaeth ei pherthynas dros y blynyddoedd.

Mae hi wedi sylwi nad yw'r pethau roedd ei mam-yng-nghyfraith yn arfer eu mwynhau yn ddiddorol iddi bellach, ac mae Susanne yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i bethau i'w difyrru.

"Llwyddais i gael gofalfwyr ddwywaith yr wythnos i roi help llaw gyda chael cawod gyda'r hwyr, ond fel arall ni sy'n gwneud y cyfan. Cawsom ni 14 awr o ofal seibiant trwy Groesffyrdd ond mae'n rhaid i ni ddefnyddio hwn fesul tipyn 2 awr bob pythefnos."

Wrth i amser fynd yn ei flaen, mae angen cymorth ar ei mam-yng-nghyfraith gyda bron ei holl weithgareddau bywyd beunyddiol, ac mae problemau clyw yn gwneud pethau'n waeth, ac nid ydynt wedi cael cyfle i drafod cynllunio ar gyfer y dyfodol.

5.4. Adeiladu'r fîm amlddisgyblaethol

Themâu Cysylltiol: 3, 6, 15, 18

Mae Wyn wedi bod yn gofalu am ei wraig ers iddi gael diagnosis o sglerosis ymledol yn 60 oed, 7 mlynedd yn ôl. Roedd Wyn wedi ymddeol o'i yrfa bryd hynny i fod yn ofalwr amser llawn i'w wraig.

Trodd Wyn at ei gynghorydd lleol i geisio cymorth ar ôl cael trafferth i lywio'r system gofal cymdeithasol gymhleth.

"Gyda chymorth fy nghynghorydd lleol, roeddwn i'n gallu trefnu pethau fel Atwrneiaeth Arhosol a Lwfans Gofalwr. Ers iddi gael diagnosis o ddementia pan oedd hi yn yr ysbyty mae hi wedi aros tair wythnos i'r gofal ddechrau gartref".


Nid oedd Wyn yn ymwybodol am y cysylltwyr cymunedol lleol, ond bu'n ffodus i gwrdd â nhw fel rhan o'n prosiect a chael gwybod am grwpiau a chysylltiadau amrywiol i'w defnyddio. Teimlai pe bai gwasanaeth o'r fath yn fwy hysbys y byddai'n gaffaeliad mawr i'r gymuned leol.

6. THEMÂU ALLWEDDOL

Gan ddistyllu'r wybodaeth a'r mewnwelediad helaeth a gafwyd ar draws ein hymgysylltiad Cam 1 datblygwyd cyfres o Themâu Allweddol sy'n dwyn ynghyd llinynnau a heriau cyffredin ar draws ystod eang o feysydd.


Ym mhob thema, rydym wedi tynnu sylw at fannau cyfyng a meysydd o botensial na fanteisir arno sy'n cynrychioli cyfleoedd i wella profiadau i bobl sy'n byw gyda dementia yn y dyfodol.

Thema 1	Proses atgyfeirio/Llwybr	<ul style="list-style-type: none"> • Mae Cymdeithas Alzheimer yn derbyn 20 o atgyfeiriadau bob mis ac mae hyn yn dangos ei fod yn wasanaeth nad yw'n cael ei ddefnyddio'n ddigonol sydd â'r gallu i dderbyn mwy o atgyfeiriadau gan ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol craidd. • Nid yw gofal sylfaenol yn atgyfeirio at sefydliadau darparwyr trydydd parti nac elusennau fel mater o drefn. • Atgyfeiriadau anghywir at sefydliadau elusennol oherwydd camddealltwriaeth o ran yr hyn y maent yn ei ddarparu. • Mae fferyllfa ar gyfer PGBD yn aml yn cael ei gychwyn gan ofal eilaidd, mae adolygiadau rheolaidd o feddyginiaeth yn anghyson ac yn aml nid ydynt yn cynnwys adolygiad o driniaethau dementia arbenigol. • Mae'r clinig cof yn cael ei ystyried yn anghywir fel 'ceidwad' ar gyfer diagnosis a chymorth pellach. • Mae llwybrau atgyfeirio i ofal diwedd oes yn fwy sefydledig a threfnus na'r rhai ar gyfer cymorth dementia cyn-glinigol.
Thema 2	Diagnosis cyn-glinigol	<ul style="list-style-type: none"> • Mae diffyg ymwybyddiaeth, addysg a gwybodaeth am y camau gweithredu gorau ar gyfer cyflwyniadau cyn-glinigol. • Dim ond unwaith bob ychydig flynyddoedd pan fyddant yn sâl y bydd rhai pobl yn mynd at y meddyg teulu, gyda chyfleoedd prin felly i ddal y rhai sydd mewn perygl neu sy'n dangos arwyddion cynnar o nam gwybyddol. • Ymwybyddiaeth gyfyngedig y cyhoedd o'r cymorth sydd ar gael ar gyfer 'cadw'n iach' yng nghamau cynnar dementia a thrafferth i gael hyd i ffynonellau cymorth heb fod yn sefydliadol (h.y. gwasanaethau nad ydynt yn rhai GIG/ALI).

		<p style="text-align: center;">Ymatebion i'r Arolwg ynghylch Diagnosis ac Ymwybyddiaeth</p>  <ul style="list-style-type: none"> • Mae ymatebion i'r arolwg yn awgrymu bod dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth dda o ddementia, gyda'r cafeat y gallai'r rhai a gwblhaodd yr arolwg gynrychioli carfan fwy gwybodus.
<p>Thema 3</p>	<p>Dim cyfeirio priodol</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd yn ei chael hi'n anodd cysylltu â'r person cywir y tro cyntaf oherwydd cymhlethdod a chyfrifoldebau amrywiol. • Mae'n anodd deall beth mae pobl ym mhob rhan o'r llwybr yn ei wneud a rôl pwy ydyw a pha wasanaethau y maent yn eu darparu ym mhob sefydliad. • Ar ôl i bobl gael eu gweld yn y clinig cof lle maent yn cael eu diagnosis, nid ydynt yn cael eu hadolygu wedi hynny gan y clinig cof, felly nid oes unrhyw wybodaeth am newid yn statws y diagnosis. Gall PGBD ddechrau meddyginiaethau o'r pwynt hwnnw, os yw'n addas, ond yn gyffredinol cânt eu gadael heb apwyntiad dilynol wedi'i gynllunio a dim cyfeirio ynghylch ble i fynd nesaf. • Trosiant uchel o staff gofal cymdeithasol a thrydydd parti – nid yw gofalmwyr yn gwybod pwy i gysylltu â nhw i uwchgyfeirio materion.


Thema 4	Llwybrau darniog	<ul style="list-style-type: none"> • Mae oedi cyn cael eu gweld (ac felly cael diagnosis) yn y clinig cof yn arwain at gyfnod a gael eu gadael 'yn nhir neb' lle gall pobl ddirywio ymhellach heb gymorth dros dro. • Nid yw dogfennu, monitro a gwerthuso amrywiannau a chanlyniadau, cydgysylltu'r broses ofal a rhoi gweithgareddau gofal amlddisgyblaethol mewn trefn yn digwydd ar hyn o bryd mewn ffordd gydlynol a chyffredin gan achosi llwybrau i ddarnio. • "Dim dull fîm amlddisgyblaethol sy'n darparu gofal cydlynol i unrhyw un ar hyd y llwybrau. Mae graddau amrywiol o effeithlonrwydd o fewn y llwybrau ond nid yw un unigolyn yn gyfrifol am gyfeirio neu gwblhau adolygiad o drosglwyddo claf." • "Oherwydd darnio yn y llwybr mae un gwasanaeth yn aml yn cael ei weld yn ymladd yn erbyn y diffyg adnoddau ym meysydd darparu gwasanaeth yn y llwybrau presennol." • Mae gorddefnydd o wasanaeth y nyrs eiddilwch i ateb anghenion PGBD yn yr ardal a ddylai fel arall fod wedi cael eu gweld gan nyrsys ardal, ac mae hyn yn creu ochrgamu a llusgo cwmpas. • Mae'r clinig cof yn rhan annatod o'r llwybr ond yn aml yn cael ei gamddehongli fel 'siop un stop' yn hytrach na 'chog' mewn peiriant ehangach.
Thema 5	Diffyg Cymorth mewn Argyfwng	<ul style="list-style-type: none"> • Derbyniadau cymdeithasol uchel oherwydd diffyg gofal seibiant neu ofalwyr cartref. • Dim fîm ar gael tra bod pobl yn aros am y clinig cof neu ofal yn y cartref yn ystod cyfnod heriol. • Mae angen mwy o gymorth a mewnbwn ar PGBD os ydynt yn dangos ymddygiad heriol ac nid yw'r teulu yn gallu rheoli'r risg. • Mae angen i weithwyr cymorth dementia roi cymorth mewn cartrefi nyrsio yn ystod cyfnodau o argyfwng. • Y gwasanaeth ambiwlans yw'r 'dewis olaf' yn aml heb gynlluniau wedi'u paratoi na mynediad at wybodaeth gydgysylltiedig.
Thema 6	Dull Fîm Amlddisgyblaeth hol	<ul style="list-style-type: none"> • Dull fîm amlddisgyblaethol anghyson mewn gofal sylfaenol. • Nid yw'n arfer cyffredin i ddefnyddio dull fîm amlddisgyblaethol i gysylltu'r gwaith o reoli gofal pobl. • Rhaid i'r fîm amlddisgyblaethol a'r llwybr adlewyrchu rolau a chyfrifoldebau a'r hyn y gall ac na all pob asiantaeth ei ddarparu i gael dulliau integredig gwell.

		<ul style="list-style-type: none"> • Gall dull fim aml-ddisgyblaethol alinio sgysiau cynnar, dewisiadau pobl, a dymuniadau PGBD.
Thema 7	Gwasanaethau dydd	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gwasanaethau dydd yn cael eu hystyried yn rhan annatod o fynd i'r afael ag ynysu cymdeithasol ac unigrwydd pan gânt eu darparu'n effeithiol. • Ceir profiadau arbennig o gadarnhaol pan fydd gofalwyr a PGBD wedi ymgysylltu ac yn cael eu darparu ar eu cyfer gyda'i gilydd e.e. te prynhawn, grwpiau canu. • Ar wahân, mae gwasanaethau dydd yn cael eu gweld fel ffynhonnell werthfawr o seibiant yn ystod y dydd i ofalwyr. • Mae grwpiau elusennol fel HAVHAV a Ray Ceredigion yn cynnig gwasanaethau hynod werthfawr ac uchel eu parch yn y gymuned leol. • Mae HAVHAV yn elwa ar arweinydd dementia ymroddedig, cyn nyrs sy'n mynd ati i nodi beth mae ei chymuned ei angen/eisiau ac yn trefnu gweithgareddau o'r fath. • Mae PGBD a'u gofalwyr yn dibynnu ar hunan-gludo i nifer gynyddol gyfyngedig o leoliadau i gael mynediad at wasanaethau dydd; mae rhai ohonynt heb ailagor ar ôl Covid ac eraill yn cael eu hadnewyddu sydd wedi arwain at fylchau mawr. • Mae angen dyfeisgarwch a dulliau newydd i ehangu'r gweithgareddau ar gyfer pobl sy'n defnyddio gwasanaethau dydd, yn enwedig y rhai a allai fod o ddiddordeb i ddynion sy'n byw gyda dementia (e.e. dosbarthiadau gwaith coed). • Mae gwasanaethau dydd yn darparu cyfle ar gyfer rhwydweithio cymunedol i ofalwyr rannu problemau a chael cymorth gan eraill; mae hyn hyd yn oed yn fwy effeithiol pan fydd gweithwyr proffesiynol yn y lleoliadau hyn (e.e. Ray Ceredigion). • Mae carfan bwysig o PGBD yn mynychu gwasanaethau dydd ar gyfer seibiant i ofalwyr ac mae gofalwyr yn cydnabod nad oes gan eu hanwyliaid ddiddordeb o reidrwydd mewn rhyngweithio cymdeithasol ond nid oes unrhyw ffynhonnell arall o seibiant yn ystod yr wythnos.

<p>Thema 8</p>	<p>Trafnidiaeth</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'n anodd i aelodau'r teulu gludo PGBD yn eu ceir eu hunain i apwyntiadau ysbyty neu grwpiau elusennol gan nad oes ganddynt y cymorth yn ei le i symud a chodi a chario PGBD nad ydynt yn gallu symud yn annibynnol. • Ni all aelodau'r teulu fynd ar gludiant ysbyty gyda PGBD ac mae'n rhaid iddynt deithio ar wahân. Mae hyn yn rhwystredig a gall achosi pryder i PGBD sy'n teithio heb eu hanwyliaid. • Nid yw cludiant ysbyty bob amser yn ddibynadwy ac ar ôl apwyntiad mewn adran cleifion allanol rhaid i'r teulu aros gyda'r PGBD i gael eu casglu a gall hyn achosi rhwystredigaeth a phryder i'r teulu oherwydd oedi. <p style="text-align: center;">"RWY'N TEIMLO EI BOD YN HWYLUS I MI DDEFNYDDIO TRAFNIDIAETH GYHOEDDUS YN FY ARDAL I" (N=21)</p>  <table border="1" style="margin-left: auto; margin-right: auto;"> <thead> <tr> <th>Categori</th> <th>Procent</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Cytuno'n gryf</td> <td>5%</td> </tr> <tr> <td>Cytuno</td> <td>52%</td> </tr> <tr> <td>Nid wyf yn cytuno nac yn anghytuno</td> <td>0%</td> </tr> <tr> <td>Anghytuno</td> <td>38%</td> </tr> <tr> <td>Anghytuno'n gryf</td> <td>5%</td> </tr> </tbody> </table> <ul style="list-style-type: none"> • Roedd y consensws barn ar draws y sir ynghylch heriau trafniadaeth yn cael ei adlewyrchu yn yr ymatebion i'r arolwg gyda'r mwyafrif llethol yn nodi anawsterau o ran cael mynediad at dtrafnidiaeth gyhoeddus. 	Categori	Procent	Cytuno'n gryf	5%	Cytuno	52%	Nid wyf yn cytuno nac yn anghytuno	0%	Anghytuno	38%	Anghytuno'n gryf	5%
Categori	Procent													
Cytuno'n gryf	5%													
Cytuno	52%													
Nid wyf yn cytuno nac yn anghytuno	0%													
Anghytuno	38%													
Anghytuno'n gryf	5%													
<p>Thema 9</p>	<p>Systemau cofnodi cleifion</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae systemau cofnodion cleifion electronig yn wahanol rhwng gofal cymdeithasol, sylfaenol ac eilaidd. • Anghysonderau mewn codio ar gyfer PGBD mewn gofal sylfaenol, gan gynnwys statws gofalwr anffurfiol. • Nid oes mynediad a rennir rhwng yr ysbyty na'r timau cymunedol i ddeall taith PGBD. • Pan fydd PGBD yn mynd i'r ysbyty, mae'n anodd i glinigwyr ddeall llinell sylfaen flaenorol y person pan gaiff ei archwilio. Pe bai systemau cofnodion cleifion electronig cydgysylltiedig ar gael yn lle nodiadau mewn llawysgrifen sy'n mynd ar goll, efallai y byddai'n haws deall hanes meddygol y person a'i lefelau dirywiad trwy allu darllen nodiadau cyson ar systemau cofnodion cleifion electronig. 												

		<ul style="list-style-type: none"> • Dim mynediad at ddogfennau cynllunio gofal uwch ar-lein.
Thema 10	Mynediad a rhannu gwybodaeth	<ul style="list-style-type: none"> • Hoffai sefydliadau statudol eraill fel yr heddlu a'r Gwasanaeth Tân ac Achub gael sedd wrth y bwrdd wrth adolygu gwasanaethau dementia. • Gall darparwyr fel cartrefi gofal deimlo eu bod wedi eu cau allan o wneud penderfyniadau oherwydd nad ydynt yn glinigol neu'n rhan o'r awdurdod lleol. • Mae un pwynt mynediad yn gyson ond yn 'ddiwyneb' – mae galwyr yn siarad ag asiant gwahanol bob tro heb unrhyw ddilyniant neu berson a enwir. • Mae cydsynio i rannu gwybodaeth ymhlith sefydliadau trydydd parti yn ei gwneud yn anodd iawn gweithio ar y cyd. Er bod llawer o sefydliadau yng Nghymru i helpu defnyddwyr gwasanaethau dementia nid yw'r seilwaith i'w cefnogi yn ei le. • Mae'r Cyngor yn rhedeg mentrau da, ond nid yw pobl yn gwybod sut i gael mynediad at yr hyn sydd ar gael iddynt. Nid yw pobl yn ymwybodol y gallent wneud cais i gael lwfansau gofalwr ar gyfer eu teulu, ac yn aml nid ydynt yn gwybod bod yr hawl yn bodoli. • Nid oes gan sefydliadau ymylol fel Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru fynediad at wybodaeth defnyddiol i'w helpu i wneud penderfyniadau
Thema 11	Ariannu	<ul style="list-style-type: none"> • Mae ariannu cyllidebau gofal seibiant neu gymdeithasoli yn anhyblyg ac nid yw'n cynnig unrhyw hyblygrwydd i ofalwyr. • Mae cymhlethdod enfawr yn aml yn atal y rheini sydd â hawl i gael cymorth ariannol rhag manteisio arno heb arweiniad neu gymorth arbenigol. • Mae cymhorthdal incwm a lwfans gweini yr un mor bwysig â'r asesiadau statudol ar gyfer gofal a thaliadau uniongyrchol. Mae dulliau ariannu'r llywodraeth genedlaethol yn cyfyngu ar ymdrechion cydweithredol cyfranogiad y trydydd sector. • Mae comisiynu ac ariannu yn effeithio'n andwyol ar y gwaith rhyngasiantaethol a chadw staff ar dimau.
Thema 12	Gwybodaeth anghywir am ddarparwyr trydydd sector	<ul style="list-style-type: none"> • Diffyg eglurder rhwng sefydliadau o ran pa wasanaethau y maent yn eu darparu a sut i gael mynediad at eu gwasanaethau. • Mae rhannu gwybodaeth ar draws sefydliadau trydydd sector yn anodd ac mae'n anodd i CSC agor y drws i

		<p>rannu gwybodaeth gan ei fod wedi'i rwymo gan ddeddfwriaeth diogelu data.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nid yw meddygon teulu yn atgyfeirio at elusennau neu ddarparwyr trydydd parti fel mater o drefn. • "Mae angen i'r holl weithwyr proffesiynol wybod am y broses o nodi trywydd defnyddiwr gwasanaeth dementia ar hyd y llwybrau. Mae arwyddocâd hunaniaeth person yn mynd ar goll yn y llwybr. Mae materion diogelu data yn golygu nad oes modd i wybodaeth hanfodol am bobl agored i niwed yn y gymuned sy'n gaeth i'r tŷ gael ei rhannu gyda phob parti cymunedol".
Thema 13	Gweithio heb ymwneud ag eraill	<ul style="list-style-type: none"> • Mae mentrau'n aml yn rhedeg heb ymwneud ag eraill ac nid yw pobl yn gwybod pa grwpiau sy'n cael eu cynnal a sut y gall PGBD gael mynediad at grwpiau a gweithgareddau neu hyfforddiant. • Nid yw nyrsys Admiral wedi'u cysylltu â'r llwybr ac maent yn gweld y diffyg cydweithio yn rhwystr i ddarparu ymyriadau gwell er mwyn i ddefnyddwyr gwasanaethau allu ymdopi. • Mae cyfleoedd addysg a hyfforddiant yn cael eu colli oherwydd gweithio heb ymwneud ag eraill. • Mae'r clinig cof yn gweithredu fel elfen ar wahân o'r llwybr ac yn wynebu beirniadaeth am fethu â darparu gwasanaeth dilynol er nad yw hynny o fewn y cylch gwaith y cytunwyd arno.
Thema 14	Diffyg gwelyau nyrsio	<ul style="list-style-type: none"> • Mae prinder gwelyau nyrsio sy'n ddigon arbenigol i gefnogi'r rhai ag anghenion cymhleth sy'n gysylltiedig â dementia yn y sir yn golygu bod angen goflau am rai PGBD y tu allan i'r rhanbarth. • Mae heriau wrth gynllunio gofal yn y dyfodol yn cael eu rhwystro gan ddiffyg gwelyau nyrsio lleol. • Mae diffyg gwelyau arbenigol yn golygu bod PGBD yn aros yn eu lleoliadau presennol sy'n ei chael hi'n anodd ateb anghenion yn llawn neu sydd wedi'u hyfforddi a'u cyfarparu'n gywir.

		<p style="text-align: center;">Ymatebion i'r Arolwg ynghylch Llety a Gofal Arbenigol</p>  <p> <i>"Mae gennyf fynediad at lety digonol. Gallir addasu'r llety hwnnw er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw newidiadau yn fy anghenion"</i> </p> <p> <i>"Mae gennyf fynediad at lety arbenigol sy'n ddigonol. Mae'r gofal a ddarperir yno yn cael ei addasu er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw newidiadau yn fy anghenion"</i> </p> <p> <i>"Byddai pobl sydd wedi'u hyfforddi ym maes dementia yn gofalu amdantaf o bydd gofal lliniarol o'r ansawdd uchaf yn cael ei ddarparu i'm cefnogi yn ystod fy mlyneddolaf"</i> </p> <p> ■ Dim ymateb ■ Anghytuno'n gryf ■ Anghytuno ■ Nid wyf yn cytuno nac yn anghytuno ■ Cytuno ■ Cytuno'n gryf </p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae ymatebion i'r arolwg yn awgrymu bod ansicrwydd ynghylch mynediad at lety a gofalwyr hyfforddedig • Mae darparwyr yn mynegi pryder ynghylch lefel y risg yn erbyn hyfforddiant ac opsiynau uwchgyfeirio cyfyngedig.
<p>Thema 15</p>	<p>Cyfathrebu</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Hoffai darparwyr gofal cartref gael llinellau cyfathrebu mwy tryloyw gyda staff y Cyngor a gwell cyfeirio o ran pwyl i gysylltu â nhw ac uwch arweinwyr sy'n fwy gweladwy. • Mae diffyg cyfathrebu rhwng adrannau. • Mae'r wybodaeth sydd gan CSC ar y we am ddementia yn wael. • Mae negeseuon cyhoeddus am ddementia, yn enwedig ynghylch stigma, yn annigonol.
<p>Thema 16</p>	<p>Recriwtio a staffio</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae problem genedlaethol gydnabyddedig o ran recriwtio a chadw'r gweithlu ar draws ieuchyd a gofal cymdeithasol gyda heriau lleol penodol megis natur wledig y sir, trafnidiaeth a'r Gymraeg • Mae'n anodd recriwtio staff gofal cartref. "Nid yw'r ymweliadau gofal yn cael eu talu amdanynt os yw'r gofal yn cael ei ganslo ar y funud olaf ac er bod yr asiantaeth wedi talu am y gofalwr, yr asiantaeth ofal sy'n cymryd yr ergyd yn ariannol." • Trosiant uchel staff y Cyngor yn effeithio ar barhad gofal yn y gymuned. Pan fydd pobl yn cysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol i gael asesiad, nid yr un gweithiwr cymdeithasol sy'n adolygu'r person neu mae'n rhaid i chi aros ychydig wythnosau i gael eich gweld gan weithiwr cymdeithasol. • "Y ffaith amdani yw allwn ni ddim recriwtio staff. Rydym ni'n recriwtio ar gyfer therapi galwedigaethol ar hyn o bryd ond dydyn ni ddim yn llwyddo, felly'r uwch

		<p>therapydd galwedigaethol sydd gennym ar hyn o bryd, wel roedd hi i fod i ymddeol dros flwyddyn yn ôl ond mae hi dal gyda ni."</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae diffyg capasiti ar gyfer gofal yn y cartref a staff gofal cartref sy'n arwain at golli llif ar gyfer lolfeydd rhyddhau aciwt, blocio gwelyau ysbyty a theuluoedd yn aros i becynnau gofal ddechrau.
Thema 17	Cymysgedd sgiliau a hyfforddi a datblygu	<ul style="list-style-type: none"> • Gall timau arbenigol elwa o hyfforddiant penodol ar ddementia i ddarparu eu harbenigedd yng nghydestun dementia (e.e. PGBD yn gallu cyfleu poen i nyrsys lliniarol). • Mae angen enfawr am weithwyr cyswllt dementia a fyddai'n hyrwyddwr yn y feddygfa i gysylltu'r feddygfa â'r gymuned. "Rwy'n meddwl bod angen rhywun sydd wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddementia ar bob meddygfa a rhywun sy'n gallu delio â chleifion sy'n dod i'r feddygfa gyda phryderon." • Mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn darparu ystod eang o wasanaethau i'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol i wella diogelwch, yn enwedig ar gyfer PGBD, ond nid oes ganddynt y sianeli angenrheidiol i ledaenu eu gwasanaethau.
Thema 18	Addysg	<ul style="list-style-type: none"> • Mae nyrsys Admiral yn darparu addysg ar nam gwybyddol ysgafn ac yn rhwystredig nad yw meddygon teulu neu'r gwasanaethau cymdeithasol yn anfon atgyfeiriadau atynt, ac yn teimlo y dylent fod yn rhan o'r llwybrau ar gyfer PGBD. • Mae nyrsys Admiral yn darparu addysg am ddim i ddefnyddwyr gwasanaethau dementia a gweithwyr proffesiynol, ac nid yw'r rhan fwyaf o bobl ar y llwybr yn ymwybodol o'r hyfforddiant nam gwybyddol ysgafn. • Addysg a gwybodaeth am ddiagnosis cyn-glinigol a diffyg addysg ynghylch marw gydag urddas. • Hyfforddiant gloywi amserol, wedi'i ddiweddarau, a'i ailadrodd trwy gydol y broses o gynllunio llwybrau a hyfforddiant ac ymwybyddiaeth o hyn ar gyfer yr holl weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol. • Mae diffyg gwybodaeth ynghylch beth yw arfer da ar hyn o bryd wrth gefnogi PGBD a sut i reoli risgiau gyda'r garfan hon. • Mwy o ymwybyddiaeth o'r hyn sydd ar gael i ofalwyr a theuluoedd o ran hyfforddiant. Er enghraifft, mae'r awdurdod lleol yn cynnal cyrsiau hyfforddi codi a chario am ddim ar gyfer gofalwyr.

		<ul style="list-style-type: none"> • Mae angen hyfforddiant arbenigol a phenodol ar gyfer PGBD er mwyn iddynt allu deall amgylchedd y cartref a chefnogi gofalwyr. • Mae diffyg hyfforddiant gan staff anghlinigol, rheng flaen fel derbynyddion mewn practisau meddygon teulu i allu cyfathrebu'n effeithiol â PGBD a'u teuluoedd. • Mae elusen o'r enw TIDE – Together in dementia every day, yn cynnig sesiwn hyfforddi sy'n delio â rheoli ymddygiadau anodd, ond nid yw pobl yn ymwybodol o hyn. • Cefnogaeth i ofalwyr allu cael staff cyflenwi a/neu gludiant er mwyn mynychu hyfforddiant.
Thema 19	Gofal seibiant	<ul style="list-style-type: none"> • Mae diffyg gofal seibiant a hyblygrwydd lleoliadau seibiant yn yr ardal, ac mae hyn yn cael effaith ar ansawdd bywyd teuluoedd a gofalwyr PGBD. • Ni all teulu PGBD gael gwyliau neu amser o'r gwaith ar y funud olaf os nad ydynt wedi cael cadarnhad am gyfnodau seibiant y cytunwyd arnynt. • Nid yw teulu PGBD yn gallu profi'r amgylchedd cyn i'r PGBD fynd i'r ganolfan seibiant neu gyflwyno'r PGBD yn araf i'r amgylchedd, ac mae hyn yn creu pryder i'r teulu tra bod y PGBD yn y ganolfan seibiant. Oherwydd y diffyg gofal seibiant sydd ar gael maent yn teimlo nad oes ganddynt unrhyw reolaeth ynghylch sut mae'r PGBD yn mynd i ymateb i'r amgylchedd. • Gall amgylcheddau newydd achosi pryder i PGBD, ac yn aml mae'n anodd iawn trefnu eu cyflwyno'n raddol i leoliadau newydd.

Thema 20	Cyfrinachedd	<ul style="list-style-type: none"> • Mae sefydliadau trydydd parti wedi wynebu gwrthwynebiad yn y gorffennol o ran cael mynediad at ddefnyddwyr gwasanaeth oherwydd materion cyfrinachedd a chytundebau dysgu a rennir gyda'r systemau cofnodi cleifion. • Mae'n anodd iawn i aelod o'r teulu ffonio'r meddyg teulu a dweud wrtho ei fod yn poeni os nad oes gan yr aelod o'r teulu bŵer atwrnai dros ei iechyd oherwydd yn y pen draw y PGBD sy'n dal i reoli eu gofal a rhaid i'r meddyg teulu siarad â'r PGBD ac nid y teulu. • Rhaid cael rhywfaint o gyfrinachedd wrth gyfleu pryderon oherwydd gall effeithio ar allu person i yrru, ei allu i fyw'n annibynnol, rheoli ei arian ei hun a rheoli ei fywyd ei hun, a gall hyn atal aelod o'r teulu sy'n cymryd yn ganiataol bod gan ei anwylyd nam gwybyddol ysgafn ymyryd â gwasanaethau os yw'n cael ymateb negyddol.
---------------------	--------------	---

7. PRIF FYLCHAU YN Y GWASANAETH

- 7.1** Nid oes un model gofal cymunedol ar gyfer PGBD. Mae llwybrau amrywiol yn gweithredu ond nid ydynt yn gydgyssylltiedig ar hyn o bryd er mwyn gallu darparu dull sy'n canolbwyntio ar y claf ar gyfer PGBD sydd mewn perygl o gael canlyniadau iechyd di-âl-w-amdano. Byddai dull gofal rhagweledol yn lleihau anghydraddoldebau iechyd, yn gwella profiad y claf a'r teulu gan helpu PGBD i fyw'n dda ac yn annibynnol am gyfnod hwy.
- 7.2** Soniwyd am enghreifftiau da o'r fîm aml-ddisgyblaethol yn gweithio ym maes gofal diwedd oes ond nid yw'n gyson ar hyd y daith. Roedd cytundeb na allai unrhyw un gadarnhau bod staff yn gweithio mewn ffordd ryng-ddisgyblaethol yn gyson. Mae angen dull cyson o gefnogi PGBD ar ôl rhyddhau pobl o'r clinig cof i sicrhau bod derbyniadau brys yn cael eu hosgoi.
- 7.3** Gallai gwasanaeth sgrinio mewn meddygfeydd teulu neu ofal sylfaenol ddal pobl sy'n byw yn y gymuned â diagnosis cyn-glinigol. Nid yw hyn ar waith ar hyn o bryd ac nid yw'r protocolau asesu wedi'u sefydlu i ddeall a chefnogi anghenion PGBD cyn iddynt ddatblygu dementia cymedrol. Byddai gwasanaeth sgrinio effeithlon yn helpu gofal sylfaenol i ddatblygu cronfa ddata o'r holl PGBD yn y gymuned. Gellid ei datblygu i leihau'r amseroedd aros ar gyfer cael eich gweld yn y clinig cof i bobl sydd â dementia ysgafn i gymedrol.
- 7.4** Ar hyn o bryd mae cynllunio gofal ac adolygiadau blynyddol o feddyginiaethau yn gyfyngedig yn unig. Mae cynlluniau gofal ac adolygiadau blynyddol yn gyfle i sicrhau'r gofal gorau posibl ar gyfer PGBD. Bydd cynlluniau gofal yn gofyn i wybodaeth gael ei mewnbynnu gan dimau aml-ddisgyblaethol ac yn helpu i leihau'r ffocws ar dasgau meddygol a chynyddu'r gofal cyfannol ar gyfer PGBD. Mae angen i gynlluniau gofal fod yn hygyrch i bob claf, teulu, y sector gwirfoddol, gofal sylfaenol, gofal eilaidd, a darparwyr gofal brys, a all yn ei dro osgoi derbyniadau i'r ysbyty, gwallau neu ddyblygu gofal.
- 7.5** Ar hyn o bryd nid oes ffocws ar ddatblygu'r gweithlu sy'n cynnwys arbenigwyr sy'n cysylltu ac yn cydweithio ar draws y system. Nid oes unrhyw wasanaethau arbenigol wedi'u cydgysylltu ar gyfer dementia o fewn y Cyngor neu ofal sylfaenol. Pan fydd PGBD yn cael diagnosis o ddementia o'r clinig cof, caiff y person ei ryddhau yn ôl i'r gymuned heb weithiwr cymorth dementia arbenigol neu glinigydd. Gall arbenigwr dementia sy'n gallu presgripsiynu meddyginiaethau a darparu parhad gofal gysylltu a chydweithio â gwasanaethau eraill. Byddai'r person hwn yn ymwybodol o'r holl wasanaethau yn y sector elusennol ac yn gallu cyfeirio at wasanaethau cymunedol, darparu adolygiadau cynllun gofal blynyddol, a bod yn bwynt cyswllt i'r gofalwr neu'r teulu.
- 7.6** Mae addysg a hyfforddiant i deuluoedd a gofalwyr yn brin gyda chapasiti cyfyngedig. Mae'r rhai sydd wedi cael cyfle i dderbyn hyfforddiant yn cofnodi

lefelau uchel o foddhad, megis profiad ar y Bws Dementia, ond mae hyn wedi'i gyfyngu i ychydig yn unig. Rhaid datblygu hyfforddiant pellach a phecynnau sy'n mynd i'r afael â heriau ac anghenion penodol er mwyn gallu cefnogi'n well y rhai sy'n gofalu'n anffurfiol am PGBD.

- 7.7** Mae hyfforddiant ar gyfer staff iechyd a gofal cymdeithasol ar ddementia yn ddigyswllt. Mae'r bwloch hwn wedi'i lenwi'n rhannol gan hyfforddiant ad-hoc ar gyfer arbenigwyr a staff brwdfrydig, ond mae llwybr hyfforddi cydlynol a blaengar yn parhau'n anodd i'w ganfod. Fel arfer caiff hyfforddiant ei 'flaenlwytho' fel rhan o ymsefydlu dechreuwyr newydd, ond anaml y caiff ei ailymweld, ei ddiweddarau neu ei wella yn ystod gyrfa aelod o staff. Mae'r un mor anodd i reolwyr gael hyd i hyfforddiant addas ac effeithiol yn ogystal â dod o hyd i'r capasiti i ryddhau staff i ymgymryd â datblygiad proffesiynol.
- 7.8** Nid yw'r trefniadau presennol ar gyfer storio a rhannu gwybodaeth yn helpu staff i ddarparu gofal cyfannol integredig. Er mwyn gwella cyfathrebu rhwng y Cyngor a gofal sylfaenol gellid defnyddio cyfeiriad ebost penodol i sicrhau mynediad cyflymach at feddygon teulu neu staff gofal cymdeithasol o fewn y Cyngor, gwell cyfathrebu electronig gyda'r datrysiad o gael cofnod gofal neu gyfeiriad ebost cyffredin. Trwy gynyddu pwyntiau cyswllt gydag iechyd a gofal cymdeithasol, gall staff wella profiadau PGBD o ran cael mynediad at y gofal a'r cymorth arall sydd ar gael.
- 7.9** Nid yw teuluoedd, gofaluwr a PGBD yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau am ddementia ar hyn o bryd. Mae sefyllfaoedd gofalu o dan bwysau cynyddol ac mae angen i ofalwyr allu cael mynediad at gymorth i'w helpu i barhau i ofalu. Pan fydd gofaluwr yn ei chael hi'n anodd gofalu, mae teuluoedd yn troi at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol am gymorth. Mae PGBD sydd â gofaluwr yn dueddol o gael mynediad at wasanaethau meddygon teulu ac aciwt oherwydd nad oes ganddynt unman arall i droi mewn argyfwng. Mae cyfleoedd trwy ofal sylfaenol i nodi a chefnogi gofaluwr yn gynnar yn y broses, yn rhannol trwy'r defnydd effeithiol o gofrestru gofaluwr, i'w helpu i lywio systemau cymhleth, atal trefniadau gofal rhag chwalu pan ellir osgoi hynny, ac atal derbyniadau gofal cymdeithasol.
- 7.10** Mae angen meithrin perthynas â gwasanaethau cludo cleifion er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael eu cludo mewn modd amserol i apwyntiadau gydag aelodau o'u teulu. Ar hyn o bryd mae'n rhaid i'r teulu deithio mewn cerbyd gwahanol ac ni allant helpu'r PGBD yn yr ambiwlans. Mae hyn yn ychwanegu at bryder a rhwystredigaeth pan fydd PGBD yn cael eu derbyn i'r lleoliad aciwt. Yn ogystal, nid oes cludiant ar gael i ddod â phobl i grwpiau fel Ray Ceredigion sy'n golygu bod pobl yn cael eu gadael allan sy'n ychwanegu at ynysu cymdeithasol.
- 7.11** Roedd llawer o PGBD a'u gofaluwr wedi tynnu sylw at effaith pandemig Covid ar eu bywydau a'r ynysu cymdeithasol a achoswyd ganddo. Mae cyfyngiadau yn parhau i atal cymdeithasu trwy reolau ymwelwyr llym mewn cartrefi gofal a chyfyngiadau ar wasanaethau dydd er enghraifft.

Mae adleoli staff ac atal gwasanaethau dros dro hefyd wedi creu ôl-groniadau mewn llawer o feysydd a rhestrau aros hwy, ac mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer gofal seibiant.

- 7.12** Mae'r sector gwirfoddol yn dal i addasu yn dilyn effeithiau'r pandemig a'r effaith ar ei weithlu a'r gymuned. Roedd llawer o gynlluniau wedi dod i ben oherwydd effaith mesurau cadw pellter cymdeithasol a'r cynnodau clo. Er ei fod wedi cryfhau mewn sawl ffordd, gyda phartneriaethau a chydabyddiaeth gryfach, ac ar ôl recriwtio llawer o wirfoddolwyr newydd, roeddent hefyd wedi colli llawer o'r gwirfoddolwyr hirsefydlog a hŷn a oedd wedi bod yn glinigol fregus. Mae hyn wedi newid proffil y gweithlu ac er bod optimistaeth a rhywfaint o gapasiti heb ei ddefnyddio, mae'r trydydd sector yn dal i addasu ers y pandemig.
- 7.13** Mewn rhai gwasanaethau ychwanegwyd at y diffyg capasiti gan gyfraddau swyddi gwag. Mae cyfraddau swyddi gwag gofal cartref yn uchel, lle roedd cyflogau uwch ar gael ar gyfer rolau llai heriol ym maes gweithgynhyrchu, manwerthu a logisteg. Yn ogystal, roedd sicrwydd swyddi isel yn ffactor arall oherwydd comisiynu tymor byr ac absenoldeb llwybrau gyrfa diffiniedig mewn rhai meysydd.
- 7.14** Mae mynediad at wasanaethau yn dal i fod yn broblem. Er enghraifft, cafodd mynediad at y clinig cof a gwasanaethau iechyd meddwl oedolion hŷn ei nodi fel problem i PGBD. Y canfyddiad oedd bod y meini prawf ar gyfer y clinig cof neu ar gyfer ymwneud ag iechyd meddwl yn gadael bwch cynyddol i PGBD gael mynediad at seibiant neu wasanaethau eraill. Bu pwysau cynyddol ar sefyllfaoedd gofalu gan arwain at straen ar ofalwyr a chwalu trefniadau, ac mae hyn hefyd wedi arwain at fwy o dderbyniadau i'r ysbyty.
- 7.15** Bu pryder dealladwy am y bwriad i gau cartref gofal Hafan y Waun yn Aberystwyth. Mae gan y cartref y capasiti i ofalu am 50 o breswylwyr dementia. Yn ddiweddar, cyhoeddodd Cyngor Sir Ceredigion gynlluniau i gymryd perchnogaeth o'r cartref a chwblhau'r trafodiad hwn erbyn mis Medi 2023. Mae hyn yn rhoi cyfle i iechyd a gofal cymdeithasol integredig archwilio ar y cyd ddulliau ar gyfer ateb anghenion y boblogaeth.
- 7.16** Mae diffyg gwelyau nyrsio arbenigol neu gartrefi gofal sy'n darparu gofal arbenigol ar gyfer PGBD. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw unedau dementia arbenigol yng Ngheredigion sy'n darparu gofal uwch. Pan fydd PGBD yn cael eu lleoli mewn uned arbenigol, fel arfer bydd hyn y tu allan i'r sir ac efallai y bydd yn rhaid i deulu deithio'n bell i weld eu hanwyliaid.

8. CASGLIADAU

Mae'r ymgysylltu a gynhaliwyd gan Attain wedi cadarnhau'r angen am wasanaethau mwy strwythuredig ac integredig ar gyfer PGBD ar draws gwasanaethau aciwt a chymunedol, gyda mwy o staff arbenigol i gefnogi cleifion y tu allan i'r ysbyty ac atal derbyn pobl i'r ysbyty pan ellir osgoi hynny.

8.1. Camau Gweithredu Effaith Uchel

8.1.1 Cysylltydd Llesiant Dementia

Mae rhanbarth Gorllewin Cymru wrthi'n cwblhau cynlluniau i gyflwyno rôl Cysylltydd Llesiant Dementia. Y weledigaeth ar gyfer y gwasanaeth Cysylltydd Llesiant Dementia yw y bydd pobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr yn cael mynediad at gymorth cyson, cydgyssylltiedig a chofleidiol er mwyn gallu llywio'n effeithlon ac effeithiol gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a thrydydd sector, gyda chymorth ar gyfer eu llesiant ar eu taith er mwyn iddynt allu byw cystal â phosibl gyda dementia. Bydd y rôl hon yn bwynt cyswllt 'a enwir' neu 'ddynodedig' ar gyfer llwyth achosion o bobl sy'n byw gyda dementia, o'r cyfnod cyn diagnosis hyd at ddiwedd eu hoes, gan ddarparu cyngor, gwybodaeth a chymorth arbenigol ac wedi'i deilwra ar gyfer dementia, yn ogystal â chefnogi'r gwaith o hyrwyddo dull gweithredu seiliedig ar hawliau personol, ac ar yr un pryd llywio mynediad at ofal cyfannol ar draws gwasanaethau sylfaenol, eilaidd a thrydyddol o fewn y system gofal cymunedol iechyd, cymdeithasol a thrydydd sector. Bydd y rolau hyn yn cefnogi'r person sy'n byw gyda dementia, gan sicrhau ffordd ragweithiol o fyw a chynllunio gofal trwy ddull aml-asiantaethol ac aml-ddisgyblaethol i sicrhau bod cymorth yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i'r PGBD a'u teuluoedd/gofalwyr ar yr adeg iawn.

Mae'n hanfodol sicrhau bod y gwasanaeth newydd hwn yn cael ei lywio gan anghenion PGBD yng Ngheredigion ac, yn wyneb cwmpas rhanbarthol y gwasanaeth, bod nodweddion diwylliannol, ieithyddol a daearyddol Ceredigion yn cael eu cynnwys yn y ddarpariaeth leol.

8.1.2 Gwasanaeth rhithwir a llinell gyngor iechyd dementia

Byddai archwiliadau iechyd rhithwir yn galluogi gweithwyr proffesiynol i fonitro sefyllfaoedd o bell, yn enwedig gan fod Ceredigion yn sir fawr a gwledig i raddau helaeth. Byddai hyn yn cynnig modd i weithwyr proffesiynol adolygu mewn modd amserol PGBD a gafodd eu rhyddhau'n ddiweddar er mwyn helpu i atal aildderbyn cleifion.

Byddai mynediad at linell gyngor iechyd dementia hefyd yn cefnogi PGBD a'u teuluoedd a'r rhai sy'n rhoi gofal. Byddai hyn yn rhoi mynediad hawdd iddynt at gyngor iechyd a gallai atal derbyniadau brys i'r ysbytai aciwt.

Mae llinell gyngor iechyd dementia rithwir yn wasanaeth sy'n seiliedig ar fodel gofal ysbyty yn y cartref ac yn darparu gwasanaeth rhyddhau â chymorth i gleifion dementia. Gallai hyn hefyd ymestyn i fod yn llinell ffôn/fideo gynghorol ar gyfer salwch cyd-forbidrwydd oedolion hŷn y deuir ar ei draws yn y gymuned. Mae teuluoedd a gofalwyr yn elwa ar y ddarpariaeth hon i bobl a allai fod angen gofal aciwt fel claf mewnol fel arall i geisio'r

arbenigedd sydd ei angen. Mae'r gwasanaeth yn cael ei gynnig trwy dechnoleg rithwir a galwadau ffôn. Gallai'r llinell gymorth dementia rithwir gefnogi opsiynau rhyddhau ar gyfer PGBD yr ystyrir eu bod yn addas i'w rhyddhau ond sydd angen monitro ychwanegol.

Bydd y gwasanaeth yn cael ei gyflenwi'n lwyddiannus trwy gynyddu integreiddio rhwng gwasanaethau aciwt a chymunedol a galluogi gofal yn nes at adref trwy ddulliau rithwir. Byddai gan y gwasanaeth hwn fynediad llwybr cyflym at y timau lliniarol. Mae'r manteision i PGBD yn cynnwys gallu gwella yn eu hamgylchedd eu hunain gyda chymorth y teulu ac allgymorth. Gan y gall y llwybr clinigol ar gyfer PGBD yn ystod argyfwng fod yn anrhagweladwy gyda chleifion mewn perygl o waethygu, byddai angen i bob aelod o'r fim gael yr arbenigedd i ddelio â digwyddiadau o'r fath ac uwchgyfeirio gofal pan fydd angen.

8.1.3 Opsiynau trafndiaeth gwell

Mae trafndiaeth cleifion ar gyfer apwyntiadau ysbyty yn ddarpariaeth sydd wedi'i hen sefydlu gan Wasanaethau Ambiwlans Cymru, ond mae bylchau o ran mynediad at apwyntiadau a gweithgareddau cymdeithasol eraill.

Mae ystyried yr opsiynau ar gyfer trafndiaeth ychwanegol, gan gynnwys sefydliadau cyhoeddus, preifat ac elusennol yn hanfodol er mwyn cefnogi cymunedau lleol a sicrhau mynediad teg at iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer PGBD. Dylid rhoi sylw arbennig i'r rhai sydd â dementia a/neu anabledau dysgu a allai fod angen cymorth ychwanegol neu addasiadau i ddefnyddio gwasanaethau trafndiaeth.

8.1.4 Gwasanaethau dydd pwrpasol sy'n gweithredu fel hybiau cymunedol

Mae angen pwyslais o'r newydd ar bwysigrwydd y gwasanaethau dydd, ond mae angen trawsnewid y gwasanaethau hanfodol hyn i ateb yn well anghenion PGBD sy'n eu defnyddio. Gan weithredu fel hybiau cymunedol o fewn canolfannau lleol, mae angen iddynt nodi anghenion lleol PGBD gan roi sylw arbennig i'r hyn yr hoffai dynion sy'n byw gyda dementia ei gael gan y gwasanaethau hyn.

Yn ogystal, mae'r gwasanaethau hyn yn darparu hyb i ofalwyr a PGBD allu ddod at ei gilydd a chymdeithasu, ceisio cyngor a mynd i'r afael â phroblemau; mae hyn hyd yn oed yn fwy effeithiol lle mae pobl brofiadol, wybodus wrth law i gyfeirio a rhoi cymorth.

Mewn achosion lle mae gwasanaethau dydd yn cael eu gweld fel seibiant i ofalwyr yn unig ac efallai bod PGBD yn amharod i'w mynychu, rhaid ystyried dulliau newydd ac opsiynau seibiant gwahanol.

8.1.5 Gwasanaethau sy'n deall dementia ym mywyd bob dydd

Gan fanteisio ar lwyddiant Trefi sy'n Deall Dementia fel Aberaeron, Undeb Annibynwyr Cymru yn mabwysiadu menter eglwysi sy'n deall dementia a chydwybod a dealltwriaeth gyhoeddus gynyddol am ddementia, mae Cyngor Sir Ceredigion mewn sefyllfa dda i weithredu fel hyrwyddwr i gefnogi cymryd camau bach, cadarnhaol ar draws y gymuned ehangach ac mewn bywyd bob dydd.

Dylai'r rhai sy'n dymuno dysgu mwy neu gyflwyno newid i gefnogi PGBD, boed hynny'n siop gornel, yn athrawon mewn ysgolion lleol neu'n gwmni tacsis, i gyd gael mynediad hawdd at arweiniad a chymorth o ansawdd uchel er mwyn gallu gwneud addasiadau a gwasanaethu PGBD yn well. Mae hyn yn digwydd ochr yn ochr ag ymgyrchoedd ymwybyddiaeth y cyhoedd parhaus gan sefydliadau blaenllaw fel y Gymdeithas Alzheimer.

8.1.6 Dull cydgyssylltiedig o ddysgu a datblygu

Mae dull rhanbarthol ar y cyd ar gyfer dysgu a datblygu dementia ar gyfer staff iechyd a gofal cymdeithasol ar bob lefel yn nod allweddol Llwybr Safonau Gofal Dementia Cymru, ac mae'r gwaith hwn yn cael ei ddatblygu trwy weithgor rhanbarthol sy'n cynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a'r tri awdurdod lleol. Mae rhaglen ranbarthol o hyfforddiant a chymorth ar gyfer cartrefi gofal awdurdodau lleol, a ddarperir trwy Dîm Llesiant Cymunedol Dementia y Bwrdd Iechyd, yn cael ei threialu ar hyn o bryd. Yn ogystal, mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio ar gynllun dysgu a datblygu dementia 5 mlynedd ar gyfer pob aelod o staff, a bydd y gweithgor yn ystyried sut y gellir gwneud gwaith tebyg ar draws yr awdurdodau lleol.

8.2. Model newydd o ofal yn cynnwys y canlynol:

Tîm cymunedol dementia a llwybr atgyfeirio penodedig – Byddai'r tîm hwn yn lleihau'r pwysau ar wasanaethau eraill, gan osgoi aildderbyn cleifion i'r ysbyty y mae modd ei atal a gwella'r gofal a ddarperir yn y gymuned.

Cyflwyno dull fim amlddisgyblaethol ar draws y llwybr dementia – Darparu gwasanaeth mwy integredig a chydlynol sy'n sicrhau bod gofal a monitro ar waith i leihau derbyniadau i'r ysbyty ac atal aildderbyn cleifion. Cynyddu cyfleoedd ar gyfer dysgu ar y cyd rhwng gweithwyr proffesiynol aciwt a chymunedol.

Rolau clinigwyr addysg arbenigol – Hyrwyddo a hybu arferion gorau ar gyfer gofal dementia ar draws Ceredigion, wedi'i ysgogi gan arbenigwyr dementia brwdfrydig. Parhau i dyfu'r grŵp bach hwn o arbenigwyr pwnc er mwyn cynyddu eu cyrhaeddiad a'u dylanwad, yn enwedig o fewn gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud yn benodol â dementia.

Mewn cymunedau, parhau i hyrwyddo llesiant ar gyfer PGBD a'u gofalwyr trwy rannu gwybodaeth, lliniaru'r teimladau sydd gan ofalwyr o fod yn agored i niwed ar gyfer PGBD, yn enwedig yn gynnar yn y diagnosis, a chydlynu gwella ansawdd a thrawsnewid gwasanaethau mewn modd integredig.

System atgyfeirio TG integredig – Byddai ystod o welliannau TG ac atgyfeirio yn gwella materion perfformiad gweithredol ac yn lleihau costau. Gwella gofal a rennir a threfniadau pontio ar draws darparwyr er mwyn adlewyrchu cymhlethdod a gorgyffwrdd o ran cyfrifoldebau.

Gwneud penderfyniadau sy'n canolbwyntio ar y claf – Cynnig modd i PGBD gael eu rhyddhau i leoliad o'u dewis ond sy'n briodol i'w hanghenion. Sefydlu cysylltiadau

mwy ffurfiol rhwng darparwyr gofal ac felly pan fydd cyflwr PGBD yn datblygu i fod yn fwy cymhleth bydd eglurder ynghylch sut i gael mynediad at sgiliau arbenigol sydd mor agos â phosibl at y gymuned. Gwell cysylltiadau â meddygon teulu, gwasanaethau cymdeithasol a darparwyr cymunedol.

Cynydd mewn unedau gofal arbenigol dementia yn yr ardal – Mae'r diffyg presennol o welyau preswyl a nyrsio arbenigol yn yr ardal yn golygu bod PGBD ag anghenion cymhleth yn cael eu hanfon allan o'r ardal, ac mae'n rhaid i'r teulu deithio'n bell i'w gweld nhw. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer anghenion nyrsio cymhleth, lle nad oes gwelyau gofal nyrsio dementia arbenigol yn y sir ar hyn o bryd. Byddai'n ddoeth cynyddu gwelyau arbenigol dementia yn yr amrywiaeth bresennol o gartrefi preswyl a nyrsio yn yr ardal. Er enghraifft, mae cartref gofal Hafan Deg yn treialu uned ddementia arbenigol 4 gwely, ac mae hyn yn rhywbeth y gellir ei dreialu mewn cartrefi eraill gyda mewnbwn gan arbenigwyr lleol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

9. ATODIADAU

ATODIAD 1 – Rhestr o Weithgarwch Ymgysylltu

Enw	Swydd	Sefydliad
Taniya Jarrams	Rheolwr Corfforaethol Brysbennu ac Asesu	CSC
Emily Dagllilar	Cynrychiolydd	Castell Ventures
Helen James	Rheolwr Gwasanaeth Nyrsys Ardal	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Meinir Harris	Nyrs Ardal	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Hana Edwards	Heddwes	Heddlu Dyfed Powys
Simon Wright	Prif Swyddog Gweithredol	Age Cymru Dyfed
Caroline Davies	Arweinydd Datblygu Busnes	Age Cymru Dyfed
Natasha Fox	Prif Swyddog	Eiriolaeth Cymru
Lis Cooper	Swyddog Taliadau Uniongyrchol	CSC
Peggy Spooner	Swyddog Datblygu Prosiect	Eiriolaeth Cymru
Jay Crouch	Arweinydd Dementia	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Gwenda Jenkins	Arweinydd Dementia	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Sally Bathurst	Cynrychiolydd	Mirus
Helen Bwcle	Nyrs Admiral	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Michelle Hopewell	Cynrychiolydd	Gofal Sylfaenol
Rhianon Copeland	Cynrychiolydd	Gofal Sylfaenol
Marita Kehoe	Cydymaith Meddygol Dan Hyfforddiant	Gofal Sylfaenol
Llinos Trotman	Cynrychiolydd	Marie Curie

Rhian Evans	Cynrychiolydd	Marie Curie
Bethan Howell	Therapydd Galwedigaethol	CSC
Tracy Evans	Arweinydd Tîm Addasiadau Tai	CSC
Ruth Wilson	Arweinydd Gwasanaeth	Adferiad
Carys Steven	Arweinydd Tîm Gofal	
Hayleigh Southall	Arweinydd Tîm Gofal	Voyage
Penny Lamb	Uwch Reolwr Nyrsio	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Altun Evans	Cynrychiolydd	Cymdeithas Gofal
Non Davies	Rheolwr Corfforaethol dros Ddiwylliant	CSC
Kim Parry	Gweithiwr Cymorth Iechyd Meddwl Oedolion Hŷn	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Sarah Pask	Nyrs Eiddilwch	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Sion James	Dirprwy Gyfarwyddwr Meddygol	Gofal Sylfaenol
Jackie Roberts	Rheolwr Tîm, Un Pwynt Mynediad	CSC
Emma Thomas	Gofalu am Oedolion Hŷn	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Jina Hawkes	Rheolwr Gwasanaeth Gofal Sylfaenol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Kirsty Morgan	Arweinydd Rhanbarthol	Cymdeithas Alzheimer
George Riley	Rheolwr Gwasanaethau Comisiynu	CSC
Rebecca Johnson	Swyddog Gwasanaethau Comisiynu	CSC
Charlotte Duhig	Nyrs Admiral	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Becca Stillwell	Seicolegydd Clinigol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Sara Humphries	Arweinydd Gofalwyr	CSC
Cathryn Morgan	Arweinydd	Fforwm Anabledd/CAVO
Martin Gilliard	Swyddog Cymorth Tai	Grŵp Cymorth Tai
Llyr Hughes	Swyddog Cymorth Tai	Grŵp Cymorth Tai
Karen Thomas	Pennaeth Dieteteg	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Karen Shearsmith-Farthing	Arweinydd Dementia Therapi Galwedigaethol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Suzanna Crompton	Arweinydd Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Nikki Murray	Rheolwr Tîm	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Guto Davies	Rheolwr Ward Enlli	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Cheryl Groom	Nyrs Arbenigol Ymataliaeth	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Lydia Haward	Arweinydd Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Mair Davies	Fferyllydd Cymunedol Arweiniol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Neil Mason	Pennaeth Eiddilwch/Oedolion Hŷn	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Gemma Emille	Rheolwr Gweithrediadau Clinig Cof	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Steven Magee	Rheolwr Rhanbarthol, Gofal Heb ei Gynllunio	Gwasanaeth Ambiwlans Cymru
Donna Robson	Prif Fferyllydd, Ysbyty Bronglais	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Monica Bason-Flaquer	Rheolwr Rhaglen a Newid	Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru

Grwpiau darparwyr ar-lein:

Grŵp gofal sylfaenol
Grŵp gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd yr ysbyty
Darparwyr cartrefi gofal preswyl preifat
Darparwyr cartrefi gofal preswyl y Cyngor
Darparwyr gofal cartref
Darparwyr cartrefi gofal preswyl preifat / rhan 2
Sesiwn darparwyr Cynghrair Cynhalwyr Cymru

Cartrefi gofal a grwpiau yr ymwelwyd â nhw:

Cymdeithas Tai Barcud
Elusen Ray Ceredigion
Cymdeithas profedigaeth HAHAV
Cartref gofal Hafan Y Waun
Cartref gofal Hafan Deg

Sesiynau galw heibio:

Canolbarth Ceredigion

13.03.23 11.00-14.00 Aberaeron – Gwesty'r Plu Royal
13.03.23 16.00-19.00 Llandysul – Gwesty'r Porth
16.03.23 11.00-14.00 Tregaron – Neuadd Goffa
16.03.23 16.00-19.00 Llanbedr Pont Steffan – Neuadd Fictoria

Gogledd Ceredigion

14.03.23 14.00-19.00 Aberystwyth – Canolfan Morlan

De Ceredigion

17.03.23 14.00-17.00 Aberteifi – Neuadd y Dref

Atodiad 2 – Datganiadau i'r Wasg a Chynllun y Cyfryngau Cymdeithasol

Dyddiad y Gweithgarwch / Dyddiad Cau	Gweithredu	Arweinig gan	Cwblhawyd
13 Chwefror 2023	Datganiad i'r Wasg – Cynllun Gweithredu Ceredigion – Cyhoeddi ymgysylltu	LLJ	Datganiad i'r wasg wedi'i gyhoeddi 10.02.2023 Cambrian News 22.02.2023 Tivyside 20.02.2023
13 Chwefror 2023	Creu URL cyfeillgar i'w ddefnyddio mewn datganiadau i'r wasg, ar y wefan ac ar y cyfryngau cymdeithasol bit.ly/ArolwgCCCDementia bit.ly/ArolwgCCCDementia	LLJ	Dolen Saesneg: 102 o gliciau i'r wefan Dolen Gymraeg: 53 o gliciau i'r wefan
13 Chwefror 2023	Cyngor Cymuned – ebost gyda dolenni (datganiad i'r wasg)	LLJ	10.02.2023 (yr un amser â chyhoeddi'r datganiad i'r wasg)
13 Chwefror 2023	Aelodau Etholedig – ebost gyda dolenni (datganiad i'r wasg)	LLJ	10.02.2023 (yr un amser â chyhoeddi'r datganiad i'r wasg)
Chwefror 2023	Hysbysiadau Gofalwyr:- ebost, Facebook, post, cylchlythyr, gwefan yn gwahodd i gymryd rhan yn yr arolwg ar-lein:- Gofalwyr Di-dâl (ifanc ac oedolion) Tîm gofalwyr a chymorth cymunedol (SH) Gofalwyr Di-dâl Ceredigion Gwasanaeth a Gomisiynir Cynghrair Cynhalwyr Cymru Cysylltwyr Ceredigion Gwahodd gofalwyr o'r bws dementia.	SH	
Chwefror	Cyfathrebu â Staff:- (14/2/2023 1 llinell newyddion ar Teams – heb	HH/ ANR	

	ei weld gan reolwyr corfforaethol) – ANR Tîm Ceredigion Teams – NL cyhoeddiad wedi'i bostio)		
Chwefror	Cyfathrebu â Staff lleoliadau preswyl (grŵp ffocws ar-lein)	Attain	Wedi'i gynllunio 28.02.2023
15 Chwefror	Gwefan Ceredigion	LLJ	10.02.2023 Tudalen we newyddion
15 Chwefror 2023	Postiad ar y cyfryngau cymdeithasol ar ymgysylltu Facebook, Twitter, Instagram	LLJ	15 Chwefror 22 Mawrth 29 Mawrth
17 Chwefror 2023	Gofalwyr – alinio cyfathrebu â Gwasanaethau Ysbaid a Dydd.	SH	
I'w gadarnhau	Y wasg – cyfathrebu rhanbarthol yn ymwneud â'r Strategaeth Dementia	LLJ	Strategaeth wedi'i dosbarthu trwy'r Awdurdodau Lleol ar 10.05.2023, sylwadau gan Gynghorydd CSC ar y strategaeth.
21 Chwefror 2023	Creu posteri ar gyfer digwyddiadau ymgysylltu i'w defnyddio ar y cyfryngau cymdeithasol ac yn bersonol mewn lleoliadau.	LLJ	Wedi'i greu a'i rannu gyda'r tîm 22.02.2023, Wedi'i rannu ar y cyfryngau cymdeithasol ar y dyddiadau canlynol
27 Chwefror	Postiad ar y cyfryngau cymdeithasol ynglŷn â digwyddiadau ymgysylltu Facebook, Twitter, Instagram	LLJ	28 Chwefror 8 Mawrth 14 Mawrth – hybu ar Instagram. Ystadegau isod.
28 Chwefror 2023	Postiad ar y cyfryngau cymdeithasol – wedi'i anfon at randdeiliaid i'w rannu ar eu tudalennau cyfryngau cymdeithasol.	LLJ/ JFJ / NL / SH	Hywel Dda wedi'i rannu ar ei ddigwyddiadau cymdeithasol 01.03.2023 a 15.03.2023

Atodiad 3 – Ystadegau Cyfathrebu

Cyfathrebu ymgysylltu â dementia Dementia engagement communications

10 Chwefror – 29 Mawrth / 10 February – 29 March

- Datganiad i'r wasg / Press release
- Bitly
- Dadansoddeg Google / Google analytics
- Cyfryngau cymdeithasol / Social media

1. Datganiad i'r wasg / Press release

Cyhoeddwyd ar 10 Chwefror 2023 / Issued on 10 February 2023.

Cyfryngau / papur Media / press / outlet	Dyddiad / Date
Cambrian News (papur / paper)	22 Chwefror / February 2023
Tivyside (ar-lein / online)	20 Chwefror / February 2023
Gweithredu dros lechyd Meddwl Gorllewin Cymru (WWAMH) / West Wales Action for Mental Health (ar-lein / online)	21 Chwefror / February 2023


2. Bitly

Cynllun Gweithredu Dementia Ceredigion - - Cyngor Sir Ceredigion

📅 February 13, 2023 12:46 PM GMT by llinosjones

👤 53 Total engagements

Ceredigion Dementia Action Plan - - Ceredigion County Council




📅 February 13, 2023 12:54 PM GMT by llinosjones

👤 102 Total engagements

3. Dadansoddeg Google/ Google analytics


Cymraeg, 126 (nifer sydd wedi edrych ar y dudalen)

www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/ymgyngghoriadau/cynllun-gweithredu-dementia-ceredigion-arolwg-ymgysylltu-ar-cyhoedd/



English, 384 page views (nifer sydd wedi edrych ar y dudalen)

www.ceredigion.gov.uk/your-council/consultations/ceredigion-dementia-action-plan-public-engagement-survey/



4 Cyfryngau cymdeithasol / Social media

(Yn cynnwys ffigurau ymgysylltu, cyrhaeddiad, rhannu, hoffwyr a sylwadau. Includes engagement figures, reach, shares, likes and comments)

Facebook, English & Cymraeg

15 February

Performance

Reach		Engagements	
Total	860	Reactions	0
Organic	860 (100%)	Comments	0
Paid	0 (0%)	Shares	2

[View Details](#)

Feed preview



28 February

15 Chwefror

Cynlun Dementia Lleol

Beth sy'n bwysig i chi wrth ddelio â dementia? Bydd datblygu...

15 February 2023 at 10:01
ID: 10228842077383

Interactions

0 reactions 0 comments 0 shares

[Overview](#) [Performance](#) [Feed preview](#)

Performance

Reach		Engagements		Negative interactions	
Total	125	Reactions	0	Total	0
Organic	125 (100%)	Comments	0	Unique	0
Paid	0 (0%)	Shares	0		

[View Details](#)

Feed preview



28 Chwefror

Local Dementia Action Plan Engagement events

What is important to you when dealing with dementia? Develo...

28 February 2023 at 12:01

Interactions: 33 reactions, 3 comments, 21 shares

Performance

Reach	Engagements	Negative interactions
Total: 4,451	Total: 35	Total: 0
Organic: 4,451 (100%)	Comments: 3	Unique: 0
Paid: 0 (0%)	Shares: 21	

Feed preview

Ceredigion County Council

Published by Hootsuite · 28 February · Public

What is important to you when dealing with dementia? Developing a Local Dementia Plan will help shape services and approaches to meet the needs of individuals living with dementia and their carers in the future.

Help shape the development of future dementia services by providing your feedback or by attending a drop in session.

<https://bit.ly/CeredigionDementiaSurvey>

Local Dementia Action Plan Engagement events

When and where?

- Aberaron: Feathers Hotel, 13 March, 11:00-14:00
- Llandysul: Porth Hotel, 13 March, 16:00-19:00
- Aberystwyth: Morlan Centre, 14 March, 14:00-19:00
- Tregaron: Memorial Hall, 16 March, 11:00-14:00
- Lampeter: Victoria Hall, 16 March, 16:00-19:00
- Carlisle: Guildhall, 17 March, 14:00-19:00

Booking is not essential.

8 March

Local Dementia Action Plan Engagement events

What is important to you when dealing with dementia? Develo...

8 March 2023 at 12:01

Interactions: 9 reactions, 0 comments, 31 shares

Performance

Reach	Engagements	Negative interactions
Total: 1,956	Total: 9	Total: 0
Organic: 1,956 (100%)	Comments: 2	Unique: 0
Paid: 0 (0%)	Shares: 31	

Feed preview

Ceredigion County Council

Published by Hootsuite · 8 March · Public

What is important to you when dealing with dementia? Developing a Local Dementia Plan will help shape services and approaches to meet the needs of individuals living with dementia and their carers in the future.

Help shape the development of future dementia services by providing your feedback or by attending a drop in session.

<https://bit.ly/CeredigionDementiaSurvey>

Local Dementia Action Plan Engagement events

When and where?

- Aberaron: Feathers Hotel, 13 March, 11:00-14:00
- Llandysul: Porth Hotel, 13 March, 16:00-19:00
- Aberystwyth: Morlan Centre, 14 March, 14:00-19:00
- Tregaron: Memorial Hall, 16 March, 11:00-14:00
- Lampeter: Victoria Hall, 16 March, 16:00-19:00
- Carlisle: Guildhall, 17 March, 14:00-19:00

Booking is not essential.

Digwyddiadau Ymgysylltu Cynlun Dementia Lleol

Beth sy'n bwysig i chi wrth ddeilio â dementia? Bydd datblygu ...

28 February 2023 at 12:00

Interactions: 1 reaction, 0 comments, 2 shares

Performance

Reach	Engagements	Negative interactions
Total: 179	Total: 1	Total: 0
Organic: 179 (100%)	Comments: 0	Unique: 0
Paid: 0 (0%)	Shares: 2	

Feed preview

Cyngor Sir Ceredigion

Published by Hootsuite · 28 February · Public

Beth sy'n bwysig i chi wrth ddeilio â dementia? Bydd datblygu Cynlun Dementia Lleol yn helpu i lunio gwasanaethau a dulliau gweithredu i ddodwau anghenion unigolion sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr yn y dyfodol.

Helpwch i siapia datblygiad gwasanaethau dementia'r dyfodol trwy roi eich adborth neu ewch i ddigwyddiad galw heboc.

<https://bit.ly/ArolygDementia>

Digwyddiadau Ymgysylltu Cynlun Dementia Lleol

Pryd a ble?

- Aberaron: Gwesty'r Pliu, 13 Mawrth, 11:00-14:00
- Llandysul: Gwesty'r Porth, 13 Mawrth, 16:00-19:00
- Aberystwyth: Canolfan Morlan, 14 Mawrth, 14:00-19:00
- Tregaron: Neuadd Goffa, 16 Mawrth, 11:00-14:00
- Llanbedd: Neuadd Victoria, 16 Mawrth, 16:00-19:00
- Aberffelfi: Guildhall, 17 Mawrth, 14:00-19:00

Nid oes angen archebu iae ymolen tae.

8 Mawrth

Digwyddiadau Ymgysylltu Cynlun Dementia Lleol

Beth sy'n bwysig i chi wrth ddeilio â dementia? Bydd datblygu ...

8 March 2023 at 12:01

Interactions: 8 reactions, 1 comment, 14 shares

Performance

Reach	Engagements	Negative interactions
Total: 1,311	Total: 8	Total: 0
Organic: 1,311 (100%)	Comments: 1	Unique: 0
Paid: 0 (0%)	Shares: 14	

Feed preview

Cyngor Sir Ceredigion

Published by Hootsuite · 8 March · Public

Beth sy'n bwysig i chi wrth ddeilio â dementia? Bydd datblygu Cynlun Dementia Lleol yn helpu i lunio gwasanaethau a dulliau gweithredu i ddodwau anghenion unigolion sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr yn y dyfodol.

Helpwch i siapia datblygiad gwasanaethau dementia'r dyfodol trwy roi eich adborth neu ewch i ddigwyddiad galw heboc.

<https://bit.ly/ArolygDementia>

Digwyddiadau Ymgysylltu Cynlun Dementia Lleol

Pryd a ble?

- Aberaron: Gwesty'r Pliu, 13 Mawrth, 11:00-14:00
- Llandysul: Gwesty'r Porth, 13 Mawrth, 16:00-19:00
- Aberystwyth: Canolfan Morlan, 14 Mawrth, 14:00-19:00
- Tregaron: Neuadd Goffa, 16 Mawrth, 11:00-14:00
- Llanbedd: Neuadd Victoria, 16 Mawrth, 16:00-19:00
- Aberffelfi: Guildhall, 17 Mawrth, 14:00-19:00

Nid oes angen archebu iae ymolen tae.

14 March

Local Dementia Action Plan Engagement events

What is important to you when dealing with dementia? 🗣️ Dro...
14 March 2023 at 11:01
ID: 5242929276970

Interactions
4 reactions 1 comment 3 shares

Performance

Reach Total 2,373	Engagements Reactions 4	Negative interactions Total 0
Organic Paid	2,373 (100%) 0 (0%)	Comments Shares
		1 2
		Unique 0

Feed preview

Ceredigion County Council
Published by Hootsuite · 14 March · Public

What is important to you when dealing with dementia?
🗣️ Drop in sessions for the Local Dementia Action Plan are held across the County this week.
👉 Come share your ideas for the development of a Local Dementia Plan... See more

Local Dementia Action Plan Engagement events

When and where?

- Abersaron:** Feathers Hotel, 13 March, 11:00-14:00
- Llandysul:** Porth Hotel, 13 March, 16:00-19:00
- Aberystwyth:** Morlan Centre, 14 March, 14:00-18:00
- Tregaron:** Memorial Hall, 16 March, 11:00-14:00
- Lampeter:** Victoria Hall, 16 March, 16:00-19:00
- Cardigan:** Guildhall, 17 March, 14:00-19:00

Booking is not essential.
Any queries, contact Cllwr Elin on 01546 530 881 or rd@ardvanderfries.nsw.uk

14 Mawrth

Digwyddiadau Ymgysylltu Cynlun Dementia Lleol

Beth sy'n bwysig i chi wrth ddedio â dementia? 🗣️ Cynhelir sesi...
14 March 2023 at 11:01
ID: 52340848795011

Interactions
2 reactions 0 comments 2 shares

Performance

Reach Total 404	Engagements Reactions 2	Negative interactions Total 0
Organic Paid	404 (100%) 0 (0%)	Comments Shares
		0 2
		Unique 0

Feed preview

Cyngor Sir Ceredigion
Published by Hootsuite · 14 March · Public

Beth sy'n bwysig i chi wrth ddedio â dementia?
🗣️ Cynhelir sesiynau galw hebio ar gyfer Cynlun Gweithredu Dementia Lleol ar draws y Sir y wythnos hon.
👉 Dewch i rannu eich syniadau ar gyfer datblygu Cynlun Dementia Lleol... See more

Digwyddiadau Ymgysylltu Cynlun Dementia Lleol

Fryd a bled?

- Abersaron:** Gwesty'r Pfa, 13 Mawrth, 11:00-14:00
- Llandysul:** Gwesty'r Porth, 13 Mawrth, 16:00-19:00
- Aberystwyth:** Canolfan Morlan, 14 Mawrth, 14:00-18:00
- Tregaron:** Neuadd Goffa, 16 Mawrth, 11:00-14:00
- Llanbedd:** Neuadd Victoria, 16 Mawrth, 16:00-19:00
- Abertriffrwd:** Guildhall, 17 Mawrth, 14:00-19:00

Nid oes angen archebu iae ymlaen llaw.
Os oes gennych ymholiadau, cysylltwch â Cllwr Elin ar 01546 530881 neu

22 March

How to improve the care and experience of people living with Dementia.

There's only a couple more weeks to have your say on a Local Dementia Plan.
22 March 2023 at 09:00
ID: 5249170227085

Interactions
2 reactions 0 comments 10 shares

Performance

Reach Total 1,000	Engagements Reactions 2	Negative interactions Total 0
Organic Paid	1,000 (100%) 0 (0%)	Comments Shares
		0 10
		Unique 0

Feed preview

Ceredigion County Council
Published by Hootsuite · 22 March · Public

There's only a couple more weeks to have your say on a Local Dementia Plan.
A Local plan will help shape services and approaches to meet the needs of individuals living with dementia and their carers in the future. Your views are important to us, so share your views online before noon on 31 March 2023 - <https://bit.ly/CeredigionDementiaSurvey>

How to improve the care and experience of people living with Dementia.
Share your ideas for the development of a...

22 Mawrth

Sut i wella gofal a phrofiad y bobl sy'n byw gyda Dementia.

Dim ond cwpl o wythnosau sydd ar ôl i ddweud eich dweud...
22 March 2023 at 09:00
ID: 52340848795011

Interactions
1 reaction 0 comments 4 shares

Performance

Reach Total 424	Engagements Reactions 1	Negative interactions Total 0
Organic Paid	424 (100%) 0 (0%)	Comments Shares
		0 4
		Unique 0


Feed preview

Cyngor Sir Ceredigion
Published by Hootsuite · 22 March · Public

Dim ond cwpl o wythnosau sydd ar ôl i ddweud eich dweud ar Cynlun Dementia Lleol.
Bydd datblygu Cynlun Dementia Lleol yn helpu i lunio gwasanaethau a dulliau gweithredu i ddodwll anghnigon unigolion sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr ym y dyfodol.
Mae eich barn yn bwysig i ni, felly rhanwch eich barn ar-lein cyn hanner dydd ar 31 Mawrth - <https://bit.ly/ArdwagDementia>

Sut i wella gofal a phrofiad y bobl sy'n byw gyda Dementia.
Rhanwch eich syniadau ar gyfer datblygu...

29 March



Boost post

How to improve the care and experience of people living with Dementia.

29 March 2023 at 17:02
ID: 6022874183491

Interactions
0 reactions 0 comments 0 shares

Performance

Reach		Engagements		Negative interactions	
Total	Organic	Total	Comments	Total	Unique
702	702 (100%)	0	0	0	0
	0 (0%)		0		


[View Details](#)

Feed preview

Ceredigion County Council
Published by Hootsuite · 29 March · Public

What is important to you when dealing with dementia?
This is your last opportunity to have your say on a Local Dementia Plan. Your views are important to us.


A Local plan will help shape services and approaches to meet the needs of individuals living with dementia and their carers in the future... See more



How to improve the care and experience of people living with Dementia.

Share your Ideas for the development of a Local Dementia Plan.

29 March



Boost post

Beth sy'n bwysig i chi wrth ddeilio â dementia? Dyma eich cyfle...
Beth sy'n bwysig i chi wrth ddeilio â dementia?

29 March 2023 at 17:02
ID: 1220972094304

Interactions
2 reactions 0 comments 1 share

Performance

Reach		Engagements		Negative interactions	
Total	Organic	Total	Comments	Total	Unique
341	341 (100%)	2	0	0	0
	0 (0%)		1		


[View Details](#)

Feed preview

Cyngor Sir Ceredigion
Published by Hootsuite · 29 March · Public

Beth sy'n bwysig i chi wrth ddeilio â dementia?
Dyma eich cyfle olaf i ddiwedd eich ddiwedd am Gyrrllun Dementia Lleol. Mae eich barn yn bwysig i ni.

Byddi ddatblygu Cynllun Dementia Lleol yn helpu i lunio gwasanaethau a dulliau gweithredu i ddiwallu anghenion unigolion sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr yn y dyfodol... See more



Sut i wella gofal a phrofiad y bobl sy'n byw gyda Dementia.

Rhanwch eich syniadau ar gyfer datblygiad Cynllun Dementia Lleol.

Twitter, English & Cymraeg

(Gan gynnwys argraffiadau, retweets, hoffwyr, cliciau i'r wefan / Includes impressions, retweets, likes, link clicks)

15 Chwefror – 80 impression

15 February – 318 impression, 1 retweet

28 Chwefror – 88 impression, 1 retweet, 1 like, 1 link click

28 February – 701 impression, 4 retweet, 3 likes, 1 link click

8 Mawrth – 200 impression, 1 retweet, 1 like

8 March – 408 impression, 2 retweet, 1 like, 1 link click

14 Mawrth – 103 impression, 2 retweet, 1 like

14 March – 653 impression, 4 retweet, 2 like, 1 link click

22 Mawrth – 286 impression, 2 retweet, 2 likes, 1 link click

22 March – 520 impression, 5 retweet, 3 like, 2 link click

29 Mawrth – 105 impression

29 March – 880 impression, 2 retweet, 3 like

Instagram

(Gan gynnwys ymweliadau, hoffwyr a sylwadau / Includes reach, likes and comments)

15 Chwefror / February – 122 reach

28 Chwefror / February – 142 reach, 2 likes

8 Mawrth / March – 95 reach, 2 likes

14 Mawrth / March – 2,908 reach, 3 likes

22 Mawrth / March – 154 reach, 2 likes

29 Mawrth / March – 168 likes, 1 comment



Tudalen 195

Cyngor Sir Ceredigion – Prosiect Ymgysylltu a Chynllun Gweithredu Gwasanaeth Dementia

Cam 2 Cynllun Gweithredu
Gwasanaeth

Mai 2023



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Attain

Improving health and wellbeing

Rheoli dogfen

Perchennog	Cyngor Sir Ceredigion
Teitl y Ddogfen	Cam 2 Cynllun Gweithredu Gwasanaeth (Prosiect Ymgysylltu a Chynllun Gweithredu Gwasanaeth Dementia)
Fersiwn	0.2 – Drafft
Cyfeirnod	1001073
Awdur	Joseph Middleton
Dyddiad	04/05/2023

Hanes dogfen

Fersiwn	Dyddiad	Awdur	Sylwadau
0.1	04/05/23	Joseph Middleton	Strwythur Gychwynol y Ddogfen
0.2	30/05/23	Joseph Middleton	Adolygiad ar y Cyd NL/JM
0.3	02/06/23	Joseph Middleton	Sylwadau NL/EH (Monitro Perfformiad a Data)
0.4	08/06/23	Joseph Middleton	Sylwadau ar Ddatrysiadau Busnes ac Ymyrraeth Gynnar
0.5	08/06/23	Martin Wilson	Adolygu a golygu
0.6	13/06/23	Joseph Middleton	Sylwadau NL/WC
0.7	20/06/23	Joseph Middleton	Golygu ychwanegol, cyflwyno diwygiadau
0.8	11/07/23	Joseph Middleton	Ychwanegu Hafan y Waun

Cyflwyniad


Yn dilyn dadansoddiad o'r ymgysylltu helaeth a gynhaliwyd ar draws Ceredigion, wedi'i gyflwyno fel Adroddiad Cam 1, y cam nesaf yw llunio cynllun gweithredu i drawsnewid a gwella gofal dementia yn y sir.

Sail y cynllun hwn yw Strategaeth Dementia Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru, model gofal seiliedig ar dystiolaeth sy'n gosod yr unigolyn yn y canol. Mae ein cynllun gweithredu wedi'i strwythuro o amgylch 'olwynion' craidd y strategaeth lle mae'r bobl iawn yn bresennol i roi'r camau gweithredu yn y ddogfen hon ar waith; nid yw hynny'n golygu bod y camau gweithredu yn gyfyngedig i rai rhannau o'r llwybr, ond yn hytrach lle credwn y bydd y camau gweithredu yn cael yr effaith fwyaf.

Strategaeth Gofal Dementia Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru

Mae'r llwybr hwn yn gosod y PBGD a'i ofalwr wrth ganol cymorth y gwasanaeth. Mae'n dangos ffordd newydd fwy cydgyffwrddig o ddarparu gwasanaethau. Mae'n seiliedig ar arfer gorau a gwasanaethau presennol yng Ngorllewin Cymru.

Dylai'r model gwasanaeth gael ei ategu gan gyfres o weithdrefnau gweithredu gwasanaeth cytunedig y mae angen eu datblygu



Yn ogystal, rydym wedi cynnwys rhai meysydd cyffredinol lle mae gan bawb ran i'w chwarae wrth gyflawni'r camau hyn, a bydd y manteision i'w gweld ar draws y system i bobl sy'n byw gyda dementia, eu gofalwyr di-dâl, gweithwyr proffesiynol, a chymuned ehangach Ceredigion.

Sut bydd y cynllun yn cael ei gyflenwi?

Bydd y cynllun yn cael ei roi ar waith mewn ffordd integredig, ynghyd â neu ochr yn ochr â thimau eraill sy'n ymestyn ymhell ar draws Cyngor Sir Ceredigion ond hefyd iechyd, y trydydd sector a grwpiau elusennol. Yn yr un modd, mae rhai o'r camau gweithredu hyn yn ymestyn y tu hwnt i ffiniau'r sir, ac felly bydd cydweithio gyda phartneriaid rhanbarthol yr un mor hanfodol er mwyn osgoi gweithio heb ymwneud ag eraill.

Mae'r camau gweithredu'n ystyried yn benodol y dirwedd bresennol o wasanaethau sy'n gofalu am bobl sy'n byw gyda dementia (PBGD), a lle bo modd, dylai camau gweithredu fanteisio ar adnoddau a rhaglenni presennol a defnyddio cysylltiadau â grwpiau yn y gymuned a allai fod yn anodd ymgysylltu â hwy fel arall.

Arweinwyr a Llinellau Amser

Yn ystod yr ymgysylltu, roedd modd nodi'r bobl allweddol sydd mewn sefyllfa dda i roi'r camau gweithredu ar waith, gan geisio lleoli'r bobl orau, sydd agosaf at y materion, fel noddwr posibl neu arweinydd gweithredu. Yn ogystal, o ran amserlenni, nid yw'r rhain o reidrwydd yn awgrymu dyddiad cwblhau, ond yn hytrach yn rhoi syniad o'r cymhlethdod a'r brys ar gyfer mynd i'r afael â phob cam gweithredu.

Pwynt 1 ar y Llwybr: Llesiant, lleihau risg, gohirio cychwyniad, codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth



Pwynt Gweithredu	Thema Cam 1 #	Buddiolwyr Allweddol	Effaith	Partner Arweiniol a Noddwyr Posibl	Amserlen Fras
1.1. Ymgorffori a hyrwyddo Llinell Gymorth Dementia Cymdeithas Alzheimer fel rhan o'r cynnig heneiddio'n dda.	1, 2, 3, 4, 10, 12	Y cyhoedd Gofal sylfaenol	Mae pobl yn ymwybodol o ffynhonnell wybodaeth gyfredol, ddibynadwy waeth beth fo'r diagnosis er mwyn ceisio cymorth ac arweiniad iddynt hwy eu hunain neu eu perthnasau. Lleddfu pwysau ar ofal sylfaenol.	Cymdeithas Alzheimer a CSC: Cysylltwyr Cymunedol	2 fis
1.2. Adeiladu ar y fenter trefi sy'n deall demtia i gynnig cymorth i unrhyw fusnes neu sefydliad sy'n dymuno gwasanaethu PBGD yn well, wedi'i alinio â'r fenter Cymunedau Oed-gyfeillgar.	2, 6, 13, 18	Y cyhoedd Busnesau lleol PBGD	Siopau lleol, canolfannau hamdden, Swyddfeydd Post ac eglwysi ac ati yn wybodus ac wedi'u grymuso i wneud newidiadau er mwyn gallu croesawu a chefnogi PBGD yn well yn eu busnes bob dydd.	CSC: Twf a Menter a Datblygu Cymunedol Economaidd	6 mis
1.3. Nodi cyfleoedd i weithio gyda sefydliadau a grwpiau sydd eisoes wedi cyrraedd grwpiau heb gynrychiolaeth	2, 3, 6, 10, 13, 15, 17	Grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a allai fod yn byw	Mae perthnasoedd presennol, dibynadwy yn cael eu manteisio arnynt gyda chymunedau i bobl nad ydynt yn cael mynediad rheolaidd neu hwylus at wasanaethau demtia. Mae	CSC: Tîm Gydol Oes a Llesiant a'r Tîm Camddefnyd	4 mis

Pwynt Gweithredu	Thema Cam 1 #	Buddiolwyr Allweddol	Effaith	Partner Arweiniol a Noddwyr Posibl	Amserlen Fras
ddigonol (e.e. gweithwyr amaethyddol, y digartref, grwpiau ffydd).		gyda dementia	cymorth wedi'i deilwra ar gyfer y bobl agored i niwed hyn yn hygyrch, heb ragfarnu ac yn mynd i'r afael â phocedi o stigma sydd wedi hen ymwreiddio.	dió Sylweddau RABI, NFU	
1.4. Fel rhan o'r gwaith ehangach i ddatblygu gwefan, gwella cynnwys CSC ar gyfer dementia ar-lein i ateb anghenion y cyhoedd yn well.	10, 11, 12, 15	Y cyhoedd PBGD Gofalwyr di-dâl	Gwefan sy'n deall dementia gyda gwybodaeth gyfredol a hawdd ei deall ar gyfer trigolion Ceredigion sy'n dymuno dysgu mwy am ddementia, cael mynediad at wasanaethau a llywio gofal, gan gynnwys cymorth i'r rhai sy'n darparu gofal di-dâl, perthnasau, a'r rhai sy'n dymuno hyrwyddo cymunedau oed-gyfeillgar.	CSC: Tîm Rhaglen Cyfathrebu	6-12 mis
1.5. Parhau i ddiweddarau a mireinio cyfeirlyfr DEWIS fel ffynhonnell gyffredin o'r gwasanaethau sydd ar gael.	10, 11, 12, 15	Y cyhoedd Cysylltwyr Cymunedol	Mae cronfa ddata o wasanaethau, sy'n benodol i Geredigion, ar gael ac yn cael ei diweddarau'n rheolaidd er mwyn i weithwyr proffesiynol a'r cyhoedd allu cael mynediad at wasanaethau.	CSC: Cysylltwyr Cymunedol	3 mis
1.6. Dyfnhau gweithio ar y cyd ag lechyd Cyhoeddus Cymru ar fentrau ataliol yn ymwneud â dementia.	13, 15, 17	Y cyhoedd	Mae arbenigedd a gwybodaeth yn cael eu manteisio arnynt ar lefel genedlaethol gan lechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer gweithredu lleol i atal afiechyd (gan gynnwys dementia).	CSC: Tîm Gydol Oes a Llesiant	2 fis
1.7. Ymgorffori hyrwyddo ac ymwybyddiaeth o'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr a'r Llwybr Buddsoddwyr mewn Gofal ym mhob pwynt cyswllt posibl ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.	3, 18, 15	Gofalwyr di-dâl	Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr yn gweithredu fel ffynhonnell o gymorth a gwybodaeth i ofalwyr di-dâl ar y cam cynharaf posibl, ac maent yn cael cymorth ar hyd y daith ym mhob cam; hefyd mae annog cofrestru fel gofalwr di-dâl yn datgloi cymorth, asesu a chofrestru. Mae gofalwyr di-dâl yn cael eu cynnwys mewn gofal sylfaenol ar bob cyfle posibl.	CSC: Rheolwr Cymorth i Ofalwyr a Chymorth Cymunedol Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda / Gofal Sylfaenol: Arweinwyr Dementia	2 fis

Pwynt Gweithredu	Thema Cam 1 #	Buddiolwyr Allweddol	Effaith	Partner Arweiniol a Noddwyr Posibl	Amserlen Fras
1.8. Sicrhau bod archwiliadau llesiant gwybyddol rheolaidd yn cael eu cynnig yn gyson ac yn deg i bobl ag anableddau dysgu ar draws y sir.	17, 18	Pobl ag anableddau dysgu	Mae pobl sy'n wynebu mwy o risg o ddementia yn cael eu cefnogi gyda'r cynnig o apwyntiad dilynol rheolaidd a nodi'n gynnar symptomau a allai fod yn arwydd o ddementia cynnar.	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda / Gofal Sylfaenol: Arweinwyr Dementia	4 mis

Pwynt 2 ar y Llwybr: Adnabod, Nodi, Cefnogi a Hyfforddiant



Pwynt Gweithredu	Thema Cam 1 #	Buddiolwyr Allweddol	Effaith	Partner Arweiniol a Noddwyr Posibl	Amserlen Fras
2.1. Ail-bwysleisio pwysigrwydd gwaith fïm amlddisgyblaethol fel y dull safonol o reoli llwythi achosion dementia ar bob pwynt ar y llwybr.	6	PBGD Gweithwyr proffesiynol system gyfan	Mae PBGD yn cael yr amrywiaeth llawn o fewnbwn proffesiynol ar gyfer eu cymorth a'u gofal fel mater o drefn. Sefydli'r perthnasoddd gwaith agosach rhwng arbenigwyr iechyd a gofal cymdeithasol.	CSC a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda: Uwch Arweinyddiaeth	2 fis
2.2. Gwneud cynllunio gofal diwedd oes yn drafodaeth agored, ragweithiol a thosturiol ar ddechrau'r llwybr.	5, 6, 14	PBGD Darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol	Mae PBGD a'u gofalwyr yn teimlo'n hyderus ac yn gyfforddus i drafod cynllunio gofal uwch ar gyfer diwedd oes a deall yr opsiynau sydd ar gael iddynt. Rhoddir cyfleoedd rheolaidd i PBGD a gofalwyr wneud diweddariadau a diwygiadau i gynlluniau, fel y dymunir.	CSC: Tîm Cynllunio Gofal Uwch BIPHDd: Gofal Lliniarol	2 fis
2.3. Nodi dull sy'n galluogi partneriaid i gwrdd (yn gorfforol os oes modd) mewn fforwm i rannu arferion gorau, mynd i'r	6, 9, 10, 12, 17	Sefydliadau Trydydd Sector Partneriaid ymylol	Mae pawb sy'n gweithio i gefnogi PBGD yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys a'u clywed gyda sedd werthfawr wrth y bwrdd. Mae dyblygu yn lleihau o ganlyniad i gyfathrebu gwell ar draws sectorau a chaiff perthnasoddd	CSC: Tîm Gydol Oes a Llesiant	6 mis

Pwynt Gweithredu	Thema Cam 1 #	Buddiolwyr Allweddol	Effaith	Partner Arweiniol a Noddwyr Posibl	Amserlen Fras
afael â materion a rhoi diweddariadau.			eu meithrin rhwng partneriaid.		
2.4. Lle bo modd, neilltuo staff cymorth penodol ar gyfer achosion.	4, 6, 10	PBGD Gofalwyr a pherthnasau di-dâl	Mae un pwynt mynediad yn parhau'n gyson ond mae'n darparu cyswllt a enwir, lle bo'n briodol, i osgoi ailadrodd a rhwystredigaeth.	CSC: Tîm Un Pwynt Mynediad Porth Gofal	6 mis
2.5. Gweithio gyda BPRhGC i ddatblygu'r fframwaith ar gyfer sgiliau a datblygu ar gyfer gofal dementia.	16, 17, 18	Gweithwyr Gofal	Darpariaeth hyfforddiant ar draws y sir a'r rhanbarth i ddarparu rhaglen unedig o ddysgu a datblygu, yn ffurfiol ac yn anffurfiol, i'r rhai yn y proffesiwn gofal.	BPRhGC: Arweinydd Dementia	4 mis
2.6. Gwella'r cynnig addysg i aelodau'r cyhoedd er mwyn gwella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ddementia.	18	Gofalwyr di-dâl Y cyhoedd	Mae amrywiaeth eang ac ymgysylltiol o addysg a hyfforddiant ar gael i bobl leyg sy'n ategu eu dealltwriaeth a'u gofal am PWLD.	BPRhGC: Arweinydd Dementia Arweinydd Rhanbarthol Cymdeithas Alzheimer	6-12 mis
2.7. Parhau i gylchredeg a hyrwyddo Strategaeth Dementia Gorllewin Cymru fel llwybr sy'n ysgogi gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.	4, 17, 18	Gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal Gofalwyr di-dâl	Mae dealltwriaeth ehangach o nodau cyfunol y strategaeth yn creu cydlyniant a phwrpas cyffredin ymhlith timau a hefyd yn helpu i gyfeirio adnoddau penodol lle bo angen.	BPRhGC: Arweinydd Dementia CSC: Tîm Gydol Oes a Llesiant	6 mis

Pwynt Gweithredu	Thema Cam 1 #	Buddiolwyr Allweddol	Effaith	Partner Arweiniol a Noddwyr Posibl	Amserlen Fras
Cof cyn ei ailgynllunio i fod yn gysylltwyr llesiant.				Staff tîm amlddisgyblae thol yn cyfeirio at y Gwasanaeth Asesu Cof	
3.4. Ailbennu dealltwriaeth pobl o Asesu'r Cof fel rhan ddiagnostig o'r llwybr.	4, 12	PBGD Gofal sylfaenol Gwasanaeth Asesu Cof	Ystyrir bod asesu cof yn rhan gydrannol o lwybr ehangach ar gyfer gofal dementia yn hytrach na 'siop un stop' ar gyfer materion iechyd a gofal cymdeithasol.	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda / Gofal Sylfaenol: Arweinwyr Dementia	2 fis
3.5. Gwella sgrinio ac adnabod dementia posibl yn gynnar mewn gofal sylfaenol.	1, 2, 15	Pobl â dementia cyn-glinigol	Mae cyfraddau dal gwell y rhai sydd ag arwyddion cynnar o ddementia a sgrinio ar gyfer nam ar y cof yn rhan o'r drefn arferol, yn enwedig o ran gofalu am yr henoed.	BIPHDd: Arweinwyr Dementia	4 mis
3.6. Ymchwilio i sut y bydd gwasanaethau ymylol presennol fel y gwasanaeth Cysylltwyr Cymunedol a Gofalwyr yn integreiddio, rhyngwynebu ac ategu rôl newydd y Cysylltydd Dementia.	1, 4, 3, 10, 13, 15	PBGD Gofalwyr di-dâl Y cyhoedd	Mae gan wasanaethau presennol rolau diffiniedig o ran cefnogi PBGD. Byddant yn defnyddio eu cryfderau i ategu yn hytrach na gorgyffwrdd ar gyfer rolau newydd fel y Cysylltydd Dementia.	CSC: Gydol Oes a Llesiant ac Arweinydd Cysylltwyr Cymunedol BPRhGC: Arweinydd Dementia	6 mis

Pwynt 4 ar y Llwybr: Byw yn dda gyda dementia



Pwynt Gweithredu	Thema Cam 1 #	Buddiolwyr Allweddol	Effaith	Partner Arweiniol a Noddwyr Posibl	Amserlen Fras
4.1. Sicrhau bod dementia yn rhan o waith archwilio datrysiadau rhithwir ar gyfer gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol i fonitro o bell er mwyn galluogi PBGD i gynnal annibyniaeth a chefnogi eu gofalwyr.	5, 9, 13, 14, 19	PBGD yn byw'n annibynnol neu heb fawr o gymorth.	Dealltwriaeth o dirwedd bresennol datrysiadau rhithwir a digidol ar gyfer gofalu am PBGD a'u gofalwyr yn lleol ac yn rhyngwladol gyda golwg ar yr hyn a allai fod o fudd i'r rhai yng Ngheredigion. Mae arloesedd technoleg yn y maes hwn yn cael ei gefnogi gan dîm gofal wedi'i alluogi gan dechnoleg CSC.	CSC: Tîm Gofal Wedi'i Alluogi gan Dechnoleg	6 mis
4.2. Creu cyfleoedd wedi'u teilwra ar gyfer y rhai a hoffai gymryd rhan mewn gweithgareddau.	7	PBGD	Mae gan PBGD sy'n chwilio am gyfleoedd ar gyfer adloniant a chymdeithasu amrywiaeth o weithgareddau ar gael sydd wedi'u teilwra i'w diddordebau, yn enwedig y rhai sy'n apelio at ddyfynion sy'n byw gyda dementia ac sy'n integreiddio PBGD i weithgarwch cymdeithasol presennol, yn enwedig achub ar gyfleoedd ar gyfer profiadau rhwng cenedlaethau a'r rhai gyda neu heb ofalwyr, fel y bo'n briodol.	CSC: Tîm PSL	6 mis

Pwynt Gweithredu	Thema Cam 1 #	Buddiolwyr Allweddol	Effaith	Partner Arweiniol a Noddwyr Posibl	Amserlen Fras
4.3. Sicrhau bod adolygiadau meddyginiaeth yn cael eu cynnal mewn modd amserol a rhagweithiol.	6, 10	PBGD	Adolygir meddyginiaethau PBGD heb fod angen digwyddiad i ysgogi newid. Lleihau defnyddio mwy nag un fferyllfa a gorbresgripsiynu.	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda / Gofal Sylfaenol: Arweinwyr Dementia ac Arweinwyr Clinigol y Gwasanaeth Asesu Cof	4-6 mis
4.4. Sefydlu rôl Gweithiwr Cyswllt Dementia fel rhan o'r rhaglen BPRhGC.	1, 2, 3, 4	PBGD Gofalwyr di-dâl	Mae gan PBGD weithiwr proffesiynol hyfforddedig fel pwynt cyswllt cyntaf a enwir ar gyfer materion dementia a all ddarparu gwybodaeth a chymorth lleol.	BPRhGC: Arweinydd Dementia	6 mis
4.5. Rhoi sylw i faterion yn ymwneud â mynediad a chapasiti ar gyfer gofal seibiant, o bosibl ar lefel ranbarthol.	19	PBGD Gofalwyr di-dâl	Mae gofal seibiant yn hygyrch ac mae digon ohono ar gael ar draws y sir gan gefnogi gofalwyr di-dâl yn eu gofal o PBGD, yn enwedig y rhai ag anghenion cymhleth neu ychwanegol sy'n gofyn am sgiliau ac amgylcheddau arbenigol.	CSC: Porth Gofal BPRhGC ar lefel ranbarthol	12 mis


Pwynt 5 ar y Llwybr: Mwy o gymorth pan fyddwch ei angen



Pwynt Gweithredu	Thema Cam 1 #	Buddiolwyr Allweddol	Effaith	Partner Arweiniol a Noddwyr Posibl	Amserlen Fras
5.1. Datblygu pecynnau hyfforddi a rolau gwell ar gyfer gweithwyr gofal i adeiladu gweithlu gofal arbenigol sy'n ateb anghenion cymhleth.	16, 17, 18	PBGD mewn gofal Gweithwyr gofal	Mae staff sydd â hyfforddiant, gwybodaeth a phrofiad ychwanegol yn gofalu am PBGD ag anghenion cymhleth ac yn gallu hyrwyddo llesiant PBGD mewn gofal. Mwy o recriwtio, cadw a boddhad swydd ar gyfer gweithwyr gofal sy'n teimlo eu bod wedi'u cyfarparu'n dda i ateb anghenion dementia cymhleth. <i>DS Adeiladu ar lwyddiant hyfforddiant y Bws Dementia</i>	CSC: Tîm Gydol Oes a Llesiant Arweinydd Dementia BPRhGC	12 mis
5.2. Sefydlu gweithgor i nodi'r materion allweddol sy'n ymwneud â diffyg gofal arbenigol a gwelyau nyrsio yn y sir.	14, 16, 17, 19	PBGD ag anghenion cymhleth mewn gofal	Gall PBGD aros yn eu hardal leol er gwaethaf anghenion gofal ychwanegol. Gall perthnasau ymweld yn haws ag anwyliaid. Bodlonir anghenion cymhleth gan staff sydd â hyfforddiant ac arbenigedd gwell. Archwilio'r cyfleoedd y mae Hafan y Waun yn eu cynnig.	CSC: Gydol Oes a Llesiant	6 mis

Pwynt Gweithredu	Thema Cam 1 #	Buddiolwyr Allweddol	Effaith	Partner Arweiniol a Noddwyr Posibl	Amserlen Fras
5.3. Llundio 'cynllun uwchgyfeirio' cyffredin i staff gofal weithio drwyddo i gael cymorth gyda materion yn fwy effeithiol.	10, 13, 20	Achwynwyr Staff gofal	Mae strwythur unedig ar gyfer uwchgyfeirio pryderon gan staff gofal rheng flaen yn cefnogi pobl sy'n dymuno codi pryderon ond hefyd yn grymuso staff gofal i rannu problemau a gwybod y bydd y bobl gywir yn delio â nhw.	CSC: Rheolwr Corfforaethol, Gofal Preswyl	4 mis
5.4. Ymchwilio'r opsiynau ar gyfer fîm 'o fewn cyrraedd' i ddarparu gofal a chymorth gwell, yn enwedig yn ystod yr oriau gyda'r hwyr i atal derbyniadau ac argyfwng.	5	PBGD mewn argyfwng iechyd neu gymdeithasol	Tîm ymatebol, ddydd a nos o arbenigwyr sy'n gallu cefnogi trefniadau gofal sy'n bodoli, gan gynnwys ar gyfer gofawyr di-dâl ar adegau o her er mwyn atal derbyn cleifion i'r ysbyty neu atal trefniadau gofal rhag chwalu.	CSC: Tîm Gydol Oes a Llesiant a mewnbwn gan y Tîm Amlddisgyblaethol/Tîm BIPHDd	12 mis
5.5. Datblygu rhaglen gyfathrebu a phontio fesul cam wrth ddefnyddio gwasanaethau gofal cartref.	14, 15, 17	PBGD	Wedi'i lunio i gyd-fynd ag arferion gorau, mae PBGD yn cael eu cyflwyno'n raddol i drefniadau byw newydd mewn modd hylaw, fesul cam a chaiff perthnasau eu cefnogi gyda sgysiau anodd am drosglwyddo i gymorth cynyddol.	CSC: Rheolwr Corfforaethol, Darparwyr Gofal HDdUHB: Tîm Rhyddhau	3 mis

Themâu Trawsbynciol



Pwynt Gweithredu	Effaith	Partner Arweiniol a Noddwyr Posibl	Amserlen Fras
<p>Cofnodion Gofal a Rennir Gweithio tuag at integreiddio pellach a rhannu cofnodion a lleihau'r rhaniad rhwng mynediad at wybodaeth iechyd a gofal cymdeithasol. Rhaid i hyn gynnwys cynlluniau gofal, yn ddelfrydol gyda chwmpas hyd yn oed ehangach o fynediad i gefnogi darparwyr.</p>	<p>Mae partneriaid yn cael darlun llawn o ran y cymorth a'r gofal ar gyfer PBGD. Nid oes rhaid i PBGD ailadrodd eu hunain ac mae gwybodaeth yn llifo'n hawdd rhwng yr ysbyty, y gymuned, gofal cymdeithasol ac iechyd.</p>	<p>Timau Llywodraethu Data a Chofnodion Cleifion Electronig CSC a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda</p>	<p>12-24 mis</p>
<p>Gweithlu Sicrhau bod strategaeth ranbarthol BPRhGC ar gyfer y gweithlu yn mynd i'r afael â manau cyfyng yng Ngheredigion ac yn adlewyrchu'r heriau sy'n unigryw i'r sir.</p>	<p>Mae gweithredu ar y cyd o'r rhanbarth ehangach yn galluogi strategaeth gydlynol sy'n rhoi sylw i'r bylchau yn y gweithlu ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, yn ymwneud â gofal dementia yn benodol. Mae Ceredigion yn cael ei hystyried yn lle deniadol i ddilyn gyrfu mewn gofalu am PBGD.</p>	<p>BPRhGC: Arweinydd Dementia</p>	<p>6-12 mis</p>
<p>Adfer wedi Covid Parhau i adfer yr holl wasanaethau a llacio cyfyngiadau ar gyfer pob gwasanaeth.</p>	<p>Llai o ynysu a mynediad dilyffethair at yr ystod lawn o wasanaethau gofal ac iechyd ar gyfer PBGD.</p>	<p>Pob partner</p>	<p>2 fis</p>

Pwynt Gweithredu	Effaith	Partner Arweiniol a Noddwyr Posibl	Amserlen Fras
<p>Trafnidiaeth Sefydlu gweithgor i fynd i'r afael â materion trafndiaeth sy'n effeithio ar degwch o ran cael mynediad at iechyd a gofal cymdeithasol, y risg o ynysu ac addasu i bobl sy'n byw gyda dementia yng Ngheredigion.</p>	<p>Mae'r grwpiau a'r ardaloedd sydd fwyaf mewn perygl o gael 'mannau gwael' o ran trafndiaeth yn cael eu cefnogi a'u lliniaru trwy'r tîm aml-ddisgyblaethol sy'n gweithio gyda sefydliadau cyhoeddus, preifat ac elusennol i gynyddu'r ddarpariaeth trafndiaeth gan gyfeirio'n ychwanegol at ddatrysiadau sy'n arbennig o addas ar gyfer PBGD.</p>	<p>CSC: Adran Gydol Oes a Llesiant a Thrafnidiaeth WAST Ceir Cefn Gwlad</p>	6 mis
<p>Data a Mesur Perfformiad Ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, llunio cyfres o fetrigau i fesur perfformiad ac ansawdd ar draws y sir, a chyfateb ar lefel ranbarthol gyda BPRhGC i feincnodi yn erbyn mesurau rhanbarthol.</p>	<p>Mae gan Geredigion fesurau perfformiad meintiol a gwrthrychol ar gyfer darparu gofal dementia rhagorol. Bydd dangosyddion perfformiad allweddol yn galluogi tîmau i gyfeirio ffocws ar y meysydd hynny sydd angen sylw.</p>	<p>CSC: Gydol Oes a Llesiant gyda chefnogaeth gan y Tîm Perfformiad a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a BPRhGC</p>	4 mis

Cyngor Sir Ceredigion County Council

ADRODDIAD I'R: Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach

DYDDIAD: 18 Medi 2023

LLEOLIAD: Siambr y Cyngor, Penmorfa

TEITL: Gwasanaethau Arbenigol Porth Cynnal (Plant ac Oedolion)

**ADRODDIAD RHEOLI PERFFORMIAD Y GWASANAETH
ADOLYGU ANNIBYNNOL
CHWARTER 4 2022 – 2023**

PWRPAS YR ADRODDIAD: Monitro cynnydd plant sy'n derbyn gofal trwy waith craffu Swyddogion Adolygu Annibynnol o'u cynlluniau a'u lleoliadau yn ystod pedwerydd chwarter 2022/2023. Mae'r wybodaeth hon yn cynorthwyo'r Aelodau i gyflawni eu swyddogaethau fel Rhieni Corfforaethol.

**RHESWM Y MAE'R
PWYLLGOR CRAFFU
WEDI GOFYN AM Y
WYBODAETH HON:**

Sicrhau bod yr Awdurdod Lleol a'r Aelodau yn gallu cyflawni eu dyletswyddau fel Rhieni Corfforaethol.

CEFNDIR:

Atodir Adroddiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol ar gyfer Chwarter 4 2022/2023.

Caiff adroddiadau chwarterol eu rhoi gerbron y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach fel rhan o'r ystyriaeth barhaus o'r pwnc i sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn cyflawni ei ddyletswyddau fel y Rhiant Corfforaethol.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys y safonau a'r targedau cenedlaethol a lleol a ddefnyddir i fesur y canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n gadael gofal adeg eu cyfarfod adolygu, ac mae'n cynnwys Dangosyddion Perfformiad Llywodraeth Cymru.

Ar sail y wybodaeth sydd ar gael a'r hyn a fynegwyd yn ystod y cyfarfod adolygu, mae'r Swyddog Adolygu Annibynnol yn llunio barn broffesiynol ynghylch effeithiolrwydd Cynllun Gofal y plentyn/person ifanc o ran bodloni ei anghenion, a gall argymhell newidiadau i'r Cynllun Gofal.

Yn ystod y cyfarfod adolygu bydd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oes angen cymorth ar y plentyn/person ifanc i adnabod pobl eraill berthnasol i gael cyngor cyfreithiol/cymryd camau ar ei ran. Roedd y Swyddog Adolygu Annibynnol o'r farn bod angen gweithredu ar gyfer 7 person ifanc yn ystod y cyfnod hwn.

Yn ogystal, mae'r Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oes unrhyw dramgwydd yn erbyn hawliau dynol y plentyn/person ifanc ac, os oes, gallai gyfeirio'r achos i CAF/CASS

Cymru. Ni chododd yr angen i wneud hynny mewn unrhyw gyfarfod adolygu yn ystod y cyfnod hwn.

CRYNODEB O'R PWYNTIAU ALLWEDDOL:

- Ar ddiwedd Chwarter 4, roedd 132 o blant yn derbyn gofal o'i gymharu â 122 ar ddiwedd Chwarter 3.
- Cafodd 101 o blant eu hadolygu yn ystod y chwarter hwn o'i gymharu â 116 yn y chwarter blaenorol. Adolygwyd 94.1% o blant o fewn yr amserlen statudol.
- Roedd 3 phlentyn wedi gadael gofal yn y chwarter hwn o'i gymharu ag 8 yn Chwarter 3. Cafodd 1 plentyn ei fabwysiadu yn y chwarter hwn a symudodd 2 berson ifanc ymlaen i lety â chymorth neu fyw'n annibynnol neu i leoliad cysylltu bywydau.
- Y ddarpariaeth lleoliad ar gyfer y plant a adolygwyd yn ystod y chwarter hwn oedd bod 25 mewn gofal maeth Awdurdod Lleol (yn y sir) a 2 mewn lleoliadau gofal maeth yr ALI y tu allan i'r sir, 24 mewn lleoliadau gofalwyr sy'n berthnasau (19 yn y sir, 5 y tu allan i'r sir), 13 mewn lleoliadau Asiantaeth Faethu Annibynnol (3 yn y sir, 10 y tu allan i'r sir), cafodd 11 plentyn eu lleoli gyda rhieni a chafodd 13 eu lleoli mewn darpariaeth gofal preswyl y tu allan i'r sir. Cafodd 4 plentyn eu lleoli gyda theulu, cafodd 3 eu mabwysiadu, ac roedd 6 mewn llety â chymorth/byw'n annibynnol.
- Roedd 51 o blant yn derbyn gofal o dan statws cyfreithiol Gorchymyn Gofal Llawn, 28 o dan Orchymyn Gofal Dros Dro, 3 o dan Orchymyn Lleoli, ac 19 o dan Adran 76.
- O'r plant a adolygwyd yn ystod y chwarter hwn, cafodd 98% o'r plant ymweliad statudol. Roedd hyn yn cymharu ag 83.6% yn Chwarter 3
- Cofnodwyd bod 46.7% o'r Cynlluniau Gofal a Chymorth wedi'u sefydlu yn yr adolygiad cyntaf. Roedd y ganran isel eto y chwarter hwn oherwydd problemau staffio yn y Tîm Gofal Wedi'i Gynllunio oedd wedi atal cynlluniau rhag cael eu cwblhau mewn pryd.
- Fodd bynnag, roedd gan 83.3% o'r plant a adolygwyd yn y chwarter hwn Gynllun Parhad wedi'i sefydlu o'i gymharu â dim ond 16.7% o'r plant a adolygwyd yn Chwarter 3.
- Nododd 100 (99.0%) o adolygiadau fod safbwyntiau diwylliannol y person ifanc wedi cael eu bodloni,
- Cydnabuwyd mewn 86 o adolygiadau bod anghenion crefyddol y person ifanc yn cael eu bodloni; cadarnhaodd 4 adolygiad nad oedd anghenion y person ifanc yn cael eu bodloni, ac ar gyfer 9 adolygiad pellach nid oedd yn hysbys a oedd yr anghenion wedi'u bodloni neu beidio.
- Roedd angen cyfieithydd a chafodd ei ddarparu ar gyfer 8 adolygiad lle'r oedd ei angen.
- Roedd 8 plentyn/person ifanc yn blant ar eu pennau eu hunain sy'n ceisio lloches ac nid oedd gan 7 o'r plant/pobl ifanc hyn Gynllun Preswylion Sefydlog i Ddinasyddion yr EU.
- Ar gyfer plant a adolygwyd a'u hail adolygiad neu adolygiad dilynol, y cynlluniau parhad oedd yn eu lle oedd: 24 o blant yn aros mewn gofal maeth tymor hir, 17 o blant yn cael eu tracio'n gyfochrog, 13 o blant yn cael gofal gan berthnasau/gofal gan aelod o'r teulu, 9 plentyn mewn lleoliad gyda rhiant, 9 plentyn mewn gofal preswyl, 6 phlentyn yn cael eu mabwysiadu, 5 plentyn mewn lleoliad byw'n annibynnol, 2 blentyn o dan gynllun Gwarcheidwaeth Arbennig, 1 plentyn yn cael ei gefnogi i ail-fyw gyda'i rieni.
- Canran y plant (â digon o grebwyll) sy'n deall y rheswm dros dderbyn gofal oedd 98.5%.

Tudalen 213

- Canran y plant â digon o grebwyll oedd wedi cymryd rhan neu a gafodd eu hymgyngori ynghylch eu hadolygiad oedd 100%.
- Canran y plant a gafodd wybod am eu hawl i gael Gwasanaeth Eirioli oedd 90.9%.
- Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal oedran ysgol oedd â Chynllun Addysg Personol yn ei le o fewn 20 diwrnod ysgol ar ôl iddynt ddechrau derbyn gofal neu ar ôl dechrau mewn ysgol newydd yn ystod y chwarter hwn oedd 93.7%.
- Nifer a chanran y rhieni roedd y Gweithiwr Cymdeithasol wedi ymgynghori â hwy cyn yr adolygiad neu a fu'n bresennol yn yr adolygiad oedd 100%.
- Cynhaliwyd 30 o Gynlluniau Llwybr yn ystod chwarter hwn o'i gymharu ag 17 yn Chwarter 3. Cynhaliwyd 90.0% Adolygiad o Gynlluniau Llwybr o fewn y terfynau amser.
- Canran y bobl ifanc ag Ymgynghorydd Personol/Gweithiwr Cymdeithasol dynodedig oedd 100% yn ystod y chwarter hwn.
- Canran y bobl ifanc yr ymgynghorwyd â hwy ar gyfer eu cyfarfod adolygu yn ystod y chwarter hwn oedd 90%.

A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, esboniwch pam

Naddo

Crynodeb:

Caiff yr adroddiad hwn ei ddarparu'n barhaus ac mae'n dangos y gwaith parhaus a wneir gyda phlant sy'n derbyn gofal yng Ngheredigion.

LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:

Hirdymor:

Cael cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a chynllunio hirdymor ar gyfer y dyfodol

Integreiddio:

Effeithio'n gadarnhaol ar bobl, yr economi, yr amgylchedd a'r diwylliant a cheisio dod â budd i bob un ohonynt

Cydweithredu:

Cydweithio â phartneriaid eraill i gyrraedd y nod

Cynnwys:

Cynnwys y rhai hynny sydd â diddordeb a cheisio eu safbwyntiau; ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid

Atal:

Defnyddio adnoddau i atal problemau rhag codi neu waethygu

ARGYMHELLIAD(ARGYMHELLION):

Nodi cynnwys yr adroddiad a'r lefelau gweithgarwch gyda'r Awdurdod Lleol.

RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD(ARGYMHELLION):

Er mwyn monitro dull llywodraethu gweithgarwch yr Awdurdod Lleol a'i asiantaethau partner ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

Enw cyswllt:

Audrey Somerton Edwards

Tudalen 214

Swydd: **Swyddog Arweiniol Corfforaethol: (Plant a Theuluoedd)**

Dyddiad yr Adroddiad: 14 Mehefin 2023

Acronymau:

IRO – Swyddog Adolygu Annibynnol

LAC – Plant sy'n Derbyn Gofal;

CAFCASS – Gwasanaeth Cynghori a Chymorth i Blant a Theuluoedd

APR – Cofnodion Gweithredu a Chynnydd

PEP – Cynllun Addysg Bersonol

PI – Dangosyddion Perfformiad

CAMHS – Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed

NEET – Heb fod mewn addysg, gwaith na hyfforddiant

PRU – Uned Cyfeirio Disgyblion

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Gwasanaeth Diogelu

Adroddiad Rheoli Perfformiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol

Chwarter 4: 1 Ionawr 2023 – 31 Mawrth 2023



...yn gofalu i wneud gwahaniaeth
...taking care to make a difference

CYNNWYS		
TUDALEN:		
ADRAN UN:	CYFLWYNIAD	3
ADRAN DAU:	CYNLLUNIO GOFAL	4
ADRAN TRI:	YMGYNGHORI A CHYFRANOGI	21
ADRAN PEDWAR:	PROTOCOL DATRYS PROBLEMAU	24
ADRAN PUMP:	GWERTHUSO	24
ADRAN CHWECH:	CYNLLUNIAU LLWYBR	25
ADRAN SAITH:	GOFAL SEIBIANT BYR RHEOLAIDD	27
ADRAN WYTH:	GOFAL SEIBIANT BYR	28

ADRAN UN: CYFLWYNIAD

Mae'r adroddiad hwn yn darparu'r wybodaeth a gasglwyd gan y Gwasanaeth Sicrhau Ansawdd ac Adolygu Annibynnol er mwyn monitro perfformiad a sicrhau ansawdd y gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal, plant sy'n gadael gofal, plant sydd mewn lleoliadau preswyl, a phlant sy'n derbyn gofal seibiant a seibiannau byr. Mae'r wybodaeth yn seiliedig ar y ffurflenni monitro sy'n cael eu cwblhau gan y Swyddogion Adolygu Annibynnol yn dilyn pob cyfarfod adolygu yn ystod y chwarter hwn ynghyd â gwybodaeth arall am berfformiad a gedwir gan y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd.

MEINCNODI

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys y mesurau a'r targedau cenedlaethol a lleol a ddefnyddir i fesur y canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n gadael gofal adeg eu cyfarfod adolygu.

Ar sail y wybodaeth sydd ar gael a'r hyn a fynegir yn ystod y cyfarfod adolygu, mae'r Swyddog Adolygu Annibynnol yn llunio barn broffesiynol ynghylch effeithiolrwydd cynllun gofal y plentyn/person ifanc o ran bodloni ei anghenion, a bydd yn tynnu sylw rheolwyr at unrhyw ymarferion gwael.


Yn ystod y cyfarfod adolygu bydd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oes angen cymorth ar y plentyn/person ifanc i adnabod pobl eraill berthnasol i gael cyngor cyfreithiol/cymryd camau ar ei ran. Barnwyd bod angen gweithredu ar gyfer 7 blentyn/person ifanc yn ystod y cyfnod dan sylw.

Yn ogystal, mae'r Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oes unrhyw dramgwydd yn erbyn hawliau dynol y plentyn/person ifanc ac, os oes, gallai gyfeirio'r achos i CAF/CASS Cymru. Ni chododd yr angen i wneud hynny mewn unrhyw gyfarfod adolygu yn ystod y cyfnod hwn.

ADRAN DAU
CYNLLUNIO GOFAL

1. Prif Ffigurau ar gyfer Chwarter 4:

Mae'r tabl a'r siart isod yn rhoi cyfanswm y data plant sy'n derbyn gofal ar ddiwedd pob chwarter gan ddechrau gyda'r chwarter diweddaraf.	
31 Mawrth 2023	132
31 Rhagfyr 2022	122
30 Medi 2022	112
30 Mehefin 2022	105
31 Mawrth 2022	100
31 Rhagfyr 2021	97
30 Medi 2021	91
30 Mehefin 2021	89
31 Mawrth 2021	85



2. Nifer a chanran yr adolygiadau o blant sy'n derbyn gofal a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser statudol

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 94.1%


Adolygwyd 101 o blant yn ystod y chwarter hwn.

- Cynhaliwyd 95 (94.1%) cyfarfod adolygu plant sy'n derbyn gofal o fewn y terfynau amser statudol.
- Cynhaliwyd 6 (5.9%) cyfarfod adolygu plant sy'n derbyn gofal y tu allan i'r gofynion statudol; cofnodwyd y rhesymau fel a ganlyn:-
 - Gohiriwyd 2 adolygiad oherwydd argaeledd addysg.
 - Ar gyfer 2 arall roedd yr oedi oherwydd argaeledd y darpar fabwysiadwr.


Tudalen 219

- Gohiriwyd adolygiad pellach oherwydd bod y gofalwr a'r rhiant yn sâl a gohiriwyd 1 adolygiad arall oherwydd bod y person ifanc yn sâl.

	Ion-Maw 2023	Hyd-Rhag 2022	Gorff-Medi 2022	Ebr-Meh 2022	Ion-Maw 2022
Nifer y plant a adolygwyd yn ystod y chwarter	101	116	63	83	61
Nifer yr adolygiadau a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser	95	99	56	75	55
Nifer yr adolygiadau a gynhaliwyd y tu allan i'r terfynau amser	6	17	7	8	6



3. Oed a rhyw plant a adolygwyd yn ystod y chwarter hwn:



4. Anghenion Diwylliannol, Crefyddol ac Iaith

Nododd 100 (99.0%) adolygiad fod safbwyntiau diwylliannol y person ifanc yn cael eu bodloni, ond nododd 1 adolygiad nad oedd anghenion y person ifanc wedi'u bodloni.

Cydnabuwyd mewn 86 o adolygiadau bod anghenion crefyddol y person ifanc yn cael eu bodloni; cadarnhaodd 4 adolygiad nad oedd anghenion y bobl ifanc yn cael eu bodloni, ac ar gyfer 9 adolygiad pellach nid oedd yn hysbys a oedd yr anghenion wedi'u bodloni neu beidio.

Roedd angen cyfieithydd a chafodd ei ddarparu ar gyfer pob un o'r 8 adolygiad.

5. Dinasyddiaeth


Cofnododd 92 adolygiad fod y plentyn person ifanc yn Ddinesydd y DU, gyda 9 adolygiad yn nodi nad oedd y plentyn/person ifanc yn Ddinesydd y DU.

Roedd 8 plentyn/person ifanc yn blant ar eu pennau eu hunain sy'n ceisio lloches, nid oedd gan 7 o'r plant/pobl ifanc hyn Gynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr EU wedi'i sefydlu ac ni wyddys a oedd gan y person ifanc arall Gynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr EU wedi'i sefydlu.

Cofnododd pob un o'r 8 adolygiad nad oedd cais wedi cael ei wneud ar gyfer Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr EU neu nid oedd yn hysbys a oedd cais wedi cael ei wneud; fodd bynnag cofnododd pob un o'r 8 adolygiad fod y person ifanc yn cael ei gefnogi yn hyn o beth.

6. Natur lleoliadau'r plant a adolygwyd yn ystod y chwarter hwn:

Math o Leoliad	Yn y Sir	Tu allan i'r Sir	Cyfanswm
Gofalwyr Maeth yr Awdurdod Lleol	25	2	27
Gofalwyr sy'n Berthnasau	19	5	24
Gofalwyr Asiantaeth Faethu Annibynnol	3	10	13
Lleoli â Rhieni	11		11
Arall			
Lleoli â Theulu	1	3	4
Preswyl		13	13
Mabwysiadu		3	3
Preswyl Mamau a Babanod			
Gofalwyr Maeth Asiantaeth Faethu Annibynnol ar gyfer Rhieni a Babanod			
Ysbyty			
Llety â Chymorth/ Byw'n Annibynnol		6	6
	59	42	101




Roedd 64 o bobl ifanc a adolygwyd wedi cael eu lleoli gyda gofalwyr oedd yn siarad eu hiaith eu hunain

Nododd 8 adolygiad fod y person ifanc yn plentyn heb fod yng nghwmni oedolyn a chafodd ei roi mewn lleoliad gofal oedd heb fodloni ei anghenion iaith gyntaf. Roedd cyfieithydd yn yr adolygiad er mwyn i'r person ifanc allu cyfrannu'n briodol.

7. Statws cyfreithiol y plant a adolygwyd yn ystod y chwarter hwn:

Statws cyfreithiol y plant a adolygwyd	
Gorchymyn Gofal Llawn	51
Gorchymyn Gofal Dros Dro	28
Gorchymyn Lleoli	3
Adran 76	19
Cyfanswm	101




Awdurdod Dirprwyedig:

Cadarnhawyd bod awdurdod dirprwyedig wedi'i sefydlu ar gyfer 71 o blant a adolygwyd, gydag 11 adolygiad yn nodi nad oedd hyn wedi'i wneud eto. Ni wyddys a oedd hyn wedi digwydd mewn 12 adolygiad, gyda 7 adolygiad arall yn cofnodi nad oedd yn berthnasol i'r achos.

8. Y rhesymau pam bod y plant a adolygwyd wedi gadael gofal

Cyfnod	Y nifer sydd wedi gadael gofal	Y rheswm dros adael gofal				
		Mabwysiadu	Dychwelyd adref at y teulu	Pan dwi'n barod	Dirymu'r Gorchymyn Gofal	Llety â Chymorth/ Byw'n Annibynnol/ Cysylltu Bywydau
Ion-Maw 2023	3	1	0	0	0	2
Hyd-Rhag 2022	8	0	6	1	0	1
Gorff-Medi 2022	6	1	1	1	3	0
Ebr-Meh 2022	2	0	0	0	1	1
Cyfanswm	19	2	7	2	4	4

**9. Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal sydd â Gweithiwr Cymdeithasol dynodedig**


Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 100.0%

- Cofnododd 101 (100.0%) adolygiad o blant sy'n derbyn gofal fod Gweithiwr Cymdeithasol cymwysedig yn gweithio gyda'r plentyn.

10. Nifer a chanran yr ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal a adolygwyd o fewn y terfynau amser gofynnol

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 98.0%

- Derbyniodd 99 (98.0%) o blant sy'n derbyn gofal ymweliadau gan Weithiwr Cymdeithasol yn unol â'r gofynion statudol.
- Ni dderbyniodd 2 (2.0%) blentyn sy'n derbyn gofal ymweliadau gan Weithiwr Cymdeithasol yn unol â'r gofynion statudol.




Sylwadau:

11. Nifer a chanran y Cynlluniau Gofal a Chymorth (Rhan 6) a oedd wedi'u sefydlu erbyn dyddiad y lleoliad cyntaf a'r cynlluniau cyfredol a oedd ar gael ar gyfer yr adolygiad

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 46.7%

- Daeth 15 o blant yn blant sy'n derbyn gofal yn ystod y chwarter hwn; cofnodwyd mewn 7 (46.7%) cyfarfod adolygu fod gan y plentyn/person ifanc Gynllun Gofal a Chymorth (Rhan 6) wedi'i sefydlu erbyn dyddiad ei lleoliad. Nid oedd y Cynllun Gofal a Chymorth (Rhan 6) wedi'i sefydlu erbyn dyddiad y lleoliad ar gyfer yr 8 plentyn/person ifanc arall.



- Nododd y Swyddog Adolygu Annibynnol fod angen diweddarau cofnodion y Cynllun Gofal a Chymorth (Rhan 6) ar gyfer 19 o blant. Nodwyd bod angen diweddarau'r Cynllun Gofal a Chymorth o hyd ar gyfer 9 plentyn/person ifanc.


12. Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal sydd â Chynllun Parhad wedi'i sefydlu erbyn yr ail adolygiad os na chynlluniwyd ar gyfer dychwelyd adref

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 83.3%


- Cynhaliwyd 18 ail adolygiad yn ystod y chwarter hwn, a chofnododd 15 (83.3%) adolygiad fod Cynllun Parhad wedi'i gytuno. Mae hyn yn cymharu ag 16.7% yn y chwarter blaenorol.
- Mewn 5 (4.9%) adolygiad yn ystod y cyfnod hwn cofnododd y Swyddog Adolygu Annibynnol bryderon ynghylch cynnydd y Lleoliad/Cynllun Gofal a Chymorth/Cynllun Parhad.

Roedd natur y pryderon fel a ganlyn: -


- Mewn 1 adolygiad nodwyd bod angen cynllun tymor hir cytunedig ar gyfer y person ifanc.
- Cafodd oedi wrth drefnu Gorchymyn Gwarchodaeth Arbennig ei gydnabod fel oedi ar gyfer 1 person ifanc.
- Ar hyn o bryd mae trafodaethau'n mynd rhagddynt ynglŷn ag anghenion y person ifanc a lle byddai'r anghenion hynny'n cael eu bodloni orau.
- Adolygwyd 1 person ifanc arall ddwywaith yn ystod y cyfnod a chafodd llithro gyda'r Cynllun Gofal ei nodi yn y ddau adolygiad.



13. Faint o Amser Mewn Gofal



14. Natur y Cynlluniau Parhad




15. Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal a gafodd ofal seibiant gan rywun heblaw eu prif ofalwyr

- Mewn 10 (9.9%) adolygiad nodwyd bod y plentyn/person ifanc yn cael gofal seibiant byr i ffwrdd o'i brif ofalwr; nododd pob un o'r adolygiadau o blant sy'n derbyn gofal hyn fod y gofal seibiant yn bodloni anghenion y plant/pobl ifanc.

16. Nifer a chanran y bobl ifanc gymwys sydd â Chynllun Llwybr yn unol â'r gofynion

Targed a bennwyd: 100% Targed a bennwyd 78.6%

- Mewn 11 (78.6%) adolygiad o berson ifanc cofnodwyd bod gan y person ifanc Gynllun Llwybr wedi'i sefydlu a bod Ymgynghorydd Personol wedi'i benodi ar ei gyfer.
- Mewn 3 (21.4%) adolygiad cofnodwyd nad oedd gan y person ifanc Gynllun Llwybr wedi'i sefydlu.
- Nododd 13 o'r adolygiadau uchod fod Ymgynghorydd Personol wedi'i benodi ar gyfer y bobl ifanc, fodd bynnag, nododd 1 adolygiad fod Ymgynghorydd Personol heb ei benodi eto.



17. Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal (o oedran a lefel dealltwriaeth briodol) sy'n deall y rhesymau pam eu bod yn cael eu gofalu amdanynt

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 98.5%

- Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 66 o blant/pobl ifanc oherwydd barnwyd nad oedd 35 o'r plant/pobl ifanc yn ddigon hen nac yn meddu ar ddigon o grebwyll i ddeall pam eu bod yn derbyn gofal.

- Roedd 65 (98.5%) yn y grŵp hwn yn dangos rhyw fath o ddealltwriaeth pam eu bod yn derbyn gofal gan rywun heblaw am eu teuluoedd o'i gymharu â 95.3% yn y chwarter blaenorol.
- Nododd 1 (1.5%) adolygiad fod y gwaith Taith Bywyd angen ei wneud gyda'r plentyn/person ifanc i'w helpu i ddeall y rhesymau pam ei fod yn derbyn gofal.

18. Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal (fel y bo'n briodol o ran eu hoedran a'u crebwyll) a oedd yn deall eu Cynllun Gofal a Chymorth

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 63 o blant/pobl ifanc oherwydd barnwyd nad oedd 38 o'r plant/pobl ifanc yn ddigon hen nac yn meddu ar ddigon o grebwyll, ac felly fe'u diystyriwyd o'r ffigurau.

- Roedd 60 (95.2%) yn y grŵp hwn yn dangos dealltwriaeth o'r hyn a oedd yn eu Cynlluniau Gofal a Chymorth (Rhan 6).
- Nododd 3 (4.8%) adolygiad fod angen rhannu hwn gyda'r plant/pobl ifanc.

19. Mesur Cenedlaethol 33: Nifer a chanran yr achosion o symud plant sy'n derbyn gofal

- Mewn 7 (6.9%) adolygiad cofnodwyd bod y plentyn/person ifanc wedi symud lleoliad yn ystod y chwarter hwn o'i gymharu ag 13.8% yn y chwarter blaenorol.

Y rhesymau dros newid lleoliad oedd:

- Roedd 1 person ifanc a gafodd ei leoli am gyfnod byr gyda theulu estynedig wedi symud i leoliad maethu tymor byr tra ei fod yn aros am asesiadau pellach.
- Cynlluniwyd ar gyfer camu i lawr o leoliad mam a baban i fyw yn y gymuned gyda rhiant ar gyfer 1 plentyn.
- Symudodd 1 person ifanc arall o leoliad gofal maeth i fyw gyda'i riant.
- Ar gyfer teulu gydag 1 plentyn, roedd cynlluniau i symud o ofalwyr maeth i leoliad tymor hir ar gyfer 1 plentyn.
- Roedd lleoliad gofal gan berthnasau ar gyfer 1 person ifanc wedi methu a symudodd i fyw gyda gofalwyr maeth.
- Symudodd person ifanc arall o leoliad maethu tymor byr i leoliad maethu tymor hir.
- Mynegwyd pryderon ynghylch un lleoliad a arweiniodd at y person ifanc yn symud i leoliad preswyl tymor hir.

Roedd 3 plentyn wedi cael ei symud heb ei gynllunio a nodwyd bod y cyfarfod sefydlogrwydd wedi'i gynnal ar gyfer 1 o'r plant hyn o fewn 6 wythnos i symud lleoliad.

20. Nifer a chanran y cynlluniau lleoli (gan gynnwys darpariaeth addysg ac iechyd) yr aseswyd eu bod yn bodloni anghenion plant sy'n derbyn gofal

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 95.0%

- Cofnodwyd bod 96 (95.0%) o gynlluniau lleoli/gofal a chymorth yn bodloni anghenion y plant/pobl ifanc o'i gymharu â 94.8% yn y chwarter blaenorol.
- Cofnododd 5 (5.0%) adolygiad nad oedd y lleoliad/gofal a chymorth yn bodloni anghenion y plentyn/person ifanc. Y rhesymau a gofnodwyd oedd:-
 - Ar gyfer 1 person ifanc a adolygwyd ddwywaith yn ystod y chwarter, nodwyd yn y ddau adolygiad nad oedd llawer o waith yn cael ei wneud gyda'r person ifanc.
 - Roedd 1 person ifanc yn anhapus gyda'r lleoliad ac oherwydd hynny roedd heb ymgysylltu â gwasanaethau.
 - Nododd adolygiad arall ar gyfer 1 person ifanc nad oedd y person ifanc wedi'i gofrestru yn y coleg neu gyda deintydd; yn achos 1 person ifanc arall nodwyd nad oedd darpariaeth addysg a deintydd wedi'i sefydlu a hefyd nid oedd y lleoliad wedi cofnodi meddyginiaeth y bobl ifanc ac asesu risg.

21. Nifer a chanran y pryderon diogelu a nodwyd mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal yn ystod y chwarter hwn

- Mewn 4 (4.0%) adolygiad o blant sy'n derbyn gofal nodwyd pryderon diogelu ar gyfer y person ifanc; cadarnhawyd bod y pryderon yn cael sylw.


22. Nifer y plant sy'n derbyn gofal a enwir ar y Gofrestr Amddiffyn Plant

- Nid oedd unrhyw adolygiadau yn ystod y chwarter yn cadarnhau bod enw'r person ifanc wedi'i gynnwys ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.

23. Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal a gafodd Asesiadau Iechyd yn unol â'r gofynion statudol

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 96.0%

- Roedd 95 (96.0%) o'r plant/pobl ifanc sy'n derbyn gofal wedi cael asesiad iechyd cyfredol erbyn eu hadolygiad o'i gymharu â 95.6% yn y chwarter blaenorol.
- Nid oedd gan 4 (4.0%) o'r plant/pobl ifanc sy'n derbyn gofal asesiad iechyd cyfredol adeg ei adolygiad.
- Cofnodwyd mewn 2 adolygiad bod y person ifanc wedi gwrthod asesiad iechyd/heb ymgysylltu, felly fe'u diystyriwyd o'r hafaliad.



24. Canran y plant a oedd wedi cofrestru gyda deintydd o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl dechrau derbyn gofal

Targed a bennwyd: 100% Targed a bennwyd 66.7%

Wedi cofrestru gyda deintydd

Mae'r data ar gyfer cofrestru plant/pobl ifanc gyda deintydd o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl iddynt ddechrau derbyn gofal yn ymwneud ag 18 plentyn/person ifanc.

- Mewn 12 (66.7%) adolygiad cofnodwyd bod y plentyn/person ifanc wedi cofrestru gyda deintydd o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl dechrau yn y lleoliad.
- Mewn 6 (33.3%) adolygiad nodwyd bod y plentyn/person ifanc heb gofrestru eto gyda deintydd.

Wedi cofrestru gyda deintydd

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud ag 86 o blant/pobl ifanc oherwydd diystyriwyd 15 plentyn/person ifanc a oedd yn cael eu hadolygiad plant sy'n derbyn gofal cyntaf o'r ffigurau uchod er mwyn bodloni gofynion y Mesur Cenedlaethol.

- Roedd 73 (84.9%) o blant a phobl ifanc wedi cofrestru gyda deintydd. Mae hyn yn cymharu â 94.1% yn y chwarter blaenorol.
- Roedd angen i 13 (15.1%) plentyn/person ifanc gofrestru gyda deintydd.

Sylwadau:

25. Mesur Cenedlaethol 30: Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal oedd wedi cael eu gweld gan ddeintydd o fewn 3 mis ar ôl dechrau derbyn gofal

Wedi cael ei weld gan ddeintydd

Mae'r data ar gyfer cael ei weld gan ddeintydd o fewn 3 mis ar ôl dechrau derbyn gofal yn ymwneud ag 12 plentyn.

- Cofnodwyd mewn 8 adolygiad (66.7%) bod y plentyn/person ifanc wedi cael ei weld gan ddeintydd cofrestredig o fewn 3 mis ar ôl dechrau derbyn gofal.
- Cofnodwyd mewn 4 adolygiad (33.3%) nad oedd y plentyn/person ifanc wedi cael ei weld gan ddeintydd cofrestredig o fewn 3 mis ar ôl dechrau derbyn gofal.


Sylwadau: Cafodd 2 o'r bobl ifanc hyn eu lleoli y tu allan i'r sir.

Wedi cael ei weld gan ddeintydd

Targed a bennwyd 90% – Yr hyn a gyflawnwyd 77.6%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 76 o blant/pobl ifanc gan fod 25 o blant/pobl ifanc yn iau na 2 oed a/neu'n cael eu hadolygiad o blant sy'n derbyn gofal cyntaf, ac felly fe'u diystyriwyd o'r ffigurau uchod er mwyn bodloni gofynion y Mesur Cenedlaethol.

- Cofnodwyd bod 59 (77.6%) o blant a phobl ifanc wedi gweld deintydd yn y 12 mis blaenorol o'i gymharu â 74.5% yn y chwarter blaenorol.
- Cofnodwyd nad oedd 17 (22.4%) o blant a phobl ifanc wedi gweld deintydd.



26. Mesur Cenedlaethol 31: Canran y plant sy'n derbyn gofal a oedd wedi cofrestru gyda Meddyg Teulu o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl dechrau yn eu lleoliad

- Mewn 20 (90.9%) adolygiad cofnodwyd bod y plentyn wedi cofrestru gyda darparwr gwasanaethau meddygol cyffredinol o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl dechrau yn y lleoliad.
- Adroddwyd mewn 2 (9.1%) adolygiad bod y cam gweithredu hwn heb ei gymryd adeg yr adolygiad.

27. Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal oedd wedi cofrestru gyda meddyg teulu

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 100.0%

- Roedd 101 (100.0%) o blant a phobl ifanc wedi cofrestru gyda meddyg teulu, sy'n gyson â'r chwarter blaenorol.
- Roedd 89 (89.9%) o blant wedi cael eu holl frechiadau.
- Roedd 10 (10.1%) o blant yn hwyr yn cael eu brechiadau. Mae 6 o'r bobl ifanc hyn yn blant ar eu pennau eu hunain sy'n ceisio lloches, a chynigir rhaglen garlam iddynt gan fod ganddynt hanes brechu blaenorol anghyflawn. Mae angen mwy o eglurder ar gyfer ambell i berson ifanc oedd heb gael brechiadau.

Cafodd 2 adolygiad eu diystyru o'r ffigurau oherwydd roedd y rhiant/person ifanc yn gwrthod cael brechiadau.

28. Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal yr aseswyd eu bod angen cymorth gan Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) a gafodd eu hatgyfeirio ac a dderbyniodd asesiad/gwasanaeth

Targed: 50%

Perfformiad Gwirioneddol


- Mewn 4 (4.0%) adolygiad o blant sy'n derbyn gofal cofnodwyd bod y plentyn/person ifanc wedi cael ei atgyfeirio i CAMHS, a chadarnhawyd ym mhob un o'r 4 adolygiad bod yr atgyfeiriad wedi cael ei dderbyn ar gyfer y plentyn/person ifanc.
- Mewn 87 (86.1%) adolygiad o blant sy'n derbyn gofal, cofnodwyd bod iechyd meddwl/emosiynol y plant/pobl ifanc wedi cael ei ystyried yn ystod yr asesiad iechyd a/neu wrth drafod yn y cyfarfod.
- Mewn 14 (13.9%) adolygiad cofnodwyd nad oedd y problemau iechyd meddwl wedi cael eu hystyried.

- Mewn 13 (12.9%) adolygiad o blant sy'n derbyn gofal nodwyd bod problem iechyd meddwl gan y person ifanc.
- Cafodd problemau ymddygiad eu nodi ar gyfer 17 o blant/pobl ifanc yn ystod y cyfnod hwn.

29. Natur y ddarpariaeth addysg

Yn ystod y chwarter hwn roedd y plant a'r bobl ifanc a adolygwyd yn y ddarpariaeth addysg ganlynol:

Darpariaeth Addysg	
Plant cyn-ysgol	21
Disgyblion ysgol gynradd	38
Disgyblion ysgol uwchradd	26
Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD)	
Prosiectau eraill – Lleoliad Gwaith Arbenigol	1
Coleg	1
Colli addysg	3
Heb fod mewn addysg, gwaith na hyfforddiant (NEET)	6
Addysg heblaw yn yr ysgol	2
Preswyl	
Wedi gadael yr ysgol	
Tiwtora	2
Addysg Ddewisol yn y Cartref	
Cyflogedig	1
Cyfanswm	101



30. Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal oedran ysgol oedd â Chynllun Addysg Personol o fewn 20 diwrnod ysgol ar ôl dechrau derbyn gofal neu ar ôl dechrau mewn ysgol newydd

Targed a bennwyd 70% – Yr hyn a gyflawnwyd 93.7%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 63 o blant/pobl ifanc oedran statudol i ddechrau'r ysgol ac felly'n gymwys i gael Cynllun Addysg Personol.

- Roedd gan 59 (93.7%) o blant a phobl ifanc oedran statudol i ddechrau'r ysgol Gynllun Addysg Personol cyfredol.
 - Mewn 9 (75.0%) adolygiad cofnodwyd bod y Cynllun Addysg Personol wedi'i gwblhau o fewn 20 diwrnod ysgol o fod yn blentyn sy'n derbyn gofal, neu 20 diwrnod ysgol ar ôl newid ysgol, yn unol â'r gofynion.
 - Mewn 50 (98.0%) adolygiad cofnodwyd bod gan y person ifanc Gynllun Addysg Personol cyfredol.
 - Mewn 4 (6.3%) adolygiad cofnodwyd nad oedd y Cynllun Addysg Personol wedi cael ei gwblhau o fewn y terfynau amser; nododd un adolygiad y Cynllun Addysg Personol wedi cael ei gwblhau wedi hynny. Nododd y 3 adolygiad arall (2 blentyn oherwydd cafodd 1 plentyn ei adolygu ddwywaith) nad oedd y Cynllun Addysg Personol wedi ei gwblhau eto.

- Roedd gan 11 (17.5%) o blant a phobl ifanc a oedd yn mynd i'r ysgol/coleg anghenion dysgu ychwanegol uchel cydnabyddedig.

- Mewn 25 (39.7%) adolygiad daethpwyd i'r casgliad bod y plant/pobl ifanc a oedd yn mynd i'r ysgol/coleg yn tangyflawni o ran eu haddysg. Ym mhob un o'r 25 (100.0%) adolygiad cofnodwyd bod y bobl ifanc yn cael cymorth.

- Mewn 9 (69.2%) adolygiad nodwyd bod y ddarpariaeth addysg wedi'i sefydlu ar ddechrau'r lleoliad.
- Mewn 4 (30.8%) adolygiad cofnodwyd nad oedd y ddarpariaeth addysg wedi'i sefydlu ar ddechrau'r lleoliad.

- Mewn 4 (6.3%) adolygiad cofnodwyd y bu cyfnod pan oedd y plentyn/person ifanc heb fod mewn addysg am gyfnod tra ei fod aros am le mewn ysgol

31. Mesur Cenedlaethol 32: Canran y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi symud i ysgol arall, ac eithrio trefniadau pontio

Targed a bennwyd 0% – Yr hyn a gyflawnwyd 0.0%

- Mewn 0 (0.0%) adolygiad cofnodwyd bod y plentyn/person ifanc wedi symud i ysgol arall ac nad oedd yn symud yn dilyn pontio, o'i gymharu â 9.5% yn y chwarter blaenorol.

32. Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal a gafodd eu gwahardd o'r ysgol

Targed a bennwyd 12% gwaharddiad dros dro – Yr hyn a gyflawnwyd 3.2%

Targed a bennwyd 1% gwaharddiad parhaol – Yr hyn a gyflawnwyd 0.0%

- Mewn 2 (3.2%) adolygiad adroddwyd bod y person ifanc wedi'i wahardd o'r ysgol dros dro yn ystod y cyfnod adolygu. Mae hyn yn cymharu â 0.0% yn y chwarter blaenorol.
- Ni adroddwyd mewn unrhyw adolygiad (0.0%) bod y person ifanc wedi'i wahardd yn barhaol o'r ysgol, sy'n gyson â'r chwarter blaenorol.

Y gwaharddiadau yn ystod y chwarter hwn oedd: -
10 sesiwn, cyfanswm o 5 diwrnod

ADRAN TRI

YMGYNGHORI A CHYFRANOGI

1 **Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal a oedd yn ddigon hen ac yn meddu ar ddigon o grebwyll fel bod Gweithiwr Cymdeithasol wedi gallu ymgynghori â hwy neu roeddent yn bresennol yn eu cyfarfod adolygu**

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 100.0%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud ag 72 adolygiad oherwydd cofnodwyd mewn 29 adolygiad nad oedd y plant/pobl ifanc yn ddigon hen nac yn meddu ar ddigon o grebwyll i fod yn rhan o'r broses ymgynghori, er bod 2 blentyn/person ifanc wedi bod yn bresennol yn eu hadolygiad.

- Cofnodwyd mewn 72 (100.0%) adolygiad fod ymgynghori wedi digwydd.

Dadansoddiad o'r ymgynghori

Roedd 30 plentyn/person ifanc yn bresennol yn eu cyfarfod adolygu ar Teams.

Roedd 42 plentyn/person ifanc wedi cwblhau papurau ymgynghori, wedi siarad â'r Swyddog Adolygu Annibynnol a/neu roedd gweithwyr proffesiynol, rhieni, gofalwyr neu eiriolwyr wedi'u cynrychioli yno.

- Cafodd y Swyddog Adolygu Annibynnol gysylltiad uniongyrchol ag 18 plentyn/person ifanc yn ystod y cyfnod adolygu y tu allan i'r cyfarfod adolygu.

2 **Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y plant a oedd yn gwybod am eu hawl i gael Gwasanaeth Eirioli/Cynllun Ymwelydd Annibynnol**

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 90.9%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 66 adolygiad oherwydd cofnodwyd mewn 35 adolygiad nad oedd y plant/pobl ifanc a adolygwyd yn ddigon hen nac yn meddu ar ddigon o grebwyll i gael gwybod am eu hawl i gael Eiriolwr/Cynllun Ymwelydd Annibynnol, ac felly fe'u diystyriwyd o'r ffigurau.

- Cafodd 60 (90.9%) plentyn/person ifanc wybod am eu hawl i gael Eiriolwr/Cynllun Ymwelydd Annibynnol.

3 **Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y plant a gafodd wybod am y drefn gwyno**

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 95.1%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 61 adolygiad oherwydd cofnodwyd mewn 40 adolygiad nad oedd y plentyn/person ifanc yn ddigon hen nac yn meddu ar ddigon o grebwyll, felly fe'u diystyriwyd o'r ffigurau.

- Roedd 58 (95.1%) o blant/pobl ifanc yn gwybod am y drefn gwyno o'i gymharu â 97.3% yn y chwarter blaenorol.
- Mewn 3 (4.9%) adolygiad cofnodwyd bod y Swyddog Adolygu Annibynnol yn ansicr a oedd y plentyn/person ifanc yn gwybod am y broses gwyno neu beidio.

4 **Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y rhieni y bu i'r Gweithiwr Cymdeithasol ymgynghori â hwy cyn yr adolygiad neu a fu'n bresennol yn y cyfarfod adolygu**

Targed a bennwyd 80% – Yr hyn a gyflawnwyd 100.0%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud ag 89 adolygiad oherwydd cofnodwyd mewn 12 adolygiad nad oedd y rhieni yn rhan o'r broses adolygu statudol, ac felly fe'u diystyriwyd o'r ffigurau.

- Cwblhaodd 89 (100.0%) o rieni bapurau ymgynghori neu roeddent wedi cwrdd neu siarad â'r Swyddog Adolygu Annibynnol cyn a/neu ar ôl y cyfarfod adolygu, a/neu roeddent wedi bod yn bresennol yn y cyfarfod adolygu eu hunain, a/neu roedd gweithwyr proffesiynol wedi'u cynrychioli yno.

Dadansoddiad o'r ymgynghori

Cafodd papurau ymgynghori eu hanfon ar gyfer pob un o'r 89 adolygiad.

Mewn 54 adolygiad cadarnhawyd bod y rhieni'n bresennol neu eu bod wedi siarad â'r Swyddog Adolygu Annibynnol dros y ffôn cyn a/neu ar ôl yr adolygiad.

5 **Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y gofalwyr maeth y bu i'r Gweithiwr Cymdeithasol ymgynghori â hwy neu a fu'n bresennol yng nghyfarfod adolygu'r plentyn**

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 100.0%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 90 adolygiad oherwydd cofnodwyd mewn 11 adolygiad bod y plentyn wedi'i leoli â rhiant neu'n byw'n annibynnol, felly diystyriwyd yr adolygiadau hyn o'r ffigurau.

- Cwblhaodd 90 (100.0%) o ofalwyr maeth bapurau ymgynghori a/neu buont yn bresennol yn yr adolygiadau yn ystod y cyfnod hwn.

6 Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y cynrychiolwyr iechedd a fu'n bresennol mewn adolygiad neu a anfonodd adroddiad

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 91.1%

- Mewn 92 (91.1%) adolygiad cadarnhawyd bod gwybodaeth am iechedd ar gael ar gyfer y cyfarfod.
- Mewn 9 (8.9%) adolygiad adroddwyd nad oedd gwybodaeth am iechedd ar gael ar gyfer y cyfarfod.

Sylwadau: Pan fydd pobl ifanc yn byw y tu allan i'r sir, mae'n fyw anodd cael y gweithwyr iechedd proffesiynol i fynychu

7. Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y cynrychiolwyr ysgol a fu'n bresennol mewn adolygiad neu a anfonodd adroddiad

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 94.2%

- Mewn 65 (94.2%) adolygiad o blant sy'n derbyn gofal roedd rhywun o'r ysgol yn bresennol neu wedi darparu adroddiad ysgrifenedig o'i gymharu â 93.7% yn y chwarter blaenorol.

Sylwadau: Pan fydd pobl ifanc yn byw y tu allan i'r sir, mae'n fyw anodd cael y gweithwyr iechedd proffesiynol i fynychu

8. Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y dogfennau adolygiad o blant sy'n derbyn gofal a gwblhaodd y Gweithiwr Cymdeithasol cyn yr adolygiad

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 54.5%

- Mewn 55 (54.5%) adolygiad cadarnhawyd bod y gweithiwr cymdeithasol wedi cwblhau'r ddogfen adolygu cyn y cyfarfod adolygu o'i gymharu â 69.8% yn y chwarter blaenorol.
- Mewn 46 (45.5%) adolygiad o blant sy'n derbyn gofal cadarnhawyd nad oedd y ddogfen adolygu wedi'i chwblhau gan y gweithiwr cymdeithasol cyn yr adolygiad.

Sylwadau:

ADRAN PEDWAR: PROTOCOL DATRYS PROBLEMAU

Ni weithredodd y Swyddog Adolygu Annibynnol y Protocol Datrys Problemau ar gyfer unrhyw blentyn yn ystod y cyfnod hwn.

Cynhaliwyd 7 adolygiad canol cyfnod yn ystod y cyfnod hwn a lle'r oedd angen roedd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn cynnal adolygiadau yn gynharach pan oedd pryderon.

ADRAN PUMP

GWERTHUSO

Nid oedd y wybodaeth hon ar gael ar gyfer y chwarter hwn.

ADRAN CHWECH

CYNLLUNIAU LLWYBR

Ar gyfer pobl ifanc dros 16 oed nad ydynt yn blant sy'n derbyn gofal/pobl ifanc dros 18 oed sydd wedi gadael gofal

Cynhaliwyd 30 Adolygiad o Gynlluniau Llwybr yn ystod y chwarter hwn.

1 Dangosydd Perfformiad: Canran yr Adolygiadau o Gynlluniau Llwybr a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser

- Cynhaliwyd 27 (90.0%) Adolygiad o Gynlluniau Llwybrau o fewn y terfynau amser o'i gymharu â 70.6% yn y chwarter blaenorol.
- Cynhaliwyd 3 (10.0%) Adolygiad o Gynlluniau Llwybr y tu allan i'r terfynau amser. Roedd y rhesymau a gofnodwyd fel a ganlyn: -
 - Aildrefnwyd 1 adolygiad oherwydd argaeledd y person ifanc.
 - Gohiriwyd 2 adolygiad pellach oherwydd argaeledd y Swyddog Adolygu Annibynnol/Ymgynghorydd Personol.

2 Dangosydd Perfformiad: Canran y bobl ifanc ag Ymgynghorydd Personol/Gweithiwr Cymdeithasol dynodedig

- Ym mhob un o'r 30 (100%) adolygiad nodwyd bod gan yr holl bobl ifanc Ymgynghorydd Personol a/neu Weithiwr Cymdeithasol dynodedig.

3 Dangosydd Perfformiad: Canran y Cofnodion o'r Adolygiad o Gynlluniau Llwybr a oedd wedi'u cwblhau erbyn y cyfarfod

- Roedd y Cofnod Adolygu wedi'i gwblhau ar gyfer 21 (70.0%) Adolygiad o Gynlluniau Llwybr o'i gymharu â 76.5% yn y chwarter blaenorol.
- Mewn 9 (30.0%) adolygiad adroddwyd nad oedd y Cofnod o'r Adolygiad wedi'i gwblhau adeg yr adolygiad.

4 Dangosydd Perfformiad: Canran y bobl ifanc yr ymgynghorwyd â hwy ar gyfer y cyfarfod adolygu

- Cadarnhawyd mewn 27 (90.0%) adolygiad y bu'r bobl ifanc yn bresennol yn y cyfarfod adolygu a/neu fod rhywun wedi'u cynrychioli yno.
- Nodwyd mewn 3 (10.0%) adolygiad fod barn y plentyn/person ifanc heb gael ei chynrychioli yn yr adolygiad a/neu heb fod yn bresennol yn yr adolygiad.

- 5 **Dangosydd Perfformiad: Canran y bobl ifanc a oedd yn bresennol yn eu cyfarfod adolygu**
- Mewn 17 (56.7%) adolygiad cofnodwyd y bu'r person ifanc yn bresennol yn y cyfarfod adolygu.
 - Mewn 13 (43.3%) adolygiad cofnodwyd na fu'r person ifanc yn bresennol yn yr adolygiad.
- 6 **Dangosydd Perfformiad: Canran y Cynlluniau Llwybr oedd yn bodloni anghenion y person ifanc**
- Ym mhob un o'r 30 (100.0%) adolygiad cadarnhawyd bod y Cynllun Llwybr yn bodloni anghenion y person ifanc.
- 7 **Dangosydd Perfformiad: Canran y Cynlluniau Llwybr a ddiweddarwyd cyn gadael gofal/pen-blwydd yn 18 oed**
- Nid oedd unrhyw un o'r bobl ifanc a adolygwyd wedi gadael gofal yn ystod eu cyfnod adolygu.
- 8 **Gwerthuso – Nid oedd y wybodaeth hon ar gael ar gyfer y chwarter hwn.**

ADRAN SAITH

GOFAL SEBIANT BYR RHEOLAIDD

Ni chynhaliwyd adolygiad o ofal seibiant byr rheolaidd yn ystod y chwarter hwn.

Tudalen 242

28

ADRAN WYTH

GOFAL SEIBIANT BYR

Ni chynhaliwyd unrhyw adolygiadau o ofal seibiant byr rheolaidd yn ystod y chwarter hwn.

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

ADRODDIAD I'R: Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach

DYDDIAD: 18 Medi 2023

LLEOLIAD: Hybrid

TEITL: Blaenraglen Waith Ddrafft 2023/24

PWRPAS YR ADRODDIAD: Adolygu rhaglen waith bresennol y Pwyllgor

Y RHESWM PAM FOD

CRAFFU WEDI GOFYN AM Mae blaenraglen waith y Pwyllgor yn cael ei harolygu a'i
Y WYBODAETH HON: diweddarau ymhob cyfarfod

CEFNDIR:

Mae'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'n goruchwyllo gwaith y Cyngor er mwyn sicrhau y darperir gwasanaethau yn y ffordd orau posib a hynny er budd y gymuned leol. Swyddogaeth Trosolwg a Chraffu yw ystyried y gwasanaethau a'r materion sy'n effeithio ar bobl yng Ngheredigion. Mae'r broses yn rhoi cyfle i Gynghorwyr archwilio amryw swyddogaethau'r Cyngor, holi cwestiynau am sut y gwnaethpwyd penderfyniadau, ystyried os ellir gwneud gwelliannau i wasanaethau a gwneud argymhellion yn unol â hynny. Mae craffu'n hanfodol wrth hyrwyddo atebolrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth i'r Cyngor fynd ati i wneud penderfyniadau a'r ffordd mae'n darparu gwasanaethau. Prif swyddogaethau'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yw'r canlynol:

- Galw'r Cabinet a'r Swyddogion i gyfrif ynghylch eu penderfyniadau

- Bod yn ‘gyfaill beirniadol’, drwy holi cwestiynau am sut y gwnaethpwyd penderfyniadau, fel bod y bobl sy’n penderfynu’n destun ‘rhwystrau a gwrthbwysau’, gan wneud y drefn o benderfynu yn fwy dilys
- Cynnal adolygiadau o wasanaethau a pholisïau’r Cyngor
- Cynnal adolygiadau ar gyfer datblygu gwasanaethau a pholisïau’r Cyngor
- Ystyried unrhyw fater arall sy’n effeithio ar y sir
- Sicrhau bod Ceredigion yn perfformio hyd eithaf ei allu ac yn darparu gwasanaethau o’r radd flaenaf i’w ddinasyddion
- Aseu effaith polisïau’r Cyngor ar gymunedau lleol, ac argymhell ffyrdd o wella
- Gweithio gyda’r cyhoedd i ddatblygu polisïau a gwasanaethau sy’n canolbwyntio ar y dinasyddion.

Gall trefn effeithiol o Drosolwg a Chraffu arwain at y canlynol:

- Penderfyniadau gwell
- Gwelliant o ran Darparu Gwasanaethau a Pherfformiad
- Trefn gadarn ar gyfer Datblygu Polisïau, yn seiliedig ar ymgynghori â’r cyhoedd a chyfraniad arbenigwyr annibynnol
- Gwelliant o ran Democratiaeth, Cynhwysiant, Arweinyddiaeth Gymunedol ac Ymgysylltu
- Ychwanegu haen eglur o dryloywder ac atebolrwydd i brosesau gwleidyddol y Cyngor
- Rhoi cyfle i bob Aelod feithrin sgiliau a gwybodaeth arbenigol a allai fod o fudd yn y dyfodol wrth lunio polisïau a monitro perfformiad
- Creu diwylliant o hunan-herio ar sail tystiolaeth.

Y SEFYLLFA BRESENNOL:

Cwestiynau i'w hystyried wrth ddewis pynciau

- A oes amcan clir dros archwilio'r pwnc hwn?
- Ydych chi'n debygol o lwyddo i gael y canlyniad a ddymunir?
- Beth yw'r manteision tebygol i'r Cyngor a dinasyddion Ceredigion?
- Ydy'r mater yn un sylweddol?
- Oes yna gysylltiadau â'r Strategaeth Gorfforaethol?
- A yw'n fater allweddol i'r cyhoedd?
- Ydy'r materion wedi cael eu codi gan archwiliad allanol?
- A yw'n wasanaeth sy'n perfformio'n wael?

Dewis pynciau

Dylai Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ystyried gwybodaeth o'r Strategaeth Gorfforaethol, Cynllun Strategol, Cynlluniau Gwasanaeth, y Gofrestr Risg Gorfforaethol, arbedion yn y gyllideb – cynigion ac effaith, cyfarfodydd chwarterol y panel Rheoli Perfformiad Corfforaethol a mewnbwn adrannol wrth ddewis pynciau a chynllunio eu Blaenraglenni Gwaith, ynghyd ag unrhyw waith sy'n parhau.

ARGYMHELLIAD (ARGYMHELLION):

Adolygu a diweddarau'r Blaenraglen Waith bresennol.

Enw Cyswllt:	Dwynwen Jones
Dynodiad:	Swyddog Trosolwg a Chraffu
Dyddiad yr Adroddiad:	5 Medi 2023
Acronymau:	BW- Blaenraglen Waith FWP- Forward Work Programme

Pwyllgor	Eitem (disgrifiad/teitl)	Siaradwyr Gwadd	Pwrpas e.e. monitro, polisi, argymhellion
Cymunedau Iachach			
24 Mai 2023	Adroddiad CSSIW a'r Cynllun Gweithredu	Audrey Somerton-Edwards	
	Diweddariad ar Gofal Cartref	Donna Pritchard	Ar gais y Pwyllgor
	Strategaeth Mamolaeth a Blynyddoedd Cynnar Gorllewin Cymru	Iwan Davies/Elen James	Cyn-Cabinet
	Trefniadau mabwysiadu ar y cyd	Audrey Somerton-Edwards	

<p>3 Gorffennaf 2023</p>	<p>Recriwtio/Cadw staff Gydol Oes a Llesiant</p> <p>Taliadau Uniongyrchol</p> <p>Adroddiad ar y Gofrestr Tai</p>	<p>James Starbuck</p> <p>Donna Pritchard</p> <p>Llyr Hughes/Cerys Purches-Phillips</p>	<p>Ar gais y Pwyllgor</p> <p>Ar gais y Pwyllgor</p> <p>Ar gais y Pwyllgor</p>
<p>18 Medi 2023</p>	<p>Strategaeth Tai</p> <p>Cynllun Gweithredu Dementia</p> <p>IRO</p>	<p>Llyr Hughes</p> <p>Donna Prtichard</p> <p>Elizabeth Upcott</p>	<p>Cyn-Cabinet</p> <p>Cyn-Cabinet</p> <p>Cyn-Cabinet</p>

22 Tachwedd 2023	<p>Adroddiad ynghylch arolygiadau safonau bwyd ac arolygiadau ffermydd</p> <p>Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW) adroddiad arolygiad – monitor 6 mis</p> <p>Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol 2022/23</p> <p>Gwasanaethau Seibiant a Gwasanaethau Dydd</p>	<p>Carwen Evans</p> <p>James Starbuck</p> <p>Audrey Somerton-Edwards</p> <p>Donna Pritchard</p>	Cais gan y Pwyllgor
22 Chwefror 2024	Paratoi'r Gyllideb		
11 Mawrth 2024	Gwahodd: Barcud WWHA Caredig		
Eitemau agenda ar	Diweddariad ar y Gwasanaeth Cymorth ac Atal	Gethin Jones	

gyfer y dyfodol	Adroddiad Ebrill/Mai 2024 ar yr 15 pwynt y 'Pledge' – Gofal Cartref	Donna Pritchard/Heather West	
-----------------	---	------------------------------	--

Maer' dudalen yn wag yn fwriadol

Cofnodion Cyfarfod o Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell ar Ddydd Llun, 3 Gorffennaf 2023

Presennol: Y Cynghorydd Caryl Roberts (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Ceris Jones (Is-gadeirydd), Amanda Edwards, Eryl Evans, Keith Evans, Wyn Evans, Gwyn James, Ann Bowen Morgan, Mark Strong a Carl Worrall.

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorwyr Euros Davies, Rhodri Evans a Gareth Lloyd.

Aelodau Cabinet yn bresennol: Y Cynghorwyr Matthew Vaux ac Alun Williams.

Swyddogion yn bresennol: James Starbuck, Cyfarwyddwr Corfforaethol; Audrey Somerton-Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol- Porth Cynnal; Geraint Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol- Pobl a Threfniadaeth; Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol- Cyllid a Chaffael; Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol- Gwasanaethau Democrataidd; Heather West, Rheolwr Corfforaethol- Gwasanaethau Tymor Byr wedi'u Targedu; Llyr Hughes, Rheolwr Corfforaethol- Gwasanaethau Tai; Cerys Purches-Phillips, Uwch Swyddog Tai; Dwynwen Jones, Swyddog Trosolwg a Chraffu a Neris Morgans, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

(10.00am- 12.26pm)

1 Croeso ac Ymddiheuriadau

- i. Ymddiheurodd y Cynghorydd Carl Worrall y byddai'n gadael y cyfarfod yn gynnar.
- ii. Ymddiheurodd y Cynghorydd John Roberts am nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod oherwydd ymrwymadau eraill y Cyngor.
- iii. Ymddiheurodd y Cynghorwyr Elaine Evans a Sian Maehrlein am nad oeddent yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod.
- iv. Ymddiheurodd Donna Pritchard, Swyddog Arweiniol Corfforaethol- Porth Gofal a Greg Jones, Swyddog Arweiniol Corfforaethol dros dro- Porth Cymorth Cynnar am nad oeddent yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod.

2 Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

Datganodd Audrey Somerton-Edwards fuddiant personol mewn perthynas ag eitem 3, yn unol â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Gweithwyr Llywodraeth Leol.

3 Heriau recriwtio yn y Gwasanaethau Llesiant Gydol Oes

Cyflwynodd y Cynghorydd Alun Williams (Aelod y Cabinet dros Gydol Oes a Llesiant) ddiweddariad i'r Pwyllgor ar recriwtio a chadw staff Gofal Cymdeithasol. Roedd dyletswydd gyfreithiol ar y Cyngor i ddarparu

gwasanaethau statudol diogel i'r rheiny â'r angen mwyaf yng nghymunedau Ceredigion. Er mai Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor oedd yn ysgwyddo cyfrifoldeb dros hyn yn y pen draw, roedd y cyfrifoldeb ar y sefydliad i gynorthwyo'r Cyfarwyddwr Statudol i sicrhau bod y cyfrifoldebau hyn yn cael eu cyflawni'n effeithiol ac mewn modd oedd yn arwain at wasanaeth diogel.

Ar y gwaethaf, byddai'r perygl o beidio â chael gwasanaeth diogel yn peri risg i fywyd defnyddwyr y gwasanaeth, a byddai'n peri risg ariannol sylweddol ac yn dreth ar gapasiti staff pe bai'r Cyngor yn destun mesurau arbennig. Er bod staff asiantaeth yn cael eu defnyddio yn ein strwythurau gofal cymdeithasol, pan fo recriwtio'n anodd, roedd cost gwneud hynny'n gyfystyr â gwerth am arian o ystyried y rhan hollbwysig roeddent yn ei chwarae i gynnal gwasanaeth diogel. Roedd staff asiantaeth yn cael eu dewis yn ofalus a'u rheoli'n dda i sicrhau bod anghenion y Cyngor ac anghenion defnyddwyr gwasanaethau'r Cyngor yn cael eu bodloni. Roedd yr her recriwtio ym maes gofal cymdeithasol yn un genedlaethol ac yn un oedd yn debygol o barhau oni bai fod Llywodraeth Cymru'n canolbwyntio'n fanwl ar y materion hyn.

Bu i Arolygiaeth Gofal Cymru arolygu gwasanaethau'r awdurdod lleol i blant ac i oedolion ym mis Mawrth 2023. Ar ôl arolygiad trylwyr, bu i'r arolygwyr ddarparu adroddiad eithriadol o gadarnhaol a oedd yn darparu llawer o enghreifftiau o'r gwaith da helaeth oedd yn digwydd bob dydd ac yn cyfeirio at yr arweinyddiaeth gref a geir ar lefel uwch. Bu iddynt hefyd gydnabod y meysydd i'w gwella a gyflwynwyd gan yr awdurdod lleol iddynt, a bu iddynt gadarnhau nad oedd unrhyw feysydd lle nad oedd cydymffurfiaeth.

Recriwtio a chadw gweithlu o'r maint priodol oedd un o'r heriau mwyaf sylweddol roedd llywodraeth leol, a'r sector cyhoeddus yn gyffredinol, yn ei hwynebu, gyda chyfraddau'r swyddi gwag yn cynyddu ym mhob maes. Yn ogystal ag egluro'r heriau mewn manylder, roedd yr adroddiad yn cofnodi'r ffordd roedd y Cyngor yn defnyddio dulliau arloesol a chreadigol i geisio ymateb i'r heriau hynny. Roedd y gallu i ddenu ac i gadw talent yn hollbwysig i gynnal gweithlu medrus oedd yn gallu darparu gwasanaethau o ansawdd i gymunedau'r awdurdod lleol. Roedd y Cyngor yn cyflogi gweithlu o oddeutu 3,700 o weithwyr mewn gweithlu cyfwerth ag amser llawn o oddeutu 2,600 o weithwyr, a hwnnw'n weithlu benywaidd i raddau helaeth gyda thua 66% yn fenywod.

Roedd yr awdurdod lleol wedi wynebu her gynyddol o ran recriwtio a chadw staff yn ei gwasanaethau gofal cymdeithasol Llesiant Gydol Oes, yn enwedig dros y deunaw mis diwethaf, ar ôl cyfnod COVID. Roedd y gwasanaethau hyn yn cyflogi gweithlu o oddeutu 700 o weithwyr mewn gweithlu cyfwerth ag amser llawn o 500, ac roedd canran uwch na'r cyfartaledd corfforaethol o'r gweithlu yn fenywod, sef 74%. O blith y swyddi hyn, roedd 240 yn cefnogi gwasanaethau statudol ac roedd 45 (19%) o swyddi gwag yn y gwasanaethau hyn ar hyn o bryd, gyda 21 ohonynt yn cael eu llenwi gan staff asiantaeth. O blith y 460 o swyddi oedd yn weddill, ceir 88 (19%) o swyddi gwag, ond dim ond naw o'r swyddi hyn oedd yn cael eu llenwi gan staff asiantaeth, a hynny yn y cartrefi preswyl a'r Tîm Galluogi.

Roedd staff asiantaeth oedd yn llenwi swyddi yn y gwasanaethau statudol yn cynnwys yr wyth aelod o'r tîm a reolwyd drwy drefniant ag Innovate Services. Fe'u penodwyd yn sgil ymarfer caffael, a dyfarnwyd y contract am gyfnod cychwynol o chwe mis, gyda'r opsiwn i estyn y contract am hyd at chwe mis mewn blociau tri mis. Er nad oedd y tîm wedi'i gynnwys o fewn cwmpas ariannol yr adroddiad, roedd gwerth ychwanegol a ddarparwyd ganddynt i'r sefydliad, a'i rôl yn helpu i gynnal gwasanaeth diogel yn amlwg.

Rhoddwyd trosolwg o'r canlynol, fel y nodwyd yn yr adroddiad:

- Ystyriaethau ariannol
- Problemau recriwtio a chadw staff ym maes gofal cymdeithasol
- Cyflogau llywodraeth leol
- Trosolwg ar y darlun rhanbarthol
- Y sefyllfa ar hyn o bryd yng Ngheredigion
- Mentrau recriwtio a chadw
- Defnyddio asiantaethau recriwtio i recriwtio i swyddi parhaol
- Allgymorth
- Ymgyrchoedd recriwtio cyfredol
- Casgliad

Roedd yr awdurdod lleol yn gweithio ar y cyd ag awdurdodau lleol eraill yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Tynnwyd sylw at y ffaith fod cyflogau'n amrywio yn yr awdurdodau lleol a'u bod nid yn unig yn cystadlu am staff ond am staff asiantaeth hefyd. Roedd ymdrechion i gyfyngu ar ffioedd staff asiantaeth, fodd bynnag, gallai hyn arwain at ddiffyg staff asiantaeth yng Nghymru. Roedd y sector Gofal Cymdeithasol o dan bwysau, yn debyg i'r Gwasanaeth Iechyd, a byddai gwelliant ym maes Gofal Cymdeithasol yn cael dylanwad ar y Gwasanaeth Iechyd.

Rhoddodd Audrey Somerton-Edwards gyflwyniad yn dadansoddi'r tueddiadau canlynol fel yr oeddent ar 27.10.2022 a 18.05.2023:

- Achosion ar agor – Statws Atgyfeirio
- Achosion ar agor yn ôl Statws RAG Amber a Choch
- Nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal a % yr ymwelwyd â nhw yn y 12 wythnos diwethaf
- Nifer yr adolygiadau ymarfer plant a % yr ymwelwyd â nhw yn y 10 diwrnod diwethaf

Cafodd yr aelodau gyfle i ofyn cwestiynau a gafodd eu hateb gan y Swyddogion yn bresennol a'r Cynghorydd Alun Williams. Dyma'r prif bwyntiau a godwyd:

- O bwyso a mesur yr opsiynau, datblygu rhaglen gradd Meistr mewn Gwaith Cymdeithasol oedd y ffordd fwyaf priodol yn hytrach na chwrs israddedig, oherwydd dyna lle'r oedd pawb yn teimlo y gellid recriwtio'n effeithiol. Dechrau arni oedd y gwaith gan Brifysgol Aberystwyth a'r awdurdod lleol, gyda goruchwyliaeth oddi wrth Ofal Cymdeithasol Cymru i ddatblygu'r cwrs, ond y nod oedd efelychu llwyddiant y cwrs nyrso a oedd ar gael ym Mhrifysgol Aberystwyth.
- Gwnaeth yr awdurdod lleol drefnu lleoliadau ar gyfer hyfforddeion sy'n astudio'r radd tair blynedd Gwaith Cymdeithasol drwy'r Brifysgol

Agored. Roedd yn ofynnol i hyfforddeion weithio i'r awdurdod lleol am o leiaf dwy flynedd ar ôl dod yn gymwys.

- Eglurwyd nad oedd y gwasanaeth yn anniogel ar unrhyw adeg yn ystod yr heriau diweddar. Cyn gynted ag y nodwyd problemau, rhoddwyd argymhelliad cryf gan Gyfarwyddwr Statudol blaenorol y Gwasanaethau Cymdeithasol i sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i fod yn ddiogel. Heb gefnogaeth y Tîm Arloesi, byddai'r llwyth achos wedi mynd y tu hwnt i reolaeth i staff a oedd wedi bod yn deyrngar ac wedi ymroi i'r awdurdod.
- Ar hyn o bryd, nid oedd tystiolaeth i awgrymu bod y gweithio hybrid a oedd wedi'i dreialu dros y deuddeg mis diwethaf wedi cael effaith ar lesiant staff. Roedd aelodau staff Brysbennu/*Triage* yn gweithio yn y swyddfa bob dydd, ac roedd staff Gofal Cymdeithasol wedi defnyddio'r cyfleoedd i weithio mewn modd hybrid. Cydnabuwyd bod amgylchedd cefnogol, goruchwyliaeth a mynediad at wasanaethau llesiant yn bwysig i iechyd a lles y staff.
- Roedd heriau wrth recriwtio staff oherwydd cystadleuaeth gan eraill, megis awdurdodau lleol eraill yn cynnig cyflogau uwch, ond yn gyffredinol nid oedd Cyngor Sir Ceredigion yn ei chael hi'n anodd cadw staff. Roedd swyddi gwag yn bodoli fel arfer oherwydd bod rhai wedi symud ymlaen yn eu gyrfa neu wedi ymddeol. Roedd yn hanfodol codi'r angen ar bob cyfle gyda Llywodraeth Cymru am raddfa gyflog genedlaethol ledled Cymru ar gyfer y sector Gofal Cymdeithasol ynghyd â thynnu sylw at y farn y dylai hyn gael ei ariannu yn llawn gan Lywodraeth Cymru, o ystyried y pwysau ariannol ar awdurdodau lleol.
- Ar hyn o bryd, roedd 38 o Weithwyr Cymdeithasol asiantaeth yn gweithio ar draws yr awdurdod lleol (roedd 8 o Weithwyr Cymdeithasol a 2 Uwch Ymarferydd yng Ngofal wedi'i Gynllunio). Roedd y rhan fwyaf o'r Gweithwyr Cymdeithasol a ddaeth yn gymwys yn ddiweddar wedi dewis gweithio gydag oedolion, tra bod y rhan fwyaf o'r staff asiantaeth yn gweithio gyda phlant o achos nifer y swyddi gwag. Y gobaith yw y bydd y radd MSc arfaethedig yn arwain at recriwtio yn lleol gan gryfhau'r gwasanaethau.
- Er mwyn recriwtio pobl i weithio i'r awdurdod lleol yn y sector Gofal Cymdeithasol, teimlai'r aelodau ei bod yn bwysig hyrwyddo gwaith cymdeithasol yn gadarnhaol ynghyd â'r cyfleoedd sydd ar gael ledled y sir. Mae clipiau fideo gan weithwyr yn trafod ac yn hyrwyddo eu rolau, a'r ardal, wedi cael eu defnyddio mewn ymgyrchoedd recriwtio yn ddiweddar. Wrth i dechnoleg a chyfathrebu ddatblygu, mae hi'n bwysig ystyried yr holl opsiynau sydd ar gael.
- Mewn ymateb i bryderon a fynegwyd ynghylch sgiliau ieithyddol staff asiantaeth, eglurwyd bod rhai o'r gweithwyr asiantaeth yn siarad Cymraeg. Teimlai'r aelodau y gallai fod mwy o gydweithio gyda sefydliadau academaidd megis Prifysgol Bangor i ddatblygu hyfforddiant a lleoliadau gwaith, gan roi sylw arbennig i hyfforddi Gweithwyr Cymdeithasol dwyieithog.
- Byddai angen defnyddio rhywfaint o staff asiantaeth bob amser yn yr awdurdod lleol, ond cael cydbwysedd sy'n allweddol. Yn ystod y blynyddoedd nesaf, roedd gweithio ar gynllunio olyniaeth yn bwysig,

nid yn unig oherwydd y swyddi gwag ond oherwydd bod rhai'n ymddeol. Bydd yr Aelodau'n cael y diweddaraf am hyn maes o law.

O ystyried yr heriau recriwtio ar draws yr awdurdod lleol yn gyffredinol, cytunodd y Cynghorydd Rhodri Evans, Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol, i gynnwys yr eitem hon ar flaenraglen waith y Pwyllgor er mwyn ei hystyried. Yn ogystal, o ystyried ei rôl ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, roedd e'n barod i godi materion recriwtio yn ôl yr angen.

Yn dilyn cwestiynau, ystyriodd Aelodau'r Pwyllgor yr argymhellion canlynol:

1. Nodi'r sefyllfa bresennol o ran y defnydd pwysig o weithwyr asiantaeth yn ein gwasanaethau gofal cymdeithasol.
2. Nodi'r hyn yr ydym eisoes yn ei wneud i ymateb i'r her o recriwtio gweithwyr yn y sector hwn.
3. Rhoi adborth ac awgrymu unrhyw atebion posibl eraill i ddatrys yr her recriwtio.
4. Cymeradwyo bod swyddogion yn cydweithio â phartneriaid gan gynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i bwysu a mesur cyfleoedd creadigol ac arloesol i ddarparu atebion mwy hirdymor.

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i argymhell i'r Cabinet:

1. Bod Aelodau'r Pwyllgor yn nodi argymhelliad 1 a 2 uchod;
2. Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r trafodaethau parhaus gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer graddfa gyflog genedlaethol ar gyfer staff Gofal Cymdeithasol, wedi'i hariannu'n llawn; a hefyd
3. Bod yr awdurdod yn cefnogi mwy o gydweithio gyda sefydliadau academiaidd megis Prifysgol Bangor i ddatblygu hyfforddiant a lleoliadau gwaith, gan roi sylw arbennig i hyfforddi Gweithwyr Cymdeithasol dwyieithog.

4 Gwasanaeth Cefnogi Taliadau Uniongyrchol

Rhodddwyd ystyriaeth i'r adroddiad ar gynnydd y Gwasanaeth Cymorth Taliadau Uniongyrchol. Taliad Uniongyrchol oedd arian a roddwyd gan Awdurdod Lleol i Ddefnyddwyr Gwasanaeth er mwyn iddynt fedru trefnu eu pecyn gofal eu hunain. Roedd Taliadau Uniongyrchol yn cael eu cynnig i unrhyw un oedd wedi cael ei asesu i fod yn gymwys i dderbyn gwasanaethau gofal cymunedol. Ar ôl cael eu hasesu, rhaid cynnig y dewis o daliad uniongyrchol i unigolyn. Roedd y swm a roddwyd yn dibynnu ar faint o gymorth oedd ei angen, a pha fath, ac roedd hyn i gyd yn cael ei gynnwys yn y cynllun gofal oedd yn cael ei lunio gan yr aseswr. Roedd rhai yn dewis defnyddio asiantaeth ofal yn lle hynny. Roedd yn rhaid i awdurdodau lleol roi cymorth a chefnogaeth i bobl iddynt reoli eu Taliad Uniongyrchol a'u cyfrifoldebau cyflogaeth. Rôl y Gwasanaeth Cymorth Taliadau Uniongyrchol oedd hyn.

Roedd Archwilio Cymru wedi disgrifio nodweddion meincnodi awdurdodau lleol oedd yn effeithiol wrth annog, rheoli a chefnogi pobl i ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol. Rhodddwyd trosolwg o'r sefyllfa bresennol, fel y nodwyd yn yr adroddiad.

Cytunwyd i nodi'r wybodaeth a'r diweddariad ar ddatblygiadau o fewn y Gwasanaeth Cymorth Taliadau Uniongyrchol.

5 Adroddiad ar y Gofrestr Tai

Esboniodd y Cynghorydd Matthew Vaux (Aelod Cabinet dros Bartneriaethau, Tai, Gwasanaeth Cyfreithiol a Llywodraethu, a Diogelu'r Cyhoedd) mai diben yr adroddiad oedd rhoi gwybodaeth am broses ymgeisio a bandio'r Gofrestr Tai, a'r cysylltiadau a'r buddion oedd ynghlwm. Dywedwyd bod y wybodaeth a gasglir yn helpu'r gwasanaeth i nodi tueddiadau a fydd yn cael eu hystyried yn y Polisi a'r Strategaeth Tai.

Rhoddodd Llyr Hughes gyflwyniad i'r Pwyllgor gan amlinellu'r canlynol:

- Pwrpas y Gofrestr/ Galwadau ar y Gwasanaeth
- Partneriaid
- Proses Ymgeisio a Pholisïau/Cofrestrau
- Polisi Dyrannu Cyffredin a Bandio
- Ceisiadau- 01/04/2022 hyd 31/03/2023
- Dadansoddiad o'r Bandio presennol
- Rhesymau dros symud
- Dyraniadau - 01/04/2022 hyd 31/03/2023
- Manylion Cyswllt

Cafodd yr aelodau gyfle i ofyn cwestiynau a gafodd eu hateb gan Llyr Hughes, Cerys Purches-Phillips a'r Cynghorydd Matthew Vaux. Dyma'r prif bwyntiau a godwyd:

- Mewn ymateb i ymholiadau am yr angen i adnewyddu ceisiadau tai yn flynyddol, nodwyd bod hyn er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn gyfredol ac yn gywir a bod dal angen am dŷ. Roedd mecanwaith cadarn ar waith i sicrhau fod pob ymdrech yn cael ei wneud i gysylltu ag ymgeiswyr pan oedd angen iddynt adnewyddu, ac roedd yn allweddol bod y manylion yn gywir rhag ofn fod cynnig am lety yn cyrraedd.
- Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig oedd yn gyfrifol am reoli tenantiaeth, yn hytrach na'r awdurdod lleol a oedd yn gyfrifol am y cyfnod cyn tenantiaeth. Anogwyd aelodau i gysylltu â'r gymdeithas dai berthnasol os oedd problemau i'w riportio.
- Amlygwyd mor bwysig oedd peidio â chael rhagdybiaethau ynglŷn â dyrannu tai cymdeithasol. Roedd polisi a phroses i'w dilyn gan gynnwys bodloni'r meini prawf ar gysylltiadau lleol i sicrhau bod ceisiadau'n cael eu bandio'n briodol.
- Nid oedd yna dystiolaeth i awgrymu bod mwy o ddigartrefedd wedi i Rhentu Doeth Cymru gael ei gyflwyno, ond awgrymai gwybodaeth anecdotaidd fod landlordiaid yn gadael y farchnad.

Yn dilyn cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor, cytunwyd i nodi'r adroddiad.

6 I gonsidro'r Rhaglen Waith 2023/24

Cytunwyd i nodi cynnwys y Flaen Raglen Waith a gyflwynwyd, yn ddibynnol ar gynnwys y canlynol:

Tudalen 257

- Gwahodd landlordiaid cymdeithasol cofrestredig lleol (Barcud, Cymdeithas Tai Wales & West, a Caredig) i annerch y Pwyllgor (Mawrth 2024)
- Cael diweddariad ar wasanaethau iechyd meddwl Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

7 Cofnodion o'r Pwyllgor diweddara ac unrhyw faterion sy'n codi ohonynt
Cytunwyd i gadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Mai 2023.

Materion sy'n codi: Dim.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu
Cymunedau Iachach a gynhaliwyd ar 18 Medi 2023**

Cadeirydd: _____

Dyddiad: _____

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol